Cynulliad Cenedlaethol Cymru
(Y Cofnod Swyddogol)

The National Assembly for Wales
(The Official Record)

Dydd Mercher 2 Chwefror 2000

Wednesday 2 February 2000

Cynnwys
Contents

3 Cwestiynau i’r Ysgrifennydd Addysg a Phlant
Questions to the Secretary for Education and Children

11 Cwestiynau i’r Ysgrifennydd Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig
Questions to the Secretary for Agriculture and Rural Development

21 Cymeradwyo Rheoliadau Grant Cynnal Refeniw (Cyrff Penodedig) (Cymru) 2000
Approval of the Revenue Support Grant (Specified Bodies) (Wales) Regulations 2000

23 Cymeradwyo Rheoliadau Awdurdodau’r Parciau Cenedlaethol (Ardollau) (Cymru) (Diwygio) 2000
Approval of the National Park Authorities (Levies) (Wales) (Amendment) Regulations 2000

26 Cymeradwyo Rheoliadau Cynghorau Iechyd Cymuned Diwygio (Cymru) 2000
Approval of the Community Health Council Amendment (Wales) Regulations 2000

28 Ymateb y Cynulliad i Raglen Ddeddfau Llywodraeth San Steffan
The Assembly’s Response to the Westminster Government’s Programme of Legislation

83 Dadl Fer: Prif Lein Gogledd Cymru
Short Debate: The North Wales Main Line

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynddi yn y Siambr. Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad o’r areithiau hynny.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation of those speeches has been included.

Cyfarfu'r Cynulliad am 2 p.m. gyda'r Llywydd yn y Gadair.
The Assembly met at 2 p.m. with the Presiding Officer in the Chair.

Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Addysg a Phlant
Questions to the Secretary for Education and Children

The Presiding Officer: I see that William Graham is not in the Chamber. We will therefore take question 1 later.

Y Llywydd: Gwelaf nad yw William Graham yn y Siambr. Cymerwn gwestiwn rhif 1 yn ddiweddarach felly.

Tâl yn ôl Perfformiad (Cynigion Terfynol)
Performance-related Pay (Final Proposals)

Q2 Jonathan Morgan: When does the Secretary for Education and Children intend to put forward final proposals on performance-related pay to the Assembly? (OAQ3225)

C2 Jonathan Morgan: Pryd y mae Rosemary Butler yn bwriadu cyflwyno cynigion terfynol ynghylch tâl yn ôl perfformiad i'r Cynulliad? (OAQ3225)

The Secretary for Education and Children (Rosemary Butler): Proposals on teachers' pay were put to the School Teachers' Review Body by the Department for Education and Employment, which has statutory responsibility for this matter in both Wales and England. The review body has just submitted its report to the Secretary of State for Education and Employment and he has indicated that he proposes to accept their recommendations.

Yr Ysgrifennydd Addysg a Phlant (Rosemary Butler): Cyflwynwyd cynigion ynghylch cyflogau athrawon i'r Corff Adolygu Athrawon Ysgol gan yr Adran Addysg a Chyflogaeth, sydd â chyfrifoldeb statudol am y mater hwn yng Nghymru a Lloegr. Mae'r corff adolygu newydd gyflwyno ei adroddiad i'r Ysgrifennydd Addysg a Chyflogaeth ac mae wedi nodi ei fod yn bwriadu derbyn eu hargymhellion.

I have consulted widely across Wales on proposals for a new performance management system for teachers, and have held discussions with the teaching unions and other interested groups. Once I have been able to consider all these views, and the School Teachers' Review Body's recommendations, I will bring my proposals forward at the earliest opportunity.

Yr wyf wedi ymgynghori'n eang ledled Cymru ar y cynigion i sefydlu system newydd i reoli perfformiad athrawon, ac wedi cynnal trafodaethau gydag undebau'r athrawon a grwpiau eraill sydd â diddordeb. Cyn gynted ag y byddaf wedi gallu ystyried pob barn a gafwyd, ac argymhellion y Corff Adolygu Athrawon Ysgol, byddaf yn dwyn fy nghynigion ger bron ar y cyfle cyntaf posibl.

Jonathan Morgan: Will you confirm whether or not the process of contracting out to a private organisation to provide the external advisers in the proposed system has already been undertaken against the express wishes of the Pre-16 Education Committee? The Committee felt that the external advisers should be in-house, perhaps within Estyn or the local education authorities.

Jonathan Morgan: A wnewch chi gadarnhau pa un a yw'r broses o osod contract i gorff preifat i ddarparu ymgynghorwyr allanol o fewn y system sydd yn cael ei chynnig wedi mynd rhagddi yn barod yn groes i ddymuniadau cwbl bendant y Pwyllgor Addysg Ôl-16? Teimlai'r Pwyllgor y dylai'r ymgynghorwyr allanol fod yn aelodau staff, o fewn Estyn efallai neu'r awdurdodau addysg lleol.

Rosemary Butler: I cannot confirm that because it has not happened in Wales.

Rosemary Butler: Ni allaf gadarnhau hynny am nad yw wedi digwydd yng Nghymru.

Gareth Jones: Hoffwn ofyn cwestiwn tebyg. Pan fyddwch yn cyflwyno'r argymhellion terfynol, a allwch chi sicrhau na fydd y Cynulliad yn gwastraffu arian ar system fiwrocrataidd o aseswyr ac asiantaethau allanol, ond yn dibynnu ar yr arbenigedd sydd eisoes ar gael yn ein hawdurdodau addysg lleol yng Nghymru?

Gareth Jones: I want to ask a similar question. When you present the final recommendations, can you ensure that the Assembly will not waste money on a bureaucratic system of assessors and external agencies, but will depend on the expertise that is already available in our local education authorities in Wales?

Rosemary Butler: I hope that I will have given due consideration to all those issues when I present my final recommendations. That is an area that many people have mentioned during our consultations and I will look at it closely.

Rosemary Butler: Gobeithiaf y byddaf wedi rhoi sylw dyledus i'r holl faterion hyn pan fyddaf yn cyflwyno fy argymhellion terfynol. Mae hwn yn faes y mae llawer o bobl wedi ei grybwyll yn ystod yr ymgynghori a byddaf yn edrych arno'n fanwl.

The Presiding Officer: William Graham is now in the Chamber, so we will take question 1.

Y Llywydd: Mae William Graham yn y Siambr erbyn hyn, felly trown at gwestiwn rhif 1.

Tâl yn ôl Perfformiad (Ymgynghori)
Performance-related Pay (Consultation)

Q1 William Graham: Will the Secretary for Education and Children inform all members of the Pre-16 Education Committee of the full consultation she has had regarding performance-related pay? (OAQ3242)

C1 William Graham: A all yr Ysgrifennydd Addysg a Phlant hysbysu holl aelodau'r Pwyllgor o'r ymgynghoriad llawn y mae wedi ei gynnal ynghylch tâl yn ôl perfformiad? (OAQ3242)

Rosemary Butler: Teachers' pay in Wales and England is the statutory responsibility of the Department for Education and Employment. In Wales, I have consulted on a new performance management system with all schools, teacher associations, trade unions, the Welsh Local Government Association, governors and other bodies that have an interest in education.

Rosemary Butler: Yr Adran Addysg a Chyflogaeth sydd â'r cyfrifoldeb statudol am gyflogau athrawon yng Nghymru a Lloegr. Yng Nghymru, yr wyf wedi ymgynghori ynghylch system rheoli perfformiad newydd gyda'r ysgolion i gyd, cymdeithasau athrawon, undebau llafur, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, llywodraethwyr a chyrff eraill sydd â diddordeb mewn addysg.

William Graham: As an example of openness and transparency, will the documents containing the responses be placed in the Library?

William Graham: Fel enghraifft o fod yn agored a thryloyw, a fydd y dogfennau sydd yn cynnwys yr ymatebion yn cael eu rhoi yn y Llyfrgell?

Rosemary Butler: When I present my report, I will give due consideration to that point. There are a lot of responses. If I put them in the Library, William, I will question you on every one of them.

Rosemary Butler: Pan gyflwynaf fy adroddiad, byddaf yn rhoi sylw dyledus i'r pwynt yna. Cafwyd llawer iawn o ymatebion. Os rhoddaf hwy yn y Llyfrgell, William, byddaf yn eich holi ar bob un ohonynt.

David Lloyd: O'r holl unigolion a chynrychiolwyr undebau yr ydych wedi

David Lloyd: Of all the individuals and union representatives with whom you have

ymgynghori â hwy, faint ohonynt sydd yn cefnogi'r cynnig i gysylltu cyflogau athrawon â chanlyniadau eu disgyblion?

consulted, how many support the proposal to link teachers' pay to their pupils' performance?

Rosemary Butler: That is an interesting question. I have received many responses and I have had constructive dialogue with all the unions and a huge range of people. Different people have agreed with different aspects of my proposals, but all the suggestions I have received have been constructive about how we can have a performance management system that is appropriate to Wales.

Rosemary Butler: Mae hynny yn gwestiwn diddorol. Yr wyf wedi derbyn llawer o ymatebion ac wedi cynnal deialog adeiladol gyda'r undebau i gyd ac ystod enfawr o bobl. Mae gwahanol bobl wedi cytuno â gwahanol agweddau o'm cynigion, ond mae'r holl awgrymiadau yr wyf wedi eu derbyn wedi ymdrin yn adeiladol â sut y gallwn gael system rheoli perfformiad sydd yn briodol i Gymru.

Jenny Randerson: Section 49 of the Teachers' Pay and Conditions Act 1987 allows the Assembly, through subsequent Acts, to appraise teachers' performance. In view of that, why do you believe that we have to be tied so closely to the English model and have a similar bureaucratic structure to that which is planned for England, rather than considering the model that the Committee proposed that was based on Estyn?

Jenny Randerson: Mae Adran 49 Deddf Cyflogau ac Amodau Athrawon 1987 yn caniatáu i'r Cynulliad, drwy Ddeddfau dilynol, werthuso perfformiad athrawon. Yn wyneb hynny, pam ydych chi o'r farn fod yn rhaid inni gael ein clymu mor dynn wrth fodel Lloegr a mabwysiadu strwythur biwrocrataidd tebyg i'r hyn sydd yn yr arfaeth i Loegr, yn lle ystyried y model a awgrymwyd gan y Pwyllgor a oedd wedi ei seilio ar Estyn?

Rosemary Butler: We have pay and conditions for Wales and England. The pay and conditions have to be similar across the two countries, as we have a lot of cross-border teaching. I am hoping that, when I finish my consultation and considerations, the performance management system will be appropriate to Wales. If it is similar to the system in England, so be it, but it will be right for Wales. If it is right for Wales, in some parts, it could be right for England. I will produce what I think will be appropriate for the education system in Wales.

Rosemary Butler: Mae gennym gyflogau ac amodau i Gymru a Lloegr. Mae'n rhaid i'r cyflogau a'r amodau fod yn debyg yn y ddwy wlad, gan fod gennym lawer o ddysgu ar draws y ffin. Pan fyddaf wedi gorffen ymgynghori ac ystyried, yr wyf yn gobeithio y bydd y system rheoli perfformiad yn briodol i Gymru. Os yw'n debyg i'r system yn Lloegr, boed hynny fel y bo, ond bydd yn iawn i Gymru. Os yw'n iawn i Gymru, mewn rhai rhannau, gallai fod yn iawn i Loegr. Bydd yn cyflwyno yr hyn sydd yn fy marn i yn briodol ar gyfer y gyfundrefn addysg yng Nghymru.

Hyfforddiant Cychwynnol Gorfodol (Llywodraethwyr Ysgolion)
Compulsory Initial Training (School Governors)

C3 Christine Humphreys: A oes gan Rosemary Butler unrhyw gynlluniau i gyflwyno hyfforddiant cychwynnol gorfodol i lywodraethwyr ysgolion? (OAQ3246)

Q3 Christine Humphreys: Does Rosemary Butler have any plans to introduce compulsory initial training for school governors? (OAQ3246)

Rosemary Butler: As I made clear in my answer on 8 December, I do not believe that compulsion is appropriate for a voluntary activity of this kind. However, I agree that all new governors need timely induction

Rosemary Butler: Fel y'i gwnaethpwyd yn glir yn fy ateb ar 8 Rhagfyr, ni chredaf fod gorfodaeth yn briodol ar gyfer gweithgaredd gwirfoddol o'r math hwn. Fodd bynnag, cytunaf fod angen hyfforddiant cyflwyno

training. I will work with local education authorities and other organisations to promote such training. Recruitment arrangements should state the expectation that newly appointed governors will undertake induction training and continue to update their skills and knowledge thereafter.

cyfamserol ar bob llywodraethwr newydd. Byddaf yn gweithio gyda'r awdurdodau addysg lleol a chyrff eraill i hyrwyddo hyfforddiant o'r fath. Dylai'r trefniadau recriwtio ddatgan y bydd disgwyl i bob llywodraethwr newydd a benodir ymgymryd â hyfforddiant cyflwyno a pharhau i ddiweddaru ei sgiliau a'i wybodaeth wedi hynny.

2:09 p.m.

Christine Humphreys: Mae'n amlwg bod mwy a mwy o gyfrifoldebau'n cael eu trosglwyddo o'r awdurdodau lleol i ysgolion a'u llywodraethwyr, gan gynnwys cyfrifoldebau cyfreithiol trwm. Mae Llywodraethwyr Cymru, y corff ymbarél i lywodraethwyr, wedi galw am hyfforddiant cychwynnol i lywodraethwyr a rhagor o hyfforddiant yn ystod eu cyfnod yn y swydd. A gytunwch y dylid cael nifer penodol o oriau hyffordiant i sicrhau y gallant gyflawni eu dyletswyddau hyd eithaf eu gallu?

Christine Humphreys: It is obvious that more and more responsibilities are being transferred from local authorities to schools and their governors, including heavy legal responsibilities. Governors Wales, the umbrella body for governors, has asked for initial training for governors and more training during their period of office. Do you agree that there should be a specific number of training hours to ensure that they can fulfil their responsibilities to the best of their ability?

Rosemary Butler: Yes. All LEAs offer training, and the quality of that training is generally good. I would support efforts to improve the quality, range and accessibility of that training. When people apply, or are interviewed to be governors, they must be questioned whether they would be prepared to take part in training. I do not want to put people off by insisting that they have formal training. As soon as people become governors, I would like them to receive induction training while they are keen and enthusiastic. We all know that, after a while, things tend to wear off. I have been in contact with Governors Wales and it has interesting suggestions on how it could train governors. However, I believe that compulsory training would deter people. On the other hand, it is important that they know what is expected of them.

Rosemary Butler: Gwnaf. Mae pob AALl yn cynnig hyfforddiant, ac mae ansawdd yr hyfforddiant yn dda ar y cyfan. Byddwn yn cefnogi ymdrechion i wella ansawdd, ystod a hygyrchedd yr hyfforddiant hwnnw. Pan fo pobl yn ymgeisio, neu'n cael eu cyfweld i fod yn llywodraethwyr, rhaid gofyn iddynt a fyddent yn barod i gymryd rhan mewn hyfforddiant. Nid wyf am wthio pobl ymaith drwy fynnu eu bod yn cael hyfforddiant ffurfiol. Cyn gynted ag y daw pobl yn llywodraethwyr, hoffwn iddynt gael hyfforddiant cyflwyno tra'u bod yn awyddus a brwdfrydig. Gŵyr pawb ohonom fod y brwdfrydedd yn pylu ar ôl tipyn. Bûm mewn cysylltiad â Llywodraethwyr Cymru ac mae gan y corff awgrymiadau diddorol ar sut y gallai hyfforddi llywodraethwyr. Fodd bynnag, credaf y byddai hyfforddiant gorfodol yn llestair i bobl. Ar y llaw arall, mae'n bwysig eu bod yn gwybod yr hyn a ddisgwylir ganddynt.

Val Feld: Given the serious continuing under-representation of women and black people as headteachers in Wales, particularly in the secondary sector, and the important role of governors in recruiting and delivering equal opportunities, do you have any plans, or would you consider putting in place

Val Feld: O gofio bod diffyg cynrychiolaeth ddifrifol o blith menywod a phobl ddu fel prifathrawon yng Nghymru, yn enwedig yn y sector uwchradd, a rôl bwysig llywodraethwyr yn recriwtio a gwireddu cyfle cyfartal, a oes gennych unrhyw gynlluniau, neu a fyddech yn ystyried sefydlu

measures, to ensure that governors are aware of the importance of equal opportunities training?

mesurau, i sicrhau bod llywodraethwyr yn ymwybodol o bwysigrwydd hyfforddiant cyfle cyfartal?

Rosemary Butler: That is crucial, and all public bodies should be aware of the importance of that kind of training. The Assembly's education department allocated money and printed leaflets, which were distributed throughout Wales in Welsh and English, to try to encourage more people to become governors. However, it is up to every Assembly Member and every member of a governing body to try to persuade people they know to come forward to train as governors. Although it is hard work, it is rewarding. I hope that we will not have the difficulty of unfilled places on governing bodies. I would like to see every place filled by the middle of this year.

Rosemary Butler: Mae hynny'n hanfodol, a dylai pob corff cyhoeddus fod yn ymwybodol o bwysigrwydd y math hwn o hyfforddiant. Neilltuodd adran addysg y Cynulliad arian ac argraffodd daflenni, a ddosbarthwyd ledled Cymru yn y Gymraeg a'r Saesneg, i geisio annog mwy o bobl i fod yn lywodraethwyr. Fodd bynnag, mater i bob Aelod o'r Cynulliad a phob aelod o gorff llywodraethu yw ceisio perswadio pobl y maent yn eu hadnabod i ddod ymlaen i gael eu hyfforddi yn llywodraethwyr. Er ei fod yn waith galed, mae'n werth chweil. Gobeithiaf na chawn broblemau gyda llefydd gwag ar gyrff llywodraethu. Hoffwn weld pob lle yn llawn erbyn canol y flwyddyn eleni.

Dinasyddiaeth
Citizenship

Q4 Brian Hancock: How will Rosemary Butler ensure that citizenship is introduced in schools in Wales? (OAQ3262)

C4 Brian Hancock: Sut y bydd Rosemary Butler yn sicrhau bod dinasyddiaeth yn cael ei chyflwyno mewn ysgolion yng Nghymru? (OAQ3262)

Rosemary Butler: Citizenship is a crucial element of the new framework for personal and social education that will be introduced in schools from next September. I am delighted by the response that the framework has received from teachers to date. As you know, we had a good debate on that issue two Plenary sessions ago. I want young people to be actively involved in their communities. Volunteering is an essential part of good citizenship and it also helps to build a sense of community. We will continue to pursue a range of initiatives aimed at encouraging young people, while still at school, to take an interest and get involved in their communities.

Rosemary Butler: Mae dinasyddiaeth yn elfen holl bwysig yn y fframwaith newydd i addysg bersonol a chymdeithasol a gyflwynir mewn ysgolion o fis Medi nesaf. Yr wyf wrth fy modd â'r ymateb a gafwyd i'r fframwaith oddi wrth athrawon hyd yma. Fel y gwyddoch, cawsom ddadl dda ar y mater yn y Sesiwn Llawn olaf ond un. Yr wyf am i bobl ifanc gyfrannu'n fyw yn eu cymunedau. Mae gwirfoddoli yn rhan hanfodol o ddinasyddiaeth dda ac mae'n help hefyd i greu ymdeimlad o gymuned. Byddwn yn parhau i fynd ar drywydd amryw o gynlluniau gyda'r nod o annog pobl ifainc, tra'u bod yn dal yn yr ysgol, i gymryd diddordeb a chwarae rhan yn eu cymunedau.

Brian Hancock: I also welcome the framework for Wales. It is extremely important. However, do you agree that it is important to develop citizenship and sustainable development within the PSE element of the curriculum? Do you also agree that implementation is important and that, in an increasingly restricted curriculum, we must import skills to our students and pupils

Brian Hancock: Croesawaf innau y fframwaith i Gymru. Mae'n bwysig eithriadol. Fodd bynnag, ydych chi'n cytuno ei bod hi'n bwysig datblygu dinasyddiaeth a datblygu cynaliadwy o fewn elfen ABCh y cwricwlwm? Ydych chi'n cytuno hefyd fod gweithredu yn bwysig ac, mewn cwricwlwm y cyfyngir arno fwyfwy, fod yn rhaid inni roi sgiliau i'n myfyrwyr a'n disgyblion i'w helpu

that help them to make decisions, rather than prescribe what they should think? We must encourage them to think about being citizens, not just locally but globally.

i wneud penderfyniadau, yn hytrach na phennu yr hyn y dylent ei feddwl? Rhaid inni eu hannog i feddwl am fod yn ddinasyddion, nid dim ond yn lleol ond yn fyd-eang.

Rosemary Butler: I am surprised that you said that this is a more restrictive curriculum. If you remember, the debate we had a fortnight ago was on the new curriculum for Wales, which is much leaner and gives teachers more flexibility to teach the subjects.

Rosemary Butler: Yr wyf yn synnu ichi ddweud bod y cwricwlwm yn fwy cyfyng. Os cofiwch chi, yr oedd ein dadl bythefnos yn ôl yn ymdrin â'r cwricwlwm newydd i Gymru, sydd yn llawer llai swmpus ac yn rhoi mwy o hyblygrwydd i athrawon i ddysgu'r pynciau.

Brian Hancock: I meant a restricted timescale.

Brian Hancock: Yr oeddwn yn golygu amserlen gyfyng.

Rosemary Butler: You have changed your question, Brian. It is important that children are given the opportunity to look at life across the board, and not just be told what they must think. This is not only for schools. It is not only up to teachers, but to families and outside organisations as well. Although I do not know if you are still a runner, you are a member of Newport Harriers. That kind of club should also be encouraged to ensure that children are aware of their rights as citizens and that they take part in community activities. You cannot depend on teachers all of the time.

Rosemary Butler: Yr ydych wedi newid eich cwestiwn, Brian. Mae'n bwysig bod plant yn cael y cyfle i edrych ar fywyd yn ei gyfanrwydd, yn hytrach na dweud wrthynt beth y mae'n rhaid iddynt ei feddwl. Nid mater i ysgolion yn unig mo hyn. Mae'n fater nid yn unig i athrawon, ond i deuluoedd a chyrff allanol hefyd. Er na wn i a ydych chi'n dal i redeg, yr ydych yn aelod o Harriers Casnewydd. Dylid rhoi anogaeth i glwb fel yna hefyd i sicrhau bod plant yn ymwybodol o'u hawliau fel dinasyddion a'u bod yn cymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol. Ni allwch ddibynnu ar athrawon drwy'r amser.

David Davies: Would the Secretary for Education and Children agree that a qualification in citizenship would be of little use to pupils looking for employment and would not be valued by employers? Furthermore, do you agree that it could be misused, like one of its more infamous predecessors, peace studies—a product of left-wingery in the 1980s—by a small minority of irresponsible teachers to indoctrinate pupils in an inappropriate fashion?

David Davies: A fyddai'r Ysgrifennydd Addysg a Phlant yn cytuno na fyddai cymhwyster mewn dinasyddiaeth o lawer o fudd i ddisgyblion sydd yn chwilio am waith ac na fyddai cyflogwyr yn gweld unrhyw werth ynddo? Yn ychwanegol, ydych chi'n cytuno y gallai gael ei gamddefnyddio, fel un o'i ragflaenwyr mwyaf gwaradwyddus, astudiaethau heddwch—cynnyrch yr adain chwith yn y 1980au—gan leiafrif bychan o athrawon anghyfrifol i wthio syniadau ar ddisgyblion mewn modd amhriodol?

Rosemary Butler: I did not realise that peace studies were a right-wing activity. I must think about that. Left-wing, I beg your pardon. It is important that a child should receive credit for whatever he or she can learn and achieve in school. When children leave school, they have packs which they can present to an employer, not only showing their academic development but also the kinds of activities that they have pursued—

Rosemary Butler: Nid oeddwn yn sylweddoli mai gweithgaredd adain dde oedd astudiaethau heddwch. Bydd yn rhaid imi feddwl am hynny. Adain chwith, mae'n ddrwg gennyf. Mae'n bwysig bod plentyn yn cael clod am ba beth bynnag y gall ef neu hi ei ddysgu a'i gyflawni yn yr ysgol. Pan fo plant yn gadael yr ysgol, mae ganddynt becynnau y gallant eu rhoi i gyflogwr, yn dangos nid yn unig eu datblygiad academaidd

working in the community and so on. I hope that PSE is taught in a sensitive way and that people are made aware of the importance of peace and how to relate to other people. I would not want anybody to cast doubt on the value of PSE as a subject and as a way of teaching children how to behave in life and how to develop after school. I would not want any of the connotations that you suggested are associated with this development.

ond hefyd y math o weithgareddau y maent wedi cymryd rhan ynddynt—gweithio yn y gymuned ac ati. Gobeithiaf fod ABCh yn cael ei dysgu mewn modd sensitif ac y gwneir pobl yn ymwybodol o bwysigrwydd heddwch a sut y mae bwrw ymlaen â phobl eraill. Ni fyddwn am i unrhyw un fwrw amheuaeth ar werth ABCh fel pwnc ac fel ffordd o ddysgu i blant sut mae ymddwyn mewn bywyd a sut i ddatblygu ar ôl yr ysgol. Ni fyddwn am weld unrhyw arlliw o'r cysylltiadau yr awgrymwch chi sydd ynghlwm wrth y datblygiad hwn.

Karen Sinclair: I was disappointed by the previous question. Does Rosemary agree that no teacher would compile a citizenship programme in isolation from the other staff in the school, and that the whole programme would be greatly scrutinised before it was put forward? As a governor in my school, I have seen detailed planning and have been aware of the amount of interaction that has occurred between governors and teachers in order to put together a programme. I find it offensive that it could be seen that teachers could possibly do this.

Karen Sinclair: Yr oeddwn wedi fy siomi yn y cwestiwn blaenorol. A yw Rosemary'n cytuno na fyddai unrhyw athro yn llunio rhaglen ddinasyddiaeth heb ymgynghori â'r aelodau staff eraill yn yr ysgol, ac y câi'r rhaglen gyfan ei harchwilio'n drylwyr cyn ei rhoi ar waith? Fel llywodraethwr yn fy ysgol, yr wyf wedi gweld cynllunio manwl ac wedi bod yn ymwybodol o faint o gysylltu yn ôl a blaen rhwng llywodraethwyr ac athrawon a fu yna er mwyn llunio rhaglen. Mae'n beth sarhaus i mi i awgrymu y gallai athrawon wneud hyn.

Rosemary Butler: Your point about the governors and the school development plan is important. Whatever is taught in school is agreed within the school development plan. The Assembly currently has those plans in order for officials to look at them before they are returned to the authorities. PSE is a subject that is taught across the school. Therefore, one individual could not have the kind of influence that David suggested.

Rosemary Butler: Mae eich pwynt am y llywodraethwyr a'r cynllun datblygu ysgol yn bwysig. Beth bynnag sydd yn cael ei ddysgu yn yr ysgol, cytunir arno o fewn cynllun datblygu'r ysgol. Mae'r cynlluniau hyn yn llaw'r Cynulliad ar hyn o bryd er mwyn i'r swyddogion edrych arnynt cyn eu dychwelyd i'r awdurdodau. Mae ABCh yn bwnc sydd yn cael ei ddysgu ar draws yr ysgol. Ni allai un unigolyn felly gael y math o ddylanwad a awgrymai David.

Cyllido Llywodraethwyr Cymru
Funding Governors Wales

Q5 Mick Bates: Does Rosemary Butler have any plans to increase the funding of Governors Wales? (OAQ3243)

C5 Mick Bates: A oes unrhyw gynlluniau gan Rosemary Butler i gynyddu cyllid Llywodraethwyr Cymru? (OAQ3243)

Rosemary Butler: In 1999-2000, Governors Wales received grants totalling £125,000—£65,000 for running costs and £60,000 in project grants. My officials are currently considering an application from Governors Wales for a three-year funding grant from April 2000 onwards. The grant would be provided within the budget expenditure line

Rosemary Butler: Yn 1999-2000, derbyniodd Llywodraethwyr Cymru grantiau o £125,000 i gyd—£65,000 tuag at gostau cynnal a £60,000 mewn grantiau prosiect. Mae fy swyddogion wrthi ar hyn o bryd yn ystyried cais gan Lywodraethwyr Cymru am grant cyllido tair blynedd o fis Ebrill 2000 ymlaen. Câi'r grant ei ddarparu o fewn y

on governor support activities, which will hopefully be finalised shortly. I expect to make some increase in running costs funding available for 2000-01 to reflect the growing role of Governors Wales. I will consider any proposals for new projects that Governors Wales puts forward.

llinell wariant yn y gyllideb i weithgareddau cefnogi llywodraethwyr. Gobeithiaf y bydd wedi ei chwblhau yn fuan. Yn ôl a ddisgwyliaf ceir rhywfaint o gynnydd yn y cyllid tuag at gostau cynnal yn 2000-01 i adlewyrchu rôl gynyddol Llywodraethwyr Cymru. Byddaf yn ystyried unrhyw gynigion am brosiectau newydd a gyflwynir gan Lywodraethwyr Cymru.

Mick Bates: As an ex-governor, as I am sure many of us are, I understand the vital importance of governance. However, I am concerned that Governors Wales is run on a shoestring budget. One thing that governors always need is information and help. What plans do you have to establish a helpline to get the governors of schools in Wales through the many crises that they face today?

Mick Bates: Fel cyn lywodraethwr, fel llawer ohonom yr wyf yn siŵr, deallaf mor hanfodol bwysig yw llywodraethu. Fodd bynnag, yr wyf yn gofidio bod Llywodraethwyr Cymru yn cael ei redeg ar gyllideb ceiniog a dimai. Un peth sydd ei angen ar lywodraethwyr bob amser yw gwybodaeth a help. Pa gynlluniau sydd gennych i sefydlu llinell gymorth i helpu llywodraethwyr ysgolion Cymru drwy'r argyfyngau lawer sydd yn eu hwynebu heddiw?

Rosemary Butler: Governors may certainly face challenges, but they are hopefully not facing many crises. I am actively considering this, Mick. Other people have helplines so that they can have ready access to advice, and we are presently looking at this. I am sorry that you think it is being funded on a shoestring. Governors Wales is content with what it receives towards day-to-day running costs. However, it is interested in project money and we are making some available to it.

Rosemary Butler: Efallai fod llywodraethwyr yn wynebu llawer her, ond gobeithio nad ydynt yn wynebu argyfyngau lawer. Yr wyf yn ystyried hyn, Mick. Mae gan bobl eraill linellau cymorth lle gallant gael cyngor hwylus, ac yr ydym yn edrych ar hyn ar hyn o bryd. Mae'n flin gennyf eich bod o'r farn mai cyllid ceiniog a dimai a roddir i Lywodraethwyr Cymru. Maent hwy yn fodlon â'r hyn a dderbynnir tuag at y costau cynnal o ddydd i ddydd. Fodd bynnag, mae ganddynt ddiddordeb mewn arian prosiect a byddwn yn darparu peth arian felly.

2:19 p.m.

Owen John Thomas: O ystyried mor anodd yw darganfod llywodraethwyr ar gyfer llawer o ysgolion, ac ar sail cymhlethdod cynyddol y swydd a'i natur wirfoddol, pa gynlluniau sydd gan Rosemary Butler i ddenu rhagor o lywodraethwyr?

Owen John Thomas: Considering how difficult it is to find governors for many schools, and given the increasing complexity of the job and its voluntary nature, what are Rosemary Butler's plans to attract more governors?

Rosemary Butler: This must be addressed at a national and local level. Nationally, we must ensure that we have a campaign that makes people aware of what governors can do. However, locally, there are different reasons for a shortage of governors. Each area must focus on where that shortage is and pinpoint the individuals concerned. It is up to

Rosemary Butler: Rhaid rhoi sylw i hyn ar lefel genedlaethol a lleol. Yn genedlaethol, rhaid inni sicrhau bod gennym ymgyrch sydd yn gwneud pobl yn ymwybodol o'r hyn y gall llywodraethwyr ei wneud. Fodd bynnag, yn lleol, mae yna resymau gwahanol am brinder llywodraethwyr. Rhaid i bob ardal ganolbwyntio ar ble mae'r prinder a pha

the local governing bodies and the local authorities to ensure that there is a great deal of publicity about the role of governors and that it is not a secret. Once people understand what governors do, they will come forward, albeit tentatively.

unigolion sydd dan sylw. Mater i'r cyrff llywodraethu lleol a'r awdurdodau lleol yw sicrhau bod yna lawer iawn o gyhoeddusrwydd am rôl llywodraethwyr ac nad yw'n gyfrinach. Unwaith y bydd pobl yn deall beth yw gwaith llywodraethwyr, byddant yn cynnig eu hunain, er yn betrus.

Nick Bourne: Does the Secretary for Education and Children agree that, if she has her way, the impending introduction of what can only be described as a complex and bureaucratic performance-related pay framework for teachers will place additional heavy burdens on school governors across Wales? Will she commit herself to providing sufficient additional resources for governor training across Wales for this purpose, especially in voluntary-aided schools, where governors have additional legal responsibilities to fulfil?

Nick Bourne: A yw'r Ysgrifennydd Addysg a Phlant yn cytuno, os caiff hi ei ffordd, y bydd y bwriad i gyflwyno'r hyn na ellir ond ei ddisgrifio fel fframwaith tâl yn ôl perfformiad cymhleth a biwrocrataidd i athrawon yn rhoi beichiau ychwanegol trwm ar lywodraethwyr ysgolion ledled Cymru? A wnaiff hi ymrwymo i ddarparu adnoddau ychwanegol digonol ar gyfer hyfforddi llywodraethwyr ar draws Cymru i'r diben hwn, yn enwedig mewn ysgolion a gynorthwyir yn wirfoddol, lle mae gan y llywodraethwyr gyfrifoldebau cyfreithiol ychwanegol i'w cyflawni?

Rosemary Butler: I hope that the scheme that is eventually accepted by the Assembly will not be overly bureaucratic. It is important to ensure that whatever system we accept is open, transparent, robust and not over-bureaucratic. Funding will be available for governor training, particularly for additional training that voluntary-aided school governors need.

Rosemary Butler: Gobeithiaf na fydd y cynllun a fabwysiadir gan y Cynulliad maes o law yn rhy fiwrocrataidd. Mae'n bwysig sicrhau bod pa system bynnag a dderbynnir gennym yn agored, tryloyw, cadarn a heb fod yn orfiwrocrataidd. Bydd cyllid ar gael tuag at hyfforddi llywodraethwyr, yn enwedig yr hyfforddiant ychwanegol y bydd ei angen ar lywodraethwyr ysgolion a gynorthwyir yn wirfoddol.

Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig
Questions to the Secretary for Agriculture and Rural Development

Hawl i Grwydro
Right to Roam

Q1 Lynne Neagle: What impact does the Secretary for Agriculture and Rural Development expect the proposed right to roam to have on increasing the number of visitors to rural Wales? (OAQ3296)

C1 Lynne Neagle: Pa effaith y mae'r Ysgrifennydd Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig yn disgwyl y caiff yr 'hawl i grwydro' arfaethedig ar gynyddu nifer yr ymwelwyr yng Nghymru wledig? (OAQ3296)

The Secretary for Agriculture and Rural Development (Christine Gwyther): It has been estimated that around 13 million people in Britain enjoy walking, and we want to encourage more. Wales has some of the most beautiful countryside in Britain, most of which is in my constituency, as I am sure you would all agree. Although much is already freely accessible, I am sure that the new

Yr Ysgrifennydd Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig (Christine Gwyther): Amcangyfrifwyd bod tua 13 miliwn o bobl ym Mhrydain yn mwynhau cerdded, ac yr ydym am annog mwy ohono. Ceir yng Nghymru rai o'r ardaloedd cefn gwlad harddaf ym Mhrydain, y rhan fwyaf ohonynt yn fy etholaeth i, fel y byddech oll yn cytuno yr wyf yn siŵr. Er bod mynediad rhydd i

legislation will increase the attractiveness of Wales as a place to holiday with consequent benefits to the local economy.

lawer o dir yn barod, yr wyf yn siŵr y bydd y ddeddfwriaeth newydd yn gwneud Cymru yn fwy deniadol fel lle i ddod iddo ar wyliau gyda'r manteision i'r economi lleol a ddaw yn sgîl hynny.

Lynne Neagle: What work has been done on the potential economic benefits of increasing the numbers of walkers in Wales?

Lynne Neagle: Pa waith sydd wedi ei wneud ar fanteision economaidd posibl cynyddu nifer y cerddwyr yng Nghymru?

Christine Gwyther: The Wales Tourist Board is considering the potential economic benefits. In doing so, it looks to local initiatives that have already been undertaken. In my own county, the Pembrokeshire Coast National Park has put work into this. It estimates that, for every £1 spent per annum on the coastal path, nearly £54 is brought into the local economy. That is a one to 54 ratio every year, year on year. I am confident that the right to roam legislation will help rural Wales. It will bridge the gaps between town and country and will bring money into the areas that we all care about.

Christine Gwyther: Mae Bwrdd Croeso Cymru yn ystyried y manteision economaidd posibl. Wrth wneud hynny, mae'n ystyried cynlluniau lleol sydd wedi eu rhoi ar waith yn barod. Yn fy sir i, mae Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro wedi gwneud gwaith ar hyn. Mae'n amcangyfrif, am bob £1 a warir y flwyddyn ar lwybr yr arfordir, y daw bron i £54 i mewn i'r economi lleol. Mae hynny yn gymhareb un i 54 bob blwyddyn, flwyddyn ar ôl blwyddyn. Yr wyf yn hyderus y bydd y ddeddfwriaeth hawl i grwydro yn helpu Cymru wledig. Bydd yn pontio'r bwlch rhwng y dref a'r wlad ac yn dod ag arian i mewn i'r ardaloedd yr ydym oll am eu gweld yn ffynnu.

Elin Jones: A yw'r Ysgrifennydd yn barod i bwyso ar y Llywodraeth yn San Steffan i sicrhau bod digon o hyblygrwydd yn y Mesur Cefn Gwlad i roi ystyriaeth lawn i'r sefyllfa wahanol iawn sydd yn bodoli yng Nghymru?

Elin Jones: Is the Secretary prepared to put pressure on the Government in Westminster to ensure that there is sufficient flexibility in the Countryside Bill to give full consideration to the very different situation that exists in Wales?

Christine Gwyther: I am always ready and willing to voice the concerns of rural Wales. The Assembly has already started to do that. Later this afternoon, we will discuss legislation and our response to the Bill. The papers for that discussion were prepared by officials in direct response to our last discussion on this matter. We would consider mechanisms like the right of appeal, for example. We could examine local agreements. Some of those already exist so we would want to strengthen them through, for example, local access forums. It is fair to say that people throughout the UK will look at the right to roam pragmatically and try to ensure that landowners and ramblers get the best out of the system.

Christine Gwyther: Yr ydw i bob amser yn barod i leisio pryderon Cymru wledig. Mae'r Cynulliad eisoes wedi dechrau gwneud hynny. Yn ddiweddarach y prynhawn yma, byddwn yn trafod deddfwriaeth a'n hymateb i'r Mesur. Lluniwyd y papurau ar gyfer y drafodaeth honno gan swyddogion mewn ymateb uniongyrchol i'n trafodaeth ddiwethaf ar y mater hwn. Byddem yn ystyried mecanweithiau fel yr hawl i apelio, er enghraifft. Gallem edrych ar gytundebau lleol. Mae rhai o'r rheini yn bodoli'n barod felly byddem am eu cryfhau drwy, er enghraifft, fforymau mynediad lleol. Mae'n deg dweud y bydd pobl ledled y DU yn edrych ar yr hawl i grwydro yn bragmatig gan geisio sicrhau bod tirfeddianwyr a cherddwyr yn cael y gorau o'r system.

Nick Bourne: Based on her predictions of additional visitors to rural Wales who will

Nick Bourne: Ar sail yr ymwelwyr ychwanegol â Chymru wledig y mae'n eu

exercise these new statutory and unwelcome rights, what does the Secretary for Agriculture and Rural Development propose to do about the additional cost placed on farmers, for example, by increased supervision? She previously indicated in answers to questions to myself and Glyn Davies that those costs would be met centrally. Will she restate that no additional costs will be placed on landowners as a result of this Westminster legislation?

darogan fydd yn arddel yr hawliau statudol newydd hyn nad oes croeso iddynt, beth mae'r Ysgrifennydd Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig yn bwriadu ei wneud ynglŷn â'r gost ychwanegol a roddir ar ffermwyr, er enghraifft, oherwydd mwy o oruchwylio? Mae wedi nodi cynt mewn atebion i gwestiynau ataf fi a Glyn Davies y caiff y costau hyn eu talu'n ganolog. A wnaiff hi ddatgan eto na roddir unrhyw gostau ychwanegol ar dirfeddianwyr yn sgîl y ddeddfwriaeth yma o San Steffan?

Christine Gwyther: Among the issues that you have raised on several occasions, Nick, are those such as livestock being frightened and, of course, the legislation requires that dogs will be kept on a short lead. As far as wardening is concerned, if there was a need for extra wardens on particular pinch points or honeypot sites then central funding could be considered. Another point you have made on numerous occasions is that you believe that there will be this huge litigious wave. There are no indications to support that fear and I hope that when we have our local access forums up and running those fears will diminish.

Christine Gwyther: Ymysg y materion yr ydych wedi eu codi ar sawl achlysur, Nick, mae pethau megis da byw yn cael eu dychryn ac, wrth gwrs, mae'n ofynnol dan y ddeddfwriaeth fod cŵn yn cael eu cadw ar dennyn byr. Cyn belled ag y mae wardeinio yn y cwestiwn, pe bai angen wardeiniaid ychwanegol mewn mannau neilltuol o brysur neu safleoedd hynod o boblogaidd, byddid yn ystyried cyllid canolog. Pwynt arall yr ydych wedi ei wneud droeon yw y credwch y ceir ton enfawr o bobl yn mynd i gyfraith. Nid oes unrhyw arwyddion i gynnal yr ofn hwnnw a gobeithiaf y bydd yr ofnau hynny'n lleddfu unwaith y mae'r fforymau mynediad lleol ar waith.

Mick Bates: The Liberal Democrats welcome proposals that will increase tourism in Wales, as we welcome any measure that boosts the rural economy. However, I am concerned that when tourists come to Wales we market our wonderful products. Will the Secretary for Agriculture and Rural Development tell us when we will establish the Welsh equivalent to the Scottish food and drink site on the internet so that we can market our products effectively using contemporary technology?

Mick Bates: Mae'r Democratiaid Rhyddfrydol yn croesawu cynigion a fydd yn cynyddu twristiaeth yng Nghymru, fel y croesawn unrhyw fesur sydd yn rhoi hwb i'r economi gwledig. Fodd bynnag, pan fo twristiaid yn dod i Gymru, yr wyf yn awyddus inni farchnata ein cynnyrch rhagorol. A wnaiff yr Ysgrifennydd Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig ddweud wrthym pa bryd y sefydlir safle Cymreig i gyfateb i safle bwyd a diod yr Alban ar y rhyngrwyd fel y gallwn farchnata ein cynnyrch yn effeithiol gan ddefnyddio technoleg gyfoes?

The Presiding Officer: Order. A drink on the internet? The discussion is about activity in the countryside.

Y Llywydd: Trefn. Diod ar y rhyngrwyd? Trafodaeth am weithgaredd yng nghefn gwlad yw hon.

Mick Bates: I agree entirely. However, what such a site does is market its country and its products and I want to know when we will establish such a site?

Mick Bates: Cytunaf yn llwyr. Fodd bynnag, yr hyn a wna safle o'r fath yw marchnata'r wlad a'i chynnyrch ac yr wyf am wybod pa bryd y byddwn ni'n sefydlu safle o'r fath?

Christine Gwyther: Would you like me to

Christine Gwyther: Hoffech chi imi ateb,

answer, Llywydd?

The Presiding Officer: Not particularly. Our order of proceedings is that supplementary questions should relate to the original question, otherwise you could ask—

Mick Bates: It is related.

The Presiding Officer: Order. Are you questioning my ruling on this? I will not accept your question, because otherwise Members will be asking all sorts of unrelated questions.

Alun Pugh: Would you accept, Christine, that the term 'right to roam' is perhaps slightly unfortunate, because it does not refer to access to people's gardens, or rights to trample crops, but access to wild, uncultivated areas of mountain and moorland. It works in Scotland. Would you accept that it could work well in Wales?

Christine Gwyther: Yes, I certainly hope and believe that it will work. I want to clarify a point that you made, Alun. The term 'right to roam' does not refer to the right to trample crops or the right to weave carefully through crops. Admission will not be allowed to cultivated areas. I hope that puts farmers' minds at rest.

The Presiding Officer: Question 2 and question 6 will be answered together.

Lywydd?

Y Llywydd: Ddim yn arbennig. Trefn ein trafodion yw y dylai cwestiynau atodol fod yn berthnasol i'r cwestiwn gwreiddiol, neu gallech ofyn—

Mick Bates: Y mae'n berthnasol.

Y Llywydd: Trefn. Ydych chi'n amau fy nyfarniad ar hyn? Ni dderbyniaf eich cwestiwn, oherwydd fel arall bydd Aelodau'n gofyn pob math o gwestiynau nad oes a wnelont â'r cwestiwn gwreiddiol.

Alun Pugh: Fyddech chi'n derbyn, Christine, fod y term 'hawl i grwydro' braidd yn anffodus efallai, oherwydd nid yw'n cyfeirio at fynediad i erddi pobl, na hawliau i drampio dros gnydau, ond at fynediad i ardaloedd gwyllt ac anial ar fynyddoedd a rhostiroedd. Mae'n gweithio yn yr Alban. Fyddech chi'n derbyn y gallai weithio'n dda yng Nghymru?

Christine Gwyther: Byddwn, yn sicr yr wyf yn gobeithio ac yn credu y bydd yn gweithio. Hoffwn egluro pwynt a wnaethoch, Alan. Nid yw'r term 'hawl i grwydro' yn cyfeirio at yr hawl i drampio dros gnydau na'r hawl i wau'n ofalus drwy gnydau. Ni chaniateir mynediad i ardaloedd sydd yn cael eu trin. Gobeithio y bydd hynny'n tawelu meddyliau ffermwyr.

Y Llywydd: Atebir cwestiwn 2 a chwestiwn 6 gyda'i gilydd.

Fforwm Coed Cymru
Welsh Timber Forum

Q2 Brian Hancock: To what extent will the Welsh timber forum be able to rely on the Welsh Development Agency's advice and support? (OAQ3310)

Q6 Brian Hancock: How does Christine Gwyther intend to encourage the establishment of co-operative ventures between the Forestry Commission, Coed Cymru and private businesses? (OAQ3286)

Christine Gwyther: I will talk briefly about this, because there are several questions on this issue and it is useful for us to be informed.

C2 Brian Hancock: I ba raddau y gall fforwm coed Cymru ddibynnu ar gyngor a chefnogaeth Awdurdod Datblygu Cymru? (OAQ3310)

C6 Brian Hancock: Sut y mae Christine Gwyther yn bwriadu annog sefydlu mentrau cydweithredol rhwng y Comisiwn Coedwigaeth, Coed Cymru a busnesau preifat? (OAQ3286)

Christine Gwyther: Yr wyf am siarad yn fyr ar hyn, oherwydd mae yna nifer o gwestiynau ar y mater hwn a da o beth yw inni gael y ffeithiau.

Almost 14 per cent of the land area of Wales is covered with trees supporting nearly 3,500 jobs in primary production and processing, generating £400 million of economic activity. The Assembly supports the management of woods and the development of a vibrant wood-processing sector. The Forestry Commission, the Welsh Development Agency and Coed Cymru work closely together, encouraging small businesses to use timber from woods throughout Wales. In particular, they are helping to develop the market for small-sized hardwood timber and other timber for which there is limited demand. Moreover, all three are closely involved in preparing the Wales woodland strategy.

Mae bron i 14 y cant o arwynebedd tir Cymru dan orchudd o goed gan gynnal bron i 3,500 o swyddi cynhyrchu a phrosesu primaidd, sydd yn creu £400 miliwn o weithgaredd economaidd. Mae'r Cynulliad o blaid rheoli coedlannau a datblygu sector prosesu coed egnïol. Mae'r Comisiwn Coedwigaeth, Awdurdod Datblygu Cymru a Choed Cymru yn gweithio'n agos gyda'i gilydd, gan annog busnesau bach i ddefnyddio coed o goedlannau ar hyd a lled Cymru. Yn benodol, maent yn helpu i ddatblygu'r farchnad i goed caled bychain a choed eraill y mae'r galw amdanynt yn gyfyngedig. Hefyd, mae'r tri chorff yn ymwneud yn agos â pharatoi strategaeth coedlannau Cymru.

2:29 p.m.

The Welsh Timber Forum was set up last year following a meeting of small timber-using businesses under the auspices of the WDA's working with wood seminars. The Timber Forum now has over 80 members and is actively supported by the WDA and the Forestry Commission. The Agriculture and Rural Development Committee members will see many of these issues at first hand when they visit Cwmcarn woodlands later this month. If anybody else is interested in that visit, I am sure that the invitation could be extended to them.

Sefydlwyd Fforwm Coed Cymru y llynedd yn dilyn cyfarfod o fusnesau bach sydd yn defnyddio coed, dan gochl seminarau gweithio gyda choed yr Awdurdod Datblygu. Erbyn hyn mae gan y Fforwm Coed dros 80 o aelodau a chaiff gefnogaeth fyw gan yr Awdurdod Datblygu a'r Comisiwn Coedwigaeth. Bydd aelodau'r Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig yn gweld llawer o'r materion hyn drostynt eu hunain wrth ymweld â choedlannau Cwmcarn yn ddiweddarach y mis hwn. Os oes unrhyw un arall â diddordeb yn yr ymweliad hwnnw, yr wyf yn siŵr y gellid estyn gwahoddiad iddynt hwythau.

The Presiding Officer: I think advertising by the Executive is permitted.

Y Llywydd: Credaf fod hysbysebion gan y Weithrediaeth yn cael eu caniatáu.

Brian Hancock: I would be interested in doing so, as the woodlands are in my area. Do you agree that encouraging co-operative ventures in order to pool resources, share information and target markets is essential for the timber industry given its current difficulties? Will you also direct the Government bodies involved in the timber industry to assist and advise the private sector on the best means to develop such co-operative ventures?

Brian Hancock: Byddai gennyf fi ddiddordeb, gan fod y coedlannau yn fy ardal i. Ydych chi'n cytuno bod annog mentrau cydweithredol er mwyn cronni adnoddau, rhannu gwybodaeth a thargedu marchnadoedd yn hanfodol i'r diwydiant coed o gofio'i anawsterau ar hyn o bryd? A wnewch chi hefyd gyfarwyddo cyrff Llywodraeth sydd a wnelont â'r diwydiant coed i gynorthwyo a rhoi cyngor i'r sector preifat ar y dulliau gorau o ddatblygu mentrau cydweithredol o'r fath?

Christine Gwyther: I concur wholeheartedly with your comments. The Welsh Timber

Christine Gwyther: Cytunaf yn llwyr â'r sylwadau. Mae Fforwm Coed Cymru yn

Forum is moving down that road, both in softwood and in hardwood projects. Coed Cymru in particular has done excellent work on the development of new products, such as the Welsh angle, which uses shorter lengths of wood, bonded together, to create products such as flooring and so on. There is an immense wealth of wood which can be used and to which value can be added. Within the next couple of years, and given any funding we can bring to this, we will have products coming out of Wales of which we can be proud.

mynd i lawr y ffordd yna, o ran prosiectau pren meddal a phren caled. Mae Coed Cymru yn arbennig wedi gwneud gwaith rhagorol ar ddatblygu cynnyrch newydd, fel yr ongl Gymreig, sydd yn defnyddio darnau byrrach o bren, wedi eu bondio ynghyd, i greu cynnyrch fel lloriau ac ati. Mae yna gyfoeth enfawr o goed y gellir eu defnyddio ac y gellir ychwanegu gwerth atynt. O fewn y flwyddyn neu ddwy nesaf, a chan ddibynnu ar ba gyllid y gellir ei roi tuag at hyn, bydd gennym gynnyrch yn dod allan o Gymru y gallwn ymfalchïo ynddo.

David Davies: Do you agree that while timber can indeed generate thousands of jobs, which is good, in its original form, it can generate many more jobs in the form of tourism? While I thank the Secretary for Agriculture and Rural Development for the work she has done in Chepstow woods, does she not agree that it is unacceptable for quangos such as Forest Enterprise to harvest timber from such woods without even going through the motions of public consultation? Will you clarify the situation in that area as soon as possible?

David Davies: Tra gall coed yn sicr greu miloedd o swyddi, sydd yn beth da, yn eu ffurf wreiddiol, ydych chi'n cytuno y gallant greu llawer mwy o swyddi ar ffurf twristiaeth? Tra'n diolch i'r Ysgrifennydd Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig am y gwaith a wnaeth yng nghoedlan Cas-gwent, onid yw hi'n cytuno ei bod yn annerbyniol i gwangos fel Menter Coedwigaeth gynaeafu coed o goedlannau o'r fath heb orfod hyd yn oed gymryd arnynt eu bod yn ymgynghori â'r cyhoedd? Wnewch chi egluro'r sefyllfa yn y maes hwnnw cyn gynted â phosibl?

Christine Gwyther: If the harvesting of timber from woods owned by the Forestry Commission is managed properly, and I believe that it is, it does not require the Assembly's permission. The Forestry Commission also has management agreements with private woodland owners. Much careful work is going on. I accept that the consultation on Chepstow woods should have started earlier and have been much more widespread. Yourself and the local MP, Huw Edwards have pushed strongly for this and have achieved a good result in that the Forestry Commission is now reviewing its policy. I will be explaining that new policy, when it is formulated, to the Agriculture and Rural Development Committee and, if it is its wish, to the Assembly.

Christine Gwyther: Os yw'r gwaith o gynaeafu coed o goedlannau sydd yn eiddo i'r Comisiwn Coedwigaeth yn cael ei reoli'n gywir, a chredaf ei fod, nid yw'n rhaid cael caniatâd y Cynulliad. Mae gan y Comisiwn Coedwigaeth gytundebau rheoli hefyd gyda pherchnogion coedlannau preifat. Mae llawer o waith gofalus yn mynd rhagddo. Derbyniaf y dylai'r ymgynghori ynghylch coedlannau Cas-gwent fod wedi dechrau'n gynharach a bod yn llawer ehangach. Yr ydych chi a'r AS lleol, Huw Edwards, wedi gwthio'n gryf am hyn ac wedi sicrhau canlyniad da i'r perwyl fod y Comisiwn Coedwigaeth yn adolygu ei bolisi erbyn hyn. Byddaf yn egluro'r polisi newydd, ar ôl ei lunio, i'r Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig ac, os dyna ddymuniad y Pwyllgor, i'r Cynulliad.

Gorsafoedd Pŵer Bio-màs
Biomass Power Stations

Q3 Geraint Davies: What plans does Christine Gwyther have to develop biomass power stations as a means to add value and extend the domestic market in timber? (OAQ3290)

C3 Geraint Davies: Pa gynlluniau sydd gan Christine Gwyther i ddatblygu gorsafoedd pŵer bio-màs fel modd i ychwanegu gwerth ac ehangu'r farchnad goed ddomestig? (OAQ3290)

Christine Gwyther: The Government is committed to an energy policy that promotes cleaner and more efficient energy use and production. This includes a strong drive to develop renewable energy sources. As part of this work the National Assembly for Wales's agriculture department, in partnership with the WDA, has let a tender for a study to assess how biomass crops can help develop sustainable business opportunities in rural Wales. A report will be published later in the year.

Christine Gwyther: Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i bolisi ynni sydd yn hyrwyddo defnyddio a chynhyrchu ynni glanach a mwy effeithlon. Mae hyn yn cynnwys ymgyrch gref i ddatblygu ffynonellau ynni adnewyddadwy. Fel rhan o'r gwaith hwn mae adran amaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru, mewn partneriaeth â'r Awdurdod Datblygu, wedi gosod tendr ar gyfer astudiaeth i asesu sut y gall cnydau bio-màs helpu i ddatblygu cyfleoedd busnes cynaliadwy yng Nghymru wledig. Cyhoeddir adroddiad yn ddiweddarach eleni.

Geraint Davies: Developing local biomass power stations that would use Welsh timber as their raw material could benefit the timber industry in Wales, promote efforts to diversify agriculture, and have environmental benefits, as well as giving a boost to the local economy. Will she promise to support ventures that are interested in developing such plans and will she give an assurance that such ventures can apply for Objective 1 and Objective 2 funding?

Geraint Davies: Gallai datblygu gorsafoedd pŵer bio-màs lleol a fyddai'n defnyddio coed o Gymru fel eu deunydd crai fod o fudd i'r diwydiant coed yng Nghymru, gan hyrwyddo ymdrechion i arallgyfeirio amaethyddiaeth, a bod â manteision amgylcheddol, yn ogystal â rhoi hwb i'r economi lleol. A wnaiff hi addo cefnogi mentrau sydd â diddordeb mewn datblygu cynlluniau o'r fath ac a wnaiff hi roi sicrwydd y caiff mentrau o'r fath ymgeisio am gyllid Amcan 1 ac Amcan 2.

Christine Gwyther: Yes as far as Objective 1 is concerned, but it is early to talk about Objective 2. Perhaps we can return to that in future months. There will be a national package for renewable energy or energy production. Biomass is evidently environmentally friendly in that the amount of the carbon dioxide that the tree emits during its life is the same as it takes when it is burned. I hope that the planning difficulties that have been encountered with these power stations can be overcome. Hopefully, with local consultation we will see more biomass energy production by short rotation crops.

Christine Gwyther: Gwnaf cyn belled ag y mae Amcan 1 yn y cwestiwn, ond mae'n rhy gynnar i siarad am Amcan 2. Efallai y gallwn ddychwelyd at hynny dros y misoedd i ddod. Bydd yna becyn cenedlaethol i gynhyrchu ynni neu ynni adnewyddadwy. Mae'n debyg nad yw bio-màs yn niweidiol i'r amgylchedd yn yr ystyr bod swmp y carbon deuocsid a ryddheir gan y goeden yn ystod ei hoes yn cyfateb i'r hyn a gymer wrth losgi. Gobeithiaf y gellir goresgyn yr anawsterau cynllunio a wynebwyd gyda'r gorsafoedd pŵer hyn. Gydag ymgynghori lleol, gobeithio y gwelwn fwy o ynni bio-màs yn cael ei gynhyrchu drwy gnydau cylchdro byr.

Peter Black: I am pleased to hear that you consider biomass so important in terms of renewable energy. Are you involved in discussions with other relevant Assembly Secretaries in putting together a comprehensive Welsh energy strategy, which includes this particular strand of your responsibility?

Peter Black: Yr wyf yn falch o glywed eich bod yn ystyried bio-màs mor bwysig yn nhermau ynni adnewyddadwy. Ydych chi'n cynnal trafodaethau gydag Ysgrifenyddion eraill perthnasol y Cynulliad i lunio strategaeth ynni gynhwysfawr i Gymru, sydd yn cynnwys yr elfen arbennig hon o'ch cyfrifoldeb chi?

Christine Gwyther: I have spoken to the Secretary for Economic Development and I hope that we continue that positive discussion.

Christine Gwyther: Yr wyf wedi siarad â'r Ysgrifennydd Datblygu Economaidd a gobeithiaf y byddwn yn parhau â'r drafodaeth bositif honno.

William Graham: You told us that you would acquire a report on the viability of a biomass power station. We all know that growing broad leaved trees is a long-term project. When this report is available to you and the Agriculture and Rural Development Committee, will there be a short-term solution given that timber growers are hard-pressed?

William Graham: Dywedasoch wrthym y byddech yn caffael adroddiad ar hyfywdra gorsaf bŵer bio-màs. Gŵyr pawb ohonom fod tyfu coed brasddeiliog yn brosiect tymor hir. Pan fydd yr adroddiad hwn ar gael i chi a'r Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Economaidd, a fydd yna ateb tymor byr o gofio bod y rhai sydd yn tyfu coed dan bwysau dirfawr?

Christine Gwyther: It would be nice if the report pointed to a short-term solution. I cannot pre-empt its contents. If it is not in the specification I can ask for it to be included.

Christine Gwyther: Byddai'n braf pe bai'r adroddiad yn cynnig ateb tymor byr. Ni allaf ragdybio ei gynnwys. Os nad yw yn y fanyleb gallaf ofyn am iddo gael ei gynnwys.

Phil Williams: I am glad that you emphasised the importance of biomass in maintaining a balance between carbon dioxide extraction and returns to the atmosphere. I believe that there is a net extraction of carbon dioxide because of the fixation in the root system. With the reduction of carbon dioxide in global politics, will you emphasise this factor in any discussions you have concerning support for forestry? Will you also ensure that we take full advantage of any funds available for schemes to counter global warming—from the European Union, for example?

Phil Williams: Yr wyf yn falch ichi bwysleisio pwysigrwydd bio-màs er cynnal cydbwysedd rhwng echdynnu carbon deuocsid a'r dychweliadau i'r atmosffêr. Credaf fod echdyniad net o garbon deuocsid oherwydd y sefydledd yn system y gwreiddiau. Yn sgîl gostwng carbon deuocsid mewn gwleidyddiaeth fyd-eang, a wnewch chi bwysleisio'r ffactor hwn mewn unrhyw drafodaethau a gewch ar gefnogi coedwigaeth? A wnewch chi hefyd sicrhau ein bod yn manteisio'n llawn ar unrhyw arian sydd ar gael tuag at gynlluniau i wrthsefyll cynhesu byd-eang—oddi wrth yr Undeb Ewropeaidd, er enghraifft?

Christine Gwyther: I have learned something today. Thank you, Phil. It is my brief that the activity is carbon dioxide neutral. If there is a net environmental gain, that strengthens the argument. As champion for sustainable development, it is my job to promote that argument at every opportunity. I will seek to do that.

Christine Gwyther: Yr wyf wedi dysgu rhywbeth heddiw. Diolch ichi, Phil. Yn fy mrîff i dywedir bod y gweithgaredd yn niwtral o ran carbon deuocsid. Os oes mantais amgylcheddol net, mae hynny'n atgyfnerthu'r ddadl. Fel y sawl sydd yn pledio achos datblygu cynaliadwy, fy ngwaith i yw hybu'r ddadl honno ar bob cyfle. Byddaf yn ceisio gwneud hynny.

Y Papur Ymgynghorol 'Coetir i Gymru'
The 'Woodlands for Wales' Consultation Paper

Q4 Janet Davies: Of the four possible scenarios set out in the 'Woodlands for Wales' consultation paper, which one is the most sustainable in regard to the local economy and environment? (OAQ3289)

C4 Janet Davies: O'r pedair sefyllfa bosibl a ddynodwyd yn y papur ymgynghorol 'Coetir i Gymru', pa un yw'r mwyaf addas o safbwynt yr economi lleol a'r amgylchedd? (OAQ3289)

Christine Gwyther: The four scenarios set out in the 'Woodlands for Wales' are indications of the range of possible options for a woodland strategy. They are included to stimulate responses to the paper and to

Christine Gwyther: Mae'r pedair sefyllfa a ddynodwyd yn 'Coetir i Gymru' yn awgrymu'r rhychwant opsiynau posibl ar gyfer strategaeth coetir. Maent wedi eu cynnwys i ysgogi ymateb i'r papur ac i annog

encourage people to consider the full range of the options and their affects on the natural heritage and economy of Wales. I am glad they have done that. I am confident that this consultation exercise will enable the Assembly to develop policies that will ensure Welsh woods are managed sustainably.

pobl i ystyried yr ystod llawn o opsiynau a'u heffeithiau ar dreftadaeth naturiol ac economi Cymru. Yr wyf yn falch iddynt wneud hynny. Yr wyf yn hyderus y bydd yr ymarferiad ymgynghori hwn yn galluogi'r Cynulliad i ddatblygu polisïau a fydd yn sicrhau bod coetiroedd Cymru yn cael eu rheoli mewn modd cynaliadwy.

Janet Davies: Do you agree that the hardwood sector has the greatest potential in terms of the long-term development of the timber industry and Wales's economy?

Janet Davies: Ydych chi'n cytuno mai'r sector pren caled sydd â'r potensial mwyaf yn nhermau datblygiad y diwydiant coed ac economi Cymru yn y tymor hir?

2:39 p.m.

Christine Gwyther: In the long term, that is undeniable. It is an overlooked sector. I have had the hard sell from Coed Cymru on the benefits of broad leaf woodland management. I have also read the Federation of Small Businesses' handbook on this, which is very useful. Hardwood has the most interesting and exciting long-term future, but we must remember that there is some very good forest management of softwood as well. We must also encourage that because there is a market for it. The Baltic states are flooding our market with cheap imports but the climate of Wales is very suitable for softwood growing.

Christine Gwyther: Yn y tymor hir, mae hynny'n ddiymwad. Mae'n sector nad yw wedi cael digon o sylw. Mae Coed Cymru wedi bod yn pwyso'u hachos ynghylch manteision rheoli coetiroedd brasddeiliog. Yr wyf hefyd wedi darllen llawlyfr Ffederasiwn y Busnesau Bach ar hyn, sydd yn ddefnyddiol iawn. Coed caled sydd â'r dyfodol mwyaf diddorol a chyffrous yn y tymor hir, ond rhaid inni gofio bod peth rheoli da iawn ar goedwigoedd coed meddal yn ogystal. Rhaid inni annog hynny hefyd oherwydd mae marchnad iddo. Mae gwladwriaethau'r Baltig yn gorlifo ein marchnad â mewnforion rhad ond mae hinsawdd Cymru yn addas iawn ar gyfer tyfu coed meddal.

Peter Rogers: Wales can grow spruce. In fact, I think we have the highest spruce yields in the EU.

Peter Rogers: Gall Cymru dyfu sbriws. Yn wir, credaf mai ni sydd â'r cynnyrch sbriws uchaf yn yr UE.

Mewnforion Coed y DU
UK Timber Imports

Q5 Peter Rogers: Given that UK timber imports are at 85 to 90 per cent, what can Christine Gwyther do to get Welsh forestry onto a viable commercial footing? (OAQ3276)

C5 Peter Rogers: Gyda mewnforion coed y DU rhwng 85 a 90 y cant, beth all Christine Gwyther ei wneud i sicrhau bod coedwigaeth Cymru mewn sefyllfa fasnachol ddichonol? (OAQ3276)

Christine Gwyther: We are currently consulting widely on a woodland strategy for Wales. I know that people like Roger Williams-Ellis are contributing to that strategy. The volume of softwood timber harvested from Welsh forests will increase significantly over the next 10 years as our existing forests mature. We are reaching a good angle, if not a peak. The current

Christine Gwyther: Ar hyn o bryd yr ydym yn ymgynghori'n eang ar strategaeth coetir i Gymru. Gwn fod pobl fel Roger Williams-Ellis yn cyfrannu at y strategaeth honno. Bydd swmp y coed meddal a gynaeafir o goedwigoedd Cymru yn cynyddu'n sylweddol dros y 10 mlynedd nesaf wrth i'n coedwigoedd presennol aeddfedu. Yr ydym yn cyrraedd ongl dda, os nad y brig. Bydd y

production of 1.3 million cubic metres will increase to nearly 2 million cubic metres. Welsh timber is of good quality and it has smaller knots because it grows so fast. It is perfect for better-quality items. Large sawmilling companies continue to invest in their mills. There is a lot of private investment going on. They are rationalising their operations to remain competitive in the world market. Small roundwood processors, which produce paper and boards, are predominantly multinationals. They have invested heavily in UK mills, including mills in Wales. The forests in Wales are well placed to supply raw material for these mills, for the reasons that I have given.

cynnyrch cyfredol o 1.3 miliwn metr ciwbig yn cynyddu i bron 2 filiwn metr ciwbig. Mae coed Cymru o ansawdd da ac iddo geinciau llai am ei fod yn tyfu mor gyflym. Mae'n berffaith ar gyfer eitemau o ragorach ansawdd. Mae cwmnïau melin-goed mawr yn dal i fuddsoddi yn eu melinau. Mae llawer o fuddsoddi preifat yn mynd rhagddo. Maent yn rhesymoli eu gweithgareddau er mwyn parhau i fod yn gystadleuol yn y farchnad fyd-eang. Cwmnïau cydwladol yn bennaf yw'r proseswyr pren-crwn bychain, sydd yn cynhyrchu papur a byrddau. Maent wedi buddsoddi'n drwm mewn melinau yn y DU, gan gynnwys melinau yng Nghymru. Mae coedwigoedd Cymru mewn sefyllfa dda i gyflenwi deunydd crai i'r melinau hyn, am y rhesymau a roddais.

Peter Rogers: Christine, I am sure you will agree that the problem is that we cannot compete with the cheap imports from the Baltic areas. Consequently, the confidence has been knocked out of the industry and there is less planting. We must ensure that these states have to pay proper wages when they come into the EU. The minimum wage will be applicable. Could we support the forestry industry to encourage replanting in order to produce Welsh timber and create jobs in rural areas?

Peter Rogers: Christine, yr wyf yn siŵr y byddwch yn cytuno mai un broblem yw na allwn gystadlu gyda mewnforion rhad o ardaloedd y Baltig. O'r herwydd, mae'r hyder wedi ei fwrw allan o'r diwydiant a cheir llai o blannu. Rhaid inni sicrhau bod y gwladwriaethau hyn yn gorfod talu cyflogau iawn pan ddônt i mewn i'r UE. Bydd y lleiafswm cyflog yn dod i rym. Fedrem ni gefnogi'r diwydiant coedwigaeth i annog ailblannu er mwyn cynhyrchu coed Cymreig a chredu swyddi mewn ardaloedd gwledig?

Christine Gwyther: I am sure that my friend, the Secretary for Economic Development, could help me on this. The trouble is that the Baltic states are attempting to obtain as much hard currency as they can over a short period. That has hit our timber industry incredibly hard. It has to bottom out at some stage. Hopefully, in a couple of years, we should see a rise in our fortunes. You are right that timber producers are suffering at the moment.

Christine Gwyther: Yr wyf yn siŵr y gallai fy ffrind, yr Ysgrifennydd Datblygu Economaidd, fy helpu ar hyn. Y drafferth yw bod gwladwriaethau'r Baltig yn ceisio cael gafael ar gymaint o arian solet ag a fedrant dros gyfnod byr. Mae hynny wedi taro ein diwydiant coed yn eithriadol o galed. Mae'n rhaid iddo wastatáu ryw dro. Gyda gobaith, ymhen blwyddyn neu ddwy, dylem weld pethau'n gwella. Yr ydych yn iawn i ddweud bod cynhyrchwyr coed yn dioddef ar y funud.

Y Llywydd: Cyn symud ymlaen at yr eitem nesaf o fusnes, mae mater technegol wedi dod i'm sylw. Pan fo pobl yn defnyddio Gwe'r Siambr ac yn teipio ar y bysellfwrdd yn galed y drws nesaf i siaradwr, mae'r sŵn yn glywadwy ar y seinyddion, ac felly ar sain y Cynulliad. Mae hefyd yn gallu peri ymyrraeth i'r sawl sydd yn gwylio'r sgriniau yn y cefn. Os gallwch fod yn dawel ac yn llonydd wrth deipio ar We'r Siambr y drws nesaf i siaradwr, byddai'n help o safbwynt

The Presiding Officer: Before moving on to the next item of business, a technical matter has been brought to my attention. When people use the Chamberweb and type hard on the keyboard next to a speaker, the noise is audible on the speakers, and therefore on the Assembly soundtrack. It can also cause interference to those watching the screens in the back. If you could be quiet and calm when typing on the Chamberweb next to a speaker, it would help the clarity of the

eglurder y sain.

sound.

Cymeradwyo Rheoliadau Grant Cynnal Refeniw (Cyrff Penodedig) (Cymru) 2000

Approval of the Revenue Support Grant (Specified Bodies) (Wales) Regulations 2000

The Secretary for the Environment and Local Government (Peter Law): I propose that

the Assembly

(a) considers the report of the Legislation Committee relating to the draft Revenue Support Grant (Specified Bodies) (Wales) Regulations 2000, laid in the Table Office on 26 January 2000;

(b) considers the principle of the Order; and

(c) approves that the Order is made in accordance with the draft laid in the Table Office on 19 January 2000.

The purpose of these regulations is to make it possible for Syniad to receive revenue support grant. Syniad is the improvement, development and employers agency for local government in Wales. It has been established to help drive forward the Best Value and local government modernisation agendas. It will help local authorities to improve performance and achieve high standards. The Welsh Local Government Association has asked the Assembly to make it possible for Syniad to receive revenue support grant from 2001.

The regulations also serve to consolidate various other statutory instruments listing the bodies already eligible to receive revenue support grant. With additions to and deletions from the list, this is an appropriate opportunity to consolidate the specified bodies legislation for Wales. Syniad will be one of nine specified bodies to which the Assembly will pay revenue support grant in 2001 under these regulations. It is to receive £342,000. The total amount to be paid to specified bodies next year is £2 million. These amounts are subject to the approval of the local government finance report, which we will debate on 8 February.

Ysgrifennydd yr Amgylchedd a Llywodraeth Leol (Peter Law): Cynigiaf fod

y Cynulliad yn

(a) ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau ar ddrafft y Rheoliadau Grant Cynnal Refeniw (Cyrff Penodedig) (Cymru) 2000 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 26 Ionawr 2000;

(b) ystyried egwyddor y Gorchymyn; ac yn

(c) yn cymeradwyo bod y Gorchymyn wedi'i wneud yn unol â'r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 19 Ionawr 2000.

Diben y rheoliadau hyn yw ei gwneud hi'n bosibl i Syniad dderbyn grant cynnal refeniw. Syniad yw'r asiantaeth ar gyfer gwella, datblygu a chyflogwyr llywodraeth leol yng Nghymru. Fe'i sefydlwyd i helpu i yrru'r agendâu Gwerth Gorau a moderneiddio llywodraeth leol yn eu blaenau. Bydd yn helpu awdurdodau lleol i wella perfformiad a chyrraedd safonau uchel. Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi gofyn i'r Cynulliad ei gwneud hi'n bosibl i Syniad dderbyn grant cynnal refeniw o 2001 ymlaen.

Mae'r rheoliadau hefyd yn fodd i gyfnerthu amryw offerynnau statudol eraill sydd yn rhestru'r cyrff sydd eisoes yn gymwys i dderbyn grant cynnal refeniw. Gydag ychwanegiadau at a diddymiadau oddi ar y rhestr, mae hwn yn gyfle priodol i gyfnerthu'r ddeddfwriaeth cyrff penodedig i Gymru. Bydd Syniad yn un o naw corff penodedig y bydd y Cynulliad yn talu grant cynnal refeniw iddynt yn 2001 o dan y rheoliadau hyn. Bydd yn derbyn £342,000. Mae'r cyfanswm sydd i'w dalu i gyrff penodedig y flwyddyn nesaf yn £2 filiwn. Mae'r symiau hyn yn amodol ar gymeradwyo'r adroddiad ar gyllid

llywodraeth leol y byddwn yn ei drafod ar 8 Chwefror.

The draft regulations were discussed by the Legislation Committee on 25 January, and its report was laid before the Assembly on 26 January. The Legislation Committee did not consider that there were any grounds for inviting the Assembly to pay special attention to these regulations under Standing Order No. 11.5. The Legislation Committee made minor drafting comments, which are being dealt with by officials to ensure that headings and dates of coming into force are correct. We intend that the regulations will come into force on 7 February to enable the bodies concerned to undertake their financial planning for next year as soon as the local government finance report has been approved by the Assembly.

Trafodwyd y rheoliadau drafft gan y Pwyllgor Deddfau ar 25 Ionawr, a chyflwynwyd ei adroddiad gerbron y Cynulliad ar 26 Ionawr. Nid oedd y Pwyllgor Deddfau o'r farn bod unrhyw resymau dros wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r rheoliadau hyn o dan Reol Sefydlog Rhif 11.5. Gwnaeth y Pwyllgor Deddfau fân sylwadau drafftio, y mae'r swyddogion yn delio â hwy i sicrhau bod y penawdau a'r dyddiadau dod i rym yn gywir. Bwriadwn i'r rheoliadau ddod i rym ar 7 Chwefror er mwyn galluogi'r cyrff dan sylw i fynd ati i gynllunio'n ariannol ar gyfer y flwyddyn nesaf cyn gynted ag y bydd yr adroddiad ar gyllid llywodraeth leol wedi ei gymeradwyo gan y Cynulliad.

Cynnig: O blaid 42, Ymatal 0, Yn erbyn 0.
Motion: For 42, Abstain 0, Against 0.

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Barrett, Lorraine
Black, Peter
Bourne, Nick
Cairns, Alun
Dafis, Cynog
Davies, Andrew
Davies, David
Davies, Janet
Davies, Jocelyn
Davies, Ron
Edwards, Richard
Essex, Sue
Feld, Val
German, Michael
Gibbons, Brian
Graham, William
Gregory, Janice
Griffiths, John
Gwyther, Christine
Halford, Alison
Hancock, Brian
Hart, Edwina
Humphreys, Christine
Hutt, Jane
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Jones, Gareth
Jones, Ieuan Wyn
Law, Peter
Lloyd, David
Marek, John
Melding, David
Michael, Alun
Middlehurst, Tom

Neagle, Lynne
Richards, Rod
Rogers, Peter
Ryder, Janet
Sinclair, Karen
Williams, Kirsty
Williams, Phil

Motion adopted.

Derbyniwyd y cynnig.

2:49 p.m.

Cymeradwyo Rheoliadau Awdurdodau’r Parciau Cenedlaethol (Ardollau) (Diwygio) (Cymru) 2000

Approval of the National Park Authorities (Levies) (Amendment) (Wales) Regulations 2000

The Secretary for the Environment and Local Government (Peter Law): I propose that

the Assembly

(a) considers the report of the Legislation Committee relating to the draft National Park Authorities (Levies) (Wales) (Amendment) Regulations 2000, laid in the Table Office on 26 January 2000;

(b) considers the principle of the Order; and

(c) approves that the Order is made in accordance with the draft laid in the Table Office on 19 January 2000.

The purpose of these regulations is to amend existing provisions under section 74 (140) (iv) and (143) (ii) of the Local Government and Finance Act 1998, governing the maximum levy that may be issued by the three Welsh national park authorities. This will enable the continuation of current practice under the National Assembly for Wales’s new budgetary process. The three national park authorities in Wales receive 75 per cent of their revenue funding directly from the National Assembly for Wales. The power of the Assembly to make grants to the national park authorities lies in section 72 (i) of the Environment Act 1995. The remaining 25 per cent comes from a levy of their constituent local authorities. Current regulations stipulate that if the Assembly has not determined the amount of the revenue grant for the forthcoming financial year by 15

Ysgrifennydd yr Amgylchedd a Llywodraeth Leol (Peter Law): Cynigiaf fod

y Cynulliad yn

(a) ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau ar ddrafft Rheoliadau Awdurdodau’r Parciau Cenedlaethol (Ardollau) (Cymru) (Diwygio) 2000 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 26 Ionawr 2000;

(b) ystyried egwyddor y Gorchymyn; ac yn

(c) cymeradwyo bod y Gorchymyn wedi’i wneud yn unol â’r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 19 Ionawr 2000.

Diben y rheoliadau hyn yw diwygio darpariaethau sydd yn bodoli eisoes o dan adran 74 (140) (iv) a (143) (ii) Deddf Llywodraeth Leol a Chyllid 1998, sydd yn rheoli’r ardoll uchaf y caiff y tri awdurdod parc cenedlaethol yng Nghymru ei chodi. Bydd hyn yn galluogi’r awdurdodau i barhau i weithredu’r drefn bresennol o dan broses gyllidebol newydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae’r tri awdurdod parc cenedlaethol yng Nghymru yn derbyn 75 y cant o’u refeniw yn uniongyrchol oddi wrth Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae grym y Cynulliad i roi grantiau i awdurdodau parciau cenedlaethol yn deillio o adran 72 (i) Deddf yr Amgylchedd 1995. Daw’r 25 y cant sydd yn weddill o ardoll ar yr awdurdodau lleol a berthyn iddynt. Mae’r rheoliadau cyfredol yn pennu, onid yw’r Cynulliad wedi pennu swm y grant refeniw am y flwyddyn ariannol i

January, the maximum levy that the national park authorities may issue to their constituent local authorities will be based on the current year's revenue grant plus an increase calculated using the retail price index. The levy must be issued by 15 February, and once issued it can only be revised downwards. A maximum levy may only be exceeded with the voluntary agreement of the local authorities.

ddod erbyn 15 Ionawr, y bydd yr ardoll uchaf y caiff awdurdodau'r parciau cenedlaethol ei chodi ar yr awdurdodau lleol a berthyn iddynt yn seiliedig ar grant refeniw'r flwyddyn gyfredol ynghyd â chodiad a gyfrifir gan ddefnyddio'r mynegai prisiau adwerthu. Rhaid cyhoeddi'r ardoll erbyn 15 Chwefror, ac unwaith y'i cyhoeddir ni cheir ei newid ond ar i lawr. Dim ond gyda chytundeb gwirfoddol yr awdurdodau lleol y ceir mynd y tu hwnt i uchafswm ardoll.

The Assembly's Standing Orders provide that a motion to adopt its draft budget must be tabled by 10 December and a motion to ratify the detailed budget must be tabled by 15 February. This means that it is unlikely, in any year, that it will be possible to determine the national parks' grant for the next financial year before 15 January. In practice, this would mean that, in 2001, the three Welsh national park authorities may not be able to benefit fully from the 8.3 per cent revenue increase approved by the Assembly in December subject to formal ratification of the budget. The draft regulations and accompanying regulatory appraisal were the subject of a short consultation exercise of affected parties, which provoked three responses in support of the intention to amend the regulations. The amending regulations are accepted by the park authorities as representing the best available solution to the problems caused by the inconsistency between the dates as set out in the existing regulations in the Assembly's budget timetable.

Yn ôl Rheolau Sefydlog y Cynulliad rhaid i gynnig i fabwysiadu ei gyllideb ddrafft gael ei gyflwyno erbyn 10 Rhagfyr a rhaid cyflwyno cynnig i gadarnhau'r gyllideb fanwl erbyn 15 Chwefror. Mae hyn yn golygu ei bod yn annhebygol, mewn unrhyw flwyddyn, y bydd yn bosibl penderfynu ar grant y parciau cenedlaethol ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf cyn 15 Ionawr. Yn ymarferol, byddai hyn yn golygu, yn 2001, na fyddai'r tri awdurdod parc cenedlaethol yng Nghymru yn gallu elwa'n llawn efallai o'r cynnydd refeniw o 8.3 y cant a gymeradwywyd gan y Cynulliad ym mis Rhagfyr, yn amodol ar gadarnhau'r gyllideb yn ffurfiol. Bu'r rheoliadau drafft a'r gwerthusiad rheoleiddiol ategol yn destun ymgynghoriad byr gyda'r tri pharti yr effeithir arnynt, a chafwyd tri ymateb sydd yn gefnogol i'r bwriad i ddiwygio'r rheoliadau. Derbyniwyd y rheoliadau diwygio gan awdurdodau'r parciau fel yr ateb gorau sydd ar gael i'r problemau a achosir gan yr anghysondeb rhwng y dyddiadau yn amserlen cyllideb y Cynulliad fel y'u nodwyd yn y rheoliadau presennol.

The National Park Authorities (Levies) (Wales) (Amendment) Regulations 2000 will enable each of the three Welsh national park authorities to levy up to a specified maximum which is set at 25 per cent of the parks' proposed Assembly revenue grant for the next financial year. This is essentially a continuation of existing practice. Without the regulations, this could only be achieved through voluntary agreement of the national parks and their constituent local authorities, and could not therefore be guaranteed. Further amending regulations specifying a maximum levy will be required for subsequent years. The maximum levies that would be permitted by these regulations are

Bydd Rheoliadau Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol (Ardollau) (Cymru) (Diwygio) 2000 yn galluogi pob un o'r tri awdurdod parc cenedlaethol yng Nghymru i godi ardoll hyd at uchafswm penodedig sydd wedi ei bennu ar 25 y cant o grant refeniw arfaethedig y Cynulliad i'r parciau am y flwyddyn ariannol nesaf. Parhad o'r drefn bresennol yw hyn yn ei hanfod. Heb y rheoliadau, dim ond drwy gytundeb gwirfoddol rhwng y parciau cenedlaethol a'r awdurdodau lleol a berthyn iddynt y gellid cyflawni hyn, ac ni ellid ei warantu felly. Bydd angen rheoliadau diwygio pellach yn pennu uchafswm ardoll ar gyfer y blynyddoedd dilynol. Mae'r uchafsymiau

reflected in the Assembly's budget for the forthcoming financial year, announced on 1 December. I have taken the local authorities concerned into account in the provisional revenue settlement for the forthcoming year. The regulations being introduced in Wales are non-contentious and need to enter into force by 10 February so that the national parks may issue their levies for the next financial year before 15 February. I commend the motion.

ardoll a ganiateir gan y rheoliadau hyn yn cael eu hadlewyrchu yng nghyllideb y Cynulliad ar gyfer y flwyddyn ariannol i ddod, a gyhoeddwyd ar 1 Rhagfyr. Yr wyf wedi ystyried yr awdurdodau lleol dan sylw yn y setliad refeniw amodol ar gyfer y flwyddyn i ddod. Nid yw'r rheoliadau sydd yn cael eu cyflwyno yng Nghymru yn ddadleuol ac mae angen iddynt ddod i rym erbyn 10 Chwefror fel y gall y parciau cenedlaethol gyhoeddi eu hardollau ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf cyn 15 Chwefror. Argymhellaf y cynnig.

Cynnig: O blaid 39, Ymatal 0, Yn erbyn 0.
Motion: For 39, Abstain 0, Against 0.

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Barrett, Lorraine
Black, Peter
Bourne, Nick
Cairns, Alun
Dafis, Cynog
Davies, Andrew
Davies, David
Davies, Janet
Davies, Jocelyn
Davies, Ron
Essex, Sue
Feld, Val
German, Michael
Gibbons, Brian
Graham, William
Gregory, Janice
Griffiths, John
Gwyther, Christine
Halford, Alison
Hancock, Brian
Hart, Edwina
Humphreys, Christine
Hutt, Jane
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Jones, Gareth
Jones, Ieuan Wyn
Law, Peter
Lloyd, David
Marek, John
Melding, David
Michael, Alun
Neagle, Lynne
Richards, Rod
Rogers, Peter
Ryder, Janet
Sinclair, Karen
Williams, Kirsty

Motion adopted.

Derbyniwyd y cynnig.

Cymeradwyo Rheoliadau Cynghorau Iechyd Cymuned Diwygio (Cymru) 2000

Approval of the Community Health Councils Amendment (Wales) Regulations 2000

The Secretary for Health and Social Services (Jane Hutt): I propose that

the Assembly

(a) considers the report of the Legislation Committee relating to the draft Community Health Councils Amendment (Wales) Regulations 2000, laid in the Table Office on 26 January 2000;

(b) considers the principle of the regulations; and

(c) approves that the regulations are made in accordance with the draft laid in the Table Office on 19 January 2000.

This amendment concerns a technical adjustment to the Community Health Councils Amendment (Wales) Regulations 1996 by adding a provision which allows the Assembly to reinstitute a rollover of membership appointments on a two-year basis. It is not intended as a lead into wider issues concerning the process of appointing members to public bodies and I ask Members to bear this in mind when discussing this motion. The current regulations make provision of the membership, proceedings, staff, premises, expenses and functions of community health councils in England and Wales. They also allow the appointment of community health council members for a period of four years. However, the terms of office of all CHC members expire on 31 March 2000, which does not allow for continuity of experience.

The effect of this amendment will allow half of the CHC members to be appointed on 1 April 2000 for four years and the other half to be appointed for two years. This would ensure a balance of experienced and new members at all times. Thereafter, CHC appointment rounds will be held biannually. This amendment has the full support of the CHCs and it corrects the situation where the

Yr Ysgrifennydd Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Jane Hutt): Cynigiaf fod

y Cynulliad yn

(a) ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau ar y Rheoliadau Cynghorau Iechyd Cymunedol Diwygio (Cymru) 2000 drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 26 Ionawr 2000;

(b) ystyried egwyddor y rheoliadau; ac yn

(c) cymeradwyo bod y rheoliadau wedi'u gwneud yn unol â'r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 19 Ionawr 2000.

Mae'r gwelliant hwn yn ymwneud ag addasiad technegol i Reoliadau Cynghorau Iechyd Cymuned Diwygio (Cymru) 1996 drwy ychwanegu darpariaeth sydd yn caniatáu i'r Cynulliad ailsefydlu penodiadau aelodaeth treigl ar sail dwy flynedd. Nid yw wedi ei fwriadu fel arweiniad i ystyriaethau ehangach yn ymwneud â'r broses o benodi aelodau i gyrff cyhoeddus a gofynnaf i'r Aelodau gofio hynny wrth drafod y cynnig hwn. Ceir yn y rheoliadau cyfredol ddarpariaethau ynglŷn ag aelodaeth, trafodion, staff, adeiladau, treuliau a swyddogaethau cynghorau iechyd cymuned yng Nghymru a Lloegr. Maent hefyd yn caniatáu penodi aelodau cynghorau iechyd cymuned am gyfnod o bedair blynedd. Fodd bynnag, daw telerau swydd holl aelodau'r cynghorau iechyd cymuned i ben ar 31 Mawrth 2000 ac nid yw hynny'n caniatáu ar gyfer parhad o ran profiad.

Effaith y gwelliant hwn fydd caniatáu i hanner aelodau'r cynghorau iechyd cymuned gael eu penodi ar 1 Ebrill 2000 am bedair blynedd a'r hanner arall i'w penodi am ddwy flynedd. Byddai hyn yn sicrhau cydbwysedd rhwng aelodau profiadol a newydd bob amser. Wedi hynny, caiff cylchoedd penodi'r cynghorau iechyd cymuned eu cynnal bob yn ail flynedd. Mae'r cynghorau iechyd

terms of office of all CHC members must expire on the same date. It will provide the flexibility to introduce new blood at regular intervals and allow for the retention of valuable expertise. The amendment is required as a matter of urgency to enable the arrangements to take effect from 1 April this year. I commend this motion.

cymuned yn cefnogi'r gwelliant hwn yn llawn ac mae'n unioni'r sefyllfa lle mae'n rhaid i delerau swydd holl aelodau'r cynghorau iechyd cymuned ddod i ben ar yr un dyddiad. Bydd yn rhoi hyblygrwydd i gyflwyno gwaed newydd yn rheolaidd ac yn caniatáu ar gyfer cadw arbenigedd gwerthfawr. Mae angen y gwelliant fel mater o frys i alluogi'r trefniadau i ddod i rym o 1 Ebrill eleni. Argymhellaf y cynnig hwn.

Cynnig: O blaid 38, Ymatal 0, Yn erbyn 0.
Motion: For 38, Abstain 0, Against 0.

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Barrett, Lorraine
Black, Peter
Bourne, Nick
Cairns, Alun
Dafis, Cynog
Davies, Andrew
Davies, David
Davies, Janet
Davies, Jocelyn
Davies, Ron
Essex, Sue
Feld, Val
German, Michael
Gibbons, Brian
Graham, William
Gregory, Janice
Griffiths, John
Halford, Alison
Hancock, Brian
Hart, Edwina
Humphreys, Christine
Hutt, Jane
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Jones, Gareth
Jones, Ieuan Wyn
Lloyd, David
Marek, John
Melding, David
Michael, Alun
Morgan, Jonathan
Neagle, Lynne
Richards, Rod
Rogers, Peter
Ryder, Janet
Sinclair, Karen
Williams, Kirsty

Motion adopted.

Derbyniwyd y cynnig.

Ymateb y Cynulliad i Raglen Ddeddfau Llywodraeth San Steffan

The Assembly's Response to the Westminster Government's Programme of Legislation

The Presiding Officer: I have selected the following amendments: amendments 1 and 8 in the name of Ieuan Wyn Jones, amendments 2, 3 and 4 in the name of Nick Bourne and amendments 5, 6, 7 and 9 in the name of Mike German.

Y Llywydd: Yr wyf wedi dethol y gwelliannau canlynol: gwelliannau 1 ac 8 yn enw Ieuan Wyn Jones, gwelliannau 2, 3 a 4 yn enw Nick Bourne a gwelliannau 5, 6, 7 a 9 yn enw Mike German.

The First Secretary: I propose that

the Assembly, in accordance with its resolution of 8 December 1999:

approves the response to the UK Government's legislative programme as laid in the Table Office on 26 January and calls on the First Secretary to communicate it to the Secretary of State for Wales;

continues to support the principle that primary legislation affecting Wales should confer all appropriate functions on the Assembly in a flexible way and commits itself and the Cabinet to continue to press for this approach in all Government Bills;

approves the draft protocol on the Assembly's primary legislative proposals laid in the Table Office on 26 January and calls on the First Secretary to seek the agreement of the Secretary of State for Wales to it; and

calls on the First Secretary to submit to the Business Committee proposals for amendments to Standing Orders to give effect to the protocol as soon as may be.

Y Prif Ysgrifennydd: Cynigiaf fod

y Cynulliad, yn unol â'r penderfyniad a wnaeth ar 8 Rhagfyr 1999:

yn cymeradwyo'r ymateb i raglen ddeddfu Llywodraeth y DU fel y'i gosodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 26 Ionawr ac yn galw ar y Prif Ysgrifennydd i gyfleu'r ymateb hwnnw i Ysgrifennydd Gwladol Cymru;

yn parhau i gefnogi'r egwyddor y dylai unrhyw ddeddfwriaeth sylfaenol sydd yn effeithio ar Gymru drosglwyddo'r holl swyddogaethau priodol i'r Cynulliad mewn ffordd hyblyg a'i fod a'r Cabinet yn parhau i bwyso ar y Llywodraeth i arddel yr egwyddor hon yn ei holl Fesurau;

yn cymeradwyo'r protocol drafft ar gynigion y Cynulliad ar gyfer deddfau sylfaenol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 26 Ionawr ac yn galw ar y Prif Ysgrifennydd i ofyn i Ysgrifennydd Gwladol Cymru roi sêl ei fendith iddo; ac

yn galw ar y Prif Ysgrifennydd i gyflwyno i'r Pwyllgor Busnes gynigion ar gyfer diwygio'r Rheolau Sefydlog i ddod â'r protocol i rym cyn gynted â phosibl.

Today's debate discharges the terms of the resolution that the Assembly passed on 8 December at the end of our debate on the Queen's Speech. That resolution contained my commitment to bring forward for the Assembly's approval the draft consolidated response to the Government's legislative programme and a protocol setting out the ways in which the Assembly might suggest Bills for inclusion in future programmes. Drafts of both documents are before us today.

Mae'r ddadl heddiw yn cyflawni telerau'r penderfyniad a basiwyd gan y Cynulliad ar 8 Rhagfyr ar ddiwedd ein dadl ar Araith y Frenhines. Yn rhan o'r penderfyniad hwnnw yr oedd fy addewid i ddwyn ger bron, i'w cymeradwyo gan y Cynulliad, yr ymateb cyfunol drafft i raglen ddeddfu'r Llywodraeth a phrotocol yn nodi ym mha ffyrdd y gallai'r Cynulliad awgrymu Mesurau i'w cynnwys yn rhaglenni'r dyfodol. Mae'r ddwy ddogfen o'n blaenau heddiw ar ffurf ddrafft.

I want to be clear about one vital point. The Assembly needs to approve both documents. The response to the legislative programme, in particular, is not my response; it is not the Cabinet's response and it is not the Labour Party's response. Our resolution of 8 December was explicit in calling for the Assembly to agree on a single response representing, as far as possible, the views of all of us. This strengthens immeasurably the value of our response. It takes us, as far as possible, out of the arena of party politics. Instead it expresses a collective view on behalf of the Assembly as the democratic voice of Wales. The draft, therefore, includes many proposals not proposed by Members of the Labour Party on issues such as child support, railways or the right to roam. They were proposed by Assembly Members. The paper was not drawn up by myself or by Cabinet Secretaries. It was drawn up by officials who sought, as far as possible, to accurately reflect the nature of the debate and the views in the debate on the Queen's Speech and the Government's legislative programme.

Yr wyf am fod yn glir ynglŷn ag un pwynt allweddol. Mae angen i'r Cynulliad gymeradwyo'r ddwy ddogfen. O ran yr ymateb i'r rhaglen ddeddfu, yn arbennig, nid fy ymateb i mohono; nid ymateb y Cabinet mohono ac nid ymateb y Blaid Lafur mohono. Galwai ein penderfyniad ar 8 Rhagfyr yn benodol am i'r Cynulliad gytuno ar un ymateb yn cynrychioli, cyn belled ag y mae hynny'n bosibl, barn pob un ohonom. Mae hyn yn cryfhau gwerth ein hymateb yn enfawr. Mae'n mynd â ni, cyn belled ag sydd yn bosibl, allan o faes gwleidyddiaeth plaid. Yn hytrach, mae'n mynegi barn gyfun ar ran y Cynulliad fel llais democrataidd Cymru. Mae'r drafft, felly, yn cynnwys llawer o gynigion nad ydynt wedi eu hawgrymu gan Aelodau'r Blaid Lafur ar faterion fel cynnal plant, y rheilffyrdd neu'r hawl i grwydro. Awgrymwyd hwy gan Aelodau'r Cynulliad. Nid myfi nac Ysgrifenyddion y Cynulliad a luniodd y papur. Fe'i lluniwyd gan swyddogion a geisiodd, cyn belled ag sydd yn bosibl, adlewyrchu'n gywir natur y ddadl a'r safbwyntiau yn y ddadl ar Araith y Frenhines a rhaglen ddeddfu'r Llywodraeth.

2:59 p.m.

Ieuan Wyn Jones: Will the First Secretary tell me what consultations the officials had with opposition parties before the response was drawn?

Ieuan Wyn Jones: A wnaiff y Prif Ysgrifennydd ddweud wrthyf pa ymgynghori a fu rhwng y swyddogion a'r gwrthbleidiau cyn llunio'r ymateb?

The First Secretary: Officials considered the comments that were made in the two days of debate on the Queen's Speech. This response is in reply to that debate, in which Members across parties had an opportunity to participate. Therefore, they did not consult us, as a Cabinet, or other parties in seeking to reflect the debate. That process has integrity. That is why I cannot agree with your amendment 1, Ieuan, or Nick Bourne's amendment 2. They are both disappointing. They express a refusal to engage in an inclusive dialogue or come to an agreement on a matter of vital importance to Wales—

Y Prif Ysgrifennydd: Ystyriodd y swyddogion y sylwadau a wnaethpwyd yn y deuddydd o drafod ar Araith y Frenhines. Adlewyrchu'r ddadl honno y mae'r ymateb hwn, pryd y cafodd Aelodau ar draws y pleidiau gyfle i gymryd rhan. Felly, ni wnaethant ymgynghori â ni, fel Cabinet, na'r pleidiau eraill wrth geisio adlewyrchu'r ddadl. Mae'r broses yn onest. Dyna pam na allaf gytuno gyda'ch gwelliant 1, Ieuan, na gwelliant 2 gan Nick Bourne. Maent ill dau yn peri siom. Maent yn mynegi eich bod yn gwrthod ymuno mewn deialog cynhwysol na chytuno ar fater sydd o'r pwys mwyaf i Gymru—

Nick Bourne: Further to Ieuan Wyn Jones's point, is it true to say that this is an official response that has been drawn up by officials without any consultation with opposition

Nick Bourne: Yn dilyn o bwynt Ieuan Wyn Jones, a yw'n wir dweud mai ymateb swyddogol yw hwn wedi ei lunio gan swyddogion heb ymgynghori o gwbl â'r

parties or, presumably—from what you say—with the administration, and therefore, with who has said what being unattributable? That is quite astounding. I would be happier if this was the Executive's response, rather than a response drawn up by officials, which we must now debate in this Chamber. It is absolutely extraordinary.

gwrthbleidiau nac, yn ôl pob tebyg—o'r hyn a ddywedwch— â'r weinyddiaeth, ac felly, ni ellir dweud pwy sydd wedi dweud beth? Mae hynny'n gwbl syfrdanol. Byddwn yn hapusach pe bai hwn yn ymateb gan y Weithrediaeth, yn hytrach nag ymateb a luniwyd gan swyddogion, y mae'n rhaid inni yn awr ei drafod yn y Siambr hon. Mae'n gwbl anarferol.

The First Secretary: I understand your point of view, because you want the Executive to do everything so that you can knock it. You have expressed clearly that that is how you wish to operate in this Chamber. That is what I find disappointing. What we have is an attempt to summarise the views that were made by Members across parties, so that the formal response to the UK Government is not one that we send as an Executive, but as an Assembly. Be fair, Nick, you did not even want to thank the Secretary of State for addressing us and it seems now that you do not want to respond to him either. If you, or anybody else, disagreed with points in the draft, you could have tabled amendments. A number of amendments have been tabled for consideration.

Y Prif Ysgrifennydd: Deallaf eich safbwynt, oherwydd yr ydych chi am i'r Weithrediaeth wneud popeth er mwyn i chi ei beirniadu. Yr ydych wedi datgan yn glir mai dyna sut yr ydych am weithredu yn y Siambr hon. Dyna'r hyn sydd yn fy siomi. Yr hyn sydd gennym yw ymgais i grynhoi'r safbwyntiau a fynegwyd gan Aelodau ar draws y pleidiau, fel bod yr ymateb ffurfiol i Lywodraeth y DU yn cael ei anfon nid fel llais y Weithrediaeth, ond fel llais y Cynulliad. Byddwch yn deg, Nick, nid oeddech hyd yn oed am ddiolch i'r Ysgrifennydd Gwladol am ein hannerch ac mae'n ymddangos yn awr nad ydych am ymateb iddo ychwaith. Os oeddech chi, neu unrhyw un arall, yn anghytuno â'r pwyntiau yn y drafft, gallech fod wedi cyflwyno gwelliannau. Mae nifer o welliannau wedi eu cyflwyno i'w hystyried.

Ieuan Wyn Jones: Let me make it clear that, had we been able to amend the response, we would have done so. The advice and guidance given to us was that one could not amend the response, only the motion.

Ieuan Wyn Jones: Gadewch imi ei gwneud yn gwbl glir. Pa baem ni wedi cael newid yr ymateb, byddem wedi gwneud hynny. Y cyngor a'r arweiniad a roddwyd inni oedd nad oedd modd newid yr ymateb, dim ond y cynnig.

The First Secretary: The amendments to the motion effectively seek to amend the response. If the amendments are adopted today, points about important matters will be made to the UK Government that are not part of the original draft. I do not understand the point, Ieuan.

Y Prif Ysgrifennydd: I bob pwrpas, diben y gwelliannau i'r cynnig yw newid yr ymateb. Os mabwysiadir y gwelliannau heddiw, bydd pwyntiau am faterion pwysig yn cael eu gwneud i Lywodraeth y DU nad ydynt yn rhan o'r drafft gwreiddiol. Nid wyf yn deall y pwynt, Ieuan.

Cynog Dafis: Mae'r Prif Ysgrifennydd yn dweud bod swyddogion wedi rhoi'r ddogfen hon at ei gilydd heb ymgynghori â phleidiau eraill na'r Cabinet. Dylai'r ddogfen, felly, adlewyrchu barn gasgliadol y Cynulliad. Os felly, o ble daeth y gymeradwyaeth o baragraff 12 ynglŷn â bwriad y Llywodraeth i newid yr hawl i brawf gan reithwyr?

Cynog Dafis: The First Secretary says that officials have compiled this document without consulting with other parties or the Cabinet. The document should, therefore, reflect the collective view of the Assembly. If so, from where did the approval of paragraph 12 about the Government's intention to change the right to trial by jury come?

Y Prif Ysgrifennydd: Fel y cofiaf, yr oedd

The First Secretary: As I remember, there

tipyn o ddadl ynglŷn â'r pwynt hwnnw. Gwneuthum bwynt ynglŷn â'r sefyllfa honno pan ymatebais i rywun a oedd yn rhoi barn. Fodd bynnag, nid wyf wedi gwirio hynny. Yn y ddogfen ceisir rhoi crynodeb o'r hyn a ddywedodd pobl yn ystod y ddadl. Dyna'r rheswm dros gael dadl agored.

was some debate about that point. I made a point about the situation when I responded to someone who gave an opinion. However, I have not verified this. The document seeks to summarise what people said during the debate. That was the reason for having an open debate.

It was important that views were expressed and people had the chance to take part in an open, wide-ranging debate. An attempt to summarise the views that were expressed in that debate is what is before us today and we have a chance to debate it again. I will refer to that point, as it relates to an amendment.

Yr oedd yn bwysig bod safbwyntiau'n cael eu mynegi a bod pobl yn cael cyfle i gymryd rhan mewn dadl agored, eang ei chwmpas. Yr hyn sydd gennym ger ein bron heddiw yw ymgais i grynhoi'r safbwyntiau a fynegwyd yn y ddadl honno ac mae gennym gyfle i'w trafod eto. Yr wyf am gyfeirio at y pwynt hwnnw, am ei fod yn berthnasol i un o'r gwelliannau.

Jocelyn Davies: If you can remember that during our deliberations, there was considerable debate on this point that is not reflected in paragraph 12. In fact, it wholeheartedly supports the UK Government's view on the matter.

Jocelyn Davies: Os gallwch gofio, yn ystod ein trafodaethau, cafwyd cryn ddadl ar y pwynt hwn nad yw wedi ei hadlewyrchu ym mharagraff 12. Yn wir, mae'n llwyr gefnogi barn Llywodraeth y DU ar y mater.

The First Secretary: Yes, and we have an amendment, which suggests that the Assembly should take a different view. It is open for debate here today. I will express my view on the matter, but there are others, which is why it is before us for consideration today.

Y Prif Ysgrifennydd: Ydyw, ac mae gennym welliant sydd yn awgrymu y dylai'r Cynulliad gymryd safbwynt gwahanol. Mae'n agored i'w drafod yma heddiw. Byddaf yn mynegi fy marn i ar y mater, ond mae eraill, a dyna pam y mae ger ein bron heddiw i'w ystyried.

Jocelyn Davies: Alun, you have already said that this paper reflects the collective view of the Plenary during that debate and, by your own admission, one of the first points that we look at does not reflect that.

Jocelyn Davies: Alun, yr ydych eisoes wedi dweud bod y papur hwn yn adlewyrchu barn gyfun y Sesiwn Llawn yn ystod y ddadl honno ac, fel yr ydych yn cyfaddef, nid yw un o'r pwyntiau cyntaf inni edrych arno yn adlewyrchu hynny.

The First Secretary: No. As I recall the debate—it was some time ago—different views were expressed, but I expressed a persuasive view on this point. I will seek to persuade the Chamber again although I might not succeed in doing so. It is the Assembly's views that will go forward as a result of this debate as well as the decisions on the motion and the amendments. This is quite a straightforward way of dealing with decision-making and I cannot understand why there appears to be a difficulty with it. The whole point is for us to express sensibly to the UK Government—and be able to handle—a coherent, wide-ranging debate by

Y Prif Ysgrifennydd: Na. Fel y cofiaf fi'r ddadl—ur oedd beth amser yn ôl—mynegwyd amrywiaeth barn, ond mynegais i farn a oedd yn llawn argyhoeddiad ar y pwynt hwn. Byddaf yn ceisio perswadio'r Siambr eto er na lwyddaf efallai i wneud hynny. Barn y Cynulliad fydd yn mynd ymlaen o ganlyniad i'r ddadl hon yn ogystal â'r penderfyniadau ar y cynnig a'r gwelliannau. Mae hon yn ffordd ddigon syml o ddelio â'r gwaith o lunio penderfyniadau ac ni allaf ddeall pam fod anhawster yn ôl pob golwg. Y diben yw inni allu mynegi'n synhwyrol wrth Lywodraeth y DU—a gallu delio â—dadl resymegol, eang ei chwmpas drwy geisio

attempting to summarise and bring together the Assembly's views.

That, then, is the nature of the draft response. Many Members will no doubt find some things in it with which they disagree, but I hope that it at least covers fairly all the issues raised in our earlier debate. If there is a theme running through it, it is the need for primary legislation to reflect Wales's needs and the Assembly's legitimate role in meeting those needs. The second element of the motion also reflects that and I hope that we can agree on it.

Ieuan's amendment 8 raises the place of Subject Committees in securing flexible primary legislation. We have seen the value of this approach in the Health and Social Services Committee in its consideration of the Care Standards Bill. The draft protocol with the Secretary of State—to which I will turn later—also emphasises the Committee's role. This should not be to the exclusion of the Cabinet's and individual Members' role to also consider future primary legislation, but in that spirit I am happy to support Ieuan's amendments 1 and 8.

I will touch on a few examples of how the draft response covers points raised by all Members and presses for primary legislation that meets our needs. I hope this will persuade colleagues across parties of the validity of this response. In our original debate, many Members from across the party spectrum suggested that the Assembly should have a formal role in the work of the strategic rail authority. The Environment and Local Government Committee made a similar point at its meeting on 19 January. Peter Law and I have since made strong representations to UK ministers to that effect. The UK Government has now agreed to amend the Bill to give the Assembly a statutory right to be consulted on one appointment to the authority. That is welcome, but it does not go far enough. Consultation alone does not guarantee us a member of the authority who will pay special attention to Welsh railways. We need to either agree to one such appointment or, better still, to make it

crynhoi a dwyn safbwyntiau'r Cynulliad ynghyd.

Dyna, felly, yw natur yr ymateb drafft. Mae'n siŵr y bydd llawer o'r Aelodau yn gweld pethau ynddo y maent yn anghytuno â hwy, ond gobeithiaf ei fod o leiaf yn ymdrin yn deg â'r holl faterion a godwyd yn ein dadl flaenorol. Os oes thema yn rhedeg drwyddo, y thema honno yw'r angen am i ddeddfwriaeth sylfaenol adlewyrchu anghenion Cymru a rôl gyfreithlon y Cynulliad wrth ddiwallu'r anghenion hynny. Mae ail elfen y cynnig hefyd yn adlewyrchu hynny a gobeithiaf y gallwn gytuno arni.

Mae gwelliant 8 gan Ieuan yn cyfeirio at swyddogaeth y Pwyllgorau Pwnc wrth sicrhau deddfwriaeth sylfaenol hyblyg. Yr ydym wedi gweld gwerth y patrwm gweithredu hwn yn y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wrth iddo ystyried y Mesur Safonau Gofal. Mae'r protocol drafft gyda'r Ysgrifennydd Gwladol—y trof ato'n ddiweddarach—hefyd yn pwysleisio rôl y Pwyllgorau. Ni ddylai hynny fod ar draul rôl y Cabinet ac Aelodau unigol hefyd i ystyried deddfwriaeth sylfaenol yn y dyfodol, ond yn yr ysbryd hwnnw yr wyf yn barod i gefnogi gwelliannau 1 ac 8 gan Ieuan.

Hoffwn gyfeirio at rai enghreifftiau o sut y mae'r ymateb drafft yn ymdrin â phwyntiau a godwyd gan yr holl Aelodau ac yn pwyso am ddeddfwriaeth sylfaenol sydd yn diwallu ein hanghenion. Gobeithiaf y bydd hyn yn perswadio cyd-Aelodau ar draws y pleidiau o ddilysrwydd yr ymateb hwn. Yn ein dadl wreiddiol, awgrymodd llawer o Aelodau o bob rhan o'r sbectrwm pleidiau y dylai fod gan y Cynulliad rôl ffurfiol yng ngwaith yr awdurdod rheilffyrdd strategol. Gwnaeth Pwyllgor yr Amgylchedd a Llywodraeth Leol bwynt tebyg yn ei gyfarfod ar 19 Ionawr. Mae Peter Law a minnau wedi dadlau achos cryf gerbron gweinidogion y DU i'r perwyl hwn ers hynny. Bellach mae Llywodraeth y DU wedi cytuno i ddiwygio'r Mesur i roi i'r Cynulliad hawl statudol fel bod yn rhaid ymgynghori ag ef ynghylch un penodiad i'r awdurdod. Mae hynny i'w groesawu, ond nid yw'n mynd yn ddigon pell. Nid yw ymgynghori ar ei ben ei hun yn gwarantu inni aelod o'r awdurdod a fydd yn rhoi sylw

ourselves. The draft response is inaccurate on one point—the Transport Bill does not give such powers to Scottish Ministers and the greater London authority, but that does not make it any more acceptable. If the Assembly agrees, I will make further strong representations to the UK Government on this point and report to the Assembly on the results.

arbennig i reilffyrdd Cymru. Mae angen inni gytuno i un penodiad o'r fath neu, yn well fyth, ei wneud ein hunain. Mae'r ymateb drafft yn anghywir ar un pwynt—nid yw'r Mesur Trafnidiaeth yn rhoi pwerau o'r fath i Weinidogion yr Alban nac awdurdod Llundain fawr, ond nid yw hynny'n ei wneud yn fwy derbyniol mewn unrhyw ffordd. Os yw'r Cynulliad yn cytuno, byddaf yn cyflwyno sylwadau cryf pellach i Lywodraeth y DU ar y pwynt hwn ac yn rhoi adroddiad i'r Cynulliad ar y canlyniadau.

Before I leave the subject of railways, I should comment on Mike German's amendment 5. He suggests that there should be a single franchise for rail services in Wales as there is in Scotland. The majority of Scottish rail services start and end in Scotland, while a much smaller proportion of Welsh services do so in Wales. We should not, therefore, proceed simply on the basis of mirroring Scotland. Nevertheless, I support any measures that would give greater coherence to rail services in Wales, and it may be—I underline the may—that a single franchise in some form would assist in that. However this is a complex area depending heavily on the commercial judgments of the rail operators and none of us wants to impose a franchise that would not work. I suggest that the Subject Committee keeps this matter under review. If Mike, as I suspect he will, wishes to press this amendment today, I hope that he does so in that spirit of review to ensure that we get the best deal for Wales.

Cyn imi adael pwnc y rheilffyrdd, dylwn gyfeirio at welliant 5 gan Mike German. Mae'n awgrymu y dylai fod un rhyddfraint ar gyfer gwasanaethau rheilffyrdd yng Nghymru fel sydd yna yn yr Alban. Mae'r rhan fwyaf o wasanaethau trên yr Alban yn dechrau ac yn gorffen yn yr Alban, tra bo cyfran lawer llai o wasanaethau Cymru yn gwneud hynny yng Nghymru. Ni ddylem, felly, fwrw ymlaen yn syml ar sail efelychu'r Alban. Fodd bynnag, cefnogaf unrhyw fesurau a fyddai'n gwneud gwasanaethau rheilffyrdd yng Nghymru yn fwy cydlynus, ac efallai—a thanlinellaf yr efallai—y byddai un rhyddfraint ar ryw ffurf yn help yn hynny o beth. Fodd bynnag, mae hwn yn faes cymhleth sydd yn ddibynnol iawn ar farn fasnachol y cwmnïau rheilffyrdd ac ni fyddai'r un ohonom am bennu rhyddfraint na fyddai'n gweithio. Awgrymaf fod y Pwyllgor Pwnc yn parhau i adolygu'r mater hwn. Os yw Mike, fel yr wyf yn amau, am wthio'r gwelliant hwn heddiw, gobeithiaf y gwnaiff hynny yn yr ysbryd hwn o adolygu er mwyn sicrhau ein bod yn cael y fargen orau i Gymru.

I agree with Mike's other points in amendment 5 regarding local government reorganisation and rural postal services. I believe that the draft response already reflects them both.

Cytunaf â phwyntiau eraill Mike yng ngwelliant 5 ynglŷn ag ad-drefnu llywodraeth leol a gwasanaethau post gwledig. Credaf fod yr ymateb drafft yn adlewyrchu'r ddau bwynt yn barod.

John Marek: On franchise, would you agree that simply having one franchise in Wales, while welcome, would not be sufficient? It would also be necessary for some of the subsidy that is distributed to the train operating companies to be channelled through the Assembly or a responsible body in order that consultation will be meaningful.

John Marek: Ynglŷn â rhyddfraint, a fyddech yn cytuno na fyddai cael un rhyddfraint yng Nghymru, er bod hynny i'w groesawu, ohono ei hun yn ddigonol? Byddai'n rhaid hefyd i ran o'r cymhorthdal a ddosbarthir i'r cwmnïau rheilffyrdd gael ei sianelu drwy'r Cynulliad neu gorff cyfrifol er mwyn i'r ymgynghori fod yn ystyrlon.

The First Secretary: That can work in

Y Prif Ysgrifennydd: Gall hynny weithio

different ways because of the inherent contact and link between rail services in Wales and outside Wales. We need to ensure that we get the best service at the best price for rail users in Wales. In relation to the single franchise, I entertain the possibility that Mike's judgment, as expressed in amendment 5, is correct and that the idea of a single franchise should be pursued. If it is proved that a different configuration offers Wales a better deal, we should be willing to consider our principle rather than making it something with which we would die in a ditch. The quality of service is important, as well as the coherence of services. The same applies to the way in which finances are channelled, John. The mechanism that you suggest might win us an improved deal. If it does, it would be worth arguing for, if it did not or if it weakened our hand, we should be careful.

mewn ffyrdd gwahanol oherwydd y cyswllt a'r cydgyffwrdd rhwng gwasanaethau trên yng Nghymru a'r tu allan i Gymru. Mae angen inni sicrhau ein bod yn cael y gwasanaeth gorau am y pris gorau i ddefnyddwyr rheilffyrdd yng Nghymru. O ran un rhyddfraint, yr wyf yn ystyried y posibilrwydd fod barn Mike, fel y'i mynegir yng ngwelliant 5, yn gywir ac y dylid mynd ar drywydd y syniad o un rhyddfraint. Os profir bod patrwm gwahanol yn cynnig gwell bargen i Gymru, dylem fod yn barod i ystyried ein hegwyddor yn hytrach na gwneud ohoni rywbeth y byddem yn mynnu ei goleddu i'r pen. Mae ansawdd y gwasanaeth yn bwysig, yn ogystal â pha mor gydlynus yw'r gwasanaethau. Mae'r un peth yn wir am y modd o sianelu cyllid, John. Efallai y byddai'r peirianwaith a awgrymwch chi yn ennill gwell bargen inni. Os gwna, byddai'n werth dadlau o'i blaid; os na fyddai neu pe bai'n gwanhau ein hachos, dylem fod yn ofalus.

3:09 p.m.

The Countryside Bill has attracted much comment from Members, and the draft response attempts to reflect them all. Mick Bates, for instance, argued in the debate that landowners should have the right of appeal to an independent arbitrator where access to their land is granted. Mick and other Members also stressed the value of voluntary access agreements as opposed to compulsion. The draft response reflects those points.

Mae'r Mesur Cefn Gwlad wedi denu llawer o sylwadau gan Aelodau, ac mae'r ymateb drafft yn ceisio adlewyrchu pob un ohonynt. Dadleuodd Mick Bates, er enghraifft, yn y ddadl y dylai tirfeddianwyr fod â'r hawl i apelio i gymodwr annibynnol lle caniateir mynediad i'w tir. Pwysleisiodd Mick ac Aelodau eraill hefyd werth cytundebau mynediad gwirfoddol yn hytrach na gorfodaeth. Mae'r ymateb drafft yn adlewyrchu'r pwyntiau hyn.

I do not agree that the right to roam itself is in any way regrettable. It will allow a great number of people clearly defined access to the countryside without damaging crops or distressing livestock, or imposing extra costs on landowners. We should not oppose a well-designed balanced piece of legislation.

Nid wyf yn cytuno bod yr hawl i grwydro ei hun yn anffodus mewn unrhyw ffordd. Bydd yn rhoi i nifer fawr o bobl fynediad i gefn gwlad sydd wedi ei ddiffinio'n glir heb ddifrodi cnydau na phoeni da byw, na pheri costau ychwanegol i dirfeddianwyr. Ni ddylem wrthwynebu darn cytbwys o ddeddfwriaeth sydd wedi ei gynllunio'n dda.

Debating the legislative programme has also given us a chance to consider matters of importance to Wales that are not devolved and which do not bear directly on the Assembly. In our earlier debate, for instance, Members raised issues relating to the Child Support Agency, terrorism, criminal procedure and drug testing. The draft

Mae trafod y rhaglen ddeddfu hefyd wedi rhoi cyfle inni i ystyried materion o bwys i Gymru nad ydynt wedi eu datganoli ac nad oes a wnelont yn uniongyrchol â'r Cynulliad. Yn ein dadl flaenorol, er enghraifft, cododd yr Aelodau faterion yn ymwneud â'r Asiantaeth Cynnal Plant, terfysgaeth, y drefn droseddol a phrofi am gyffuriau. Mae'r

response attempts to cover those issues.

ymateb drafft yn ceisio ymdrin â'r materion hyn.

Mike German's amendment 6 argues that the proposal to remove a defendant's ability to opt for Crown Court trial in cases that it is currently possible to try either way, is an infringement of civil liberties. I understand that argument—it is one that I have debated frequently and at length with lawyers and civil rights' experts during my period at the Home Office and in Opposition. But I express a personal view on this matter. Members will be aware that the UK Government is likely to withdraw the Criminal Justice (Mode of Trial) Bill following a defeat in the Lords. Nevertheless, I cannot agree with Mike on this point. There is no known legal system elsewhere in the world that offers defendants the right to decide his or her own mode of trial. It is not even available in Scotland where the prosecution decides the mode of trial. What is inherent in Mike's amendment is that Scottish law routinely denies defendants a fair trial, which is not the case. Justice is not served by needlessly prolonging proceedings and imposing excessive costs on the taxpayer solely to allow trial of a small proportion of offences in the Crown Court. I do not agree with this amendment. However, it is not an issue on which personal views are paramount and the Assembly is entitled to take its view.

Mae gwelliant 6 Mike German yn dadlau bod y cynnig i ddileu gallu diffynnydd i ddewis sefyll ei brawf yn Llys y Goron, mewn achosion y gellir eu cynnal ar hyn o bryd drwy'r naill ddull neu'r llall, yn groes i hawliau sifil. Yr wyf yn deall y ddadl honno—mae'n un yr wyf wedi ei thrafod yn aml ac yn hirfaith gyda chyfreithwyr ac arbenigwyr hawliau sifil yn ystod fy nghyfnod yn y Swyddfa Gartref ac yn yr Wrthblaid. Ond mynegaf farn bersonol ar y mater hwn. Bydd yr Aelodau'n gwybod bod Llywodraeth y DU yn debyg o dynnu'r Mesur Cyfiawnder Troseddol (Dull y Treial) yn ôl ar ôl iddo gael ei drechu gan yr Arglwyddi. Serch hynny, ni allaf gytuno â Mike ar y pwynt hwn. Nid oes system gyfreithiol arall y gwyddom amdani mewn unrhyw le yn y byd sydd yn cynnig i ddiffynyddion yr hawl i benderfynu ar ddull eu treial. Nid yw ar gael hyd yn oed yn yr Alban lle mae'r erlyniad yn penderfynu ar y dull. Yr hyn sydd ymhlyg yng ngwelliant Mike yw bod cyfraith yr Alban yn gyson yn gwadu treial teg i ddiffynyddion, nad yw'n wir. Ni wasanaethir cyfiawnder drwy ymestyn achosion yn ddiangen a rhoi costau afresymol ar y trethdalwr i ddim diben ond caniatáu i gyfran fechan o droseddau fynd gerbron Llys y Goron i gael eu clywed. Ni chytunaf â'r gwelliant hwn. Fodd bynnag, nid yw'n fater lle mae barn bersonol yn holl bwysig ac mae'n rhydd i'r Cynulliad leisio ei farn.

I have some sympathy with parts of Mike's amendment 7. The draft response expresses some concern about the proposals for mandatory drug testing and the Freedom of Information Bill. On the former, it argues that the first priority must be to reduce drug abuse and drug-related crime. Proposals aimed solely at identifying and prosecuting drug users should not, nor would not command support. I agree with Mike to that extent. But the evidence shows that there will be considerable long-term benefits from this approach. This has an impact on the lives of our communities and on issues that are of concern to the Assembly. The 50,000 or 60,000 most serious drug users each probably commit around 150 offences a year to feed

Mae gennyf beth cydymdeimlad â rhannau o welliant 7 gan Mike. Mae'r ymateb drafft yn mynegi peth pryder ynglŷn â'r cynigion ynghylch profion cyffuriau gorfodol a'r Mesur Rhyddid Gwybodaeth. Ar y cyntaf, mae'n dadlau mai'r flaenoriaeth gyntaf o raid yw gostwng lefel camddefnyddio cyffuriau a throseddau sydd yn gysylltiedig â chyffuriau. Ni ddylai, ac yn wir ni fyddai cynigion nad ydynt ond yn ceisio canfod pwy sydd yn defnyddio cyffuriau, a'u herlyn, yn ennyn cefnogaeth. Cytunaf â Mike cyn belled â hynny. Ond dengys y dystiolaeth y bydd manteision sylweddol yn y tymor hir o weithredu fel hyn. Mae hyn yn effeithio ar fywydau ein cymunedau ac ar faterion sydd o bwys i'r Cynulliad. O blith y 50,000 i 60,000

their habit. That is a major blight on the communities and individuals affected. Mandatory drug testing in prisons, supported by rehabilitation programmes and not just done in isolation, has led to a significant drop in drug abuse. American research indicates that testing itself reduces drug-related crime. If the new legislation follows this approach, as the response argues it should, then overall levels of crime and drug abuse should fall in the longer term. I hope that that point will be taken on board when we consider that amendment.

o ddefnyddwyr cyffuriau mwyaf difrifol, mae'n debyg bod pob un yn cyflawni tua 150 o droseddau'r flwyddyn i fwydo eu harfer. Mae hyn yn falltod mawr ar y cymunedau a'r unigolion yr effeithir arnynt. Mae profion cyffuriau gorfodol mewn carchardai, gyda rhaglenni adfer yn gefn iddynt a heb eu gwneud ar eu pen eu hunain, wedi arwain at ostyngiad sylweddol mewn camddefnyddio cyffuriau. Dengys ymchwil o America fod profion ynddynt eu hunain yn gostwng lefel troseddau sydd yn gysylltiedig â chyffuriau. Os dilyna'r ddeddfwriaeth newydd y patrwm hwn, fel y mae'r ymateb yn dadlau y dylai, dylai lefelau troseddu a chamddefnyddio cyffuriau ostwng yn y tymor hwy. Gobeithiaf y rhoddir sylw i'r pwynt hwn pan fyddwn yn ystyried y gwelliant.

Mike and other Members also raised concerns about the Freedom of Information Bill. I agree with the essence of those concerns, namely, that there should be a presumption in favour of disclosure rather than of secrecy. The Assembly is already under statutory duties to operate in an open way. I take those duties seriously and I believe that we can serve as an example to other UK authorities. We should be clear that there will always be categories of information that should not be disclosed. Every freedom of information regime in the world recognises that. Only yesterday we discussed the protection and integrity of our e-mail and computer systems. Exceptions to the duty to disclose information are included in the proposals for new legislation in Scotland. I do not agree with Mike's comments that the proposed Scottish Bill is significantly wider. The consultation document 'Open Scotland' has a list of exceptions to the duty to disclose, which runs to four pages in length. Many of them are similar or identical to those proposed for England and Wales. Scottish Ministers will be able to override the Scottish Information Commissioner's decisions as will be the case south of the border.

Cododd Mike ac Aelodau eraill hefyd bryderon ynglŷn â'r Mesur Rhyddid Gwybodaeth. Cytunaf â hanfod y pryderon hynny, sef y dylai fod rhagdybiaeth o blaid dadlennu yn hytrach na chelu. Mae'r Cynulliad eisoes o dan ddyletswyddau statudol i weithredu mewn ffordd agored. Yr wyf yn cymryd y dyletswyddau hynny o ddifrif a chredaf y gallwn fod yn esiampl i awdurdodau eraill y DU. Dylem fod yn glir y bydd pob amser gategorïau o wybodaeth na ddylid eu dadlennu. Mae pob cyfundrefn rhyddid gwybodaeth yn y byd yn cydnabod hynny. Dim ond ddoe yr oeddem yn trafod gwarchodaeth ein systemau cyfrifiadurol ac e-bost a pha mor ddiogel ydynt. Mae eithriadau i'r ddyletswydd i ddadlennu gwybodaeth wedi eu cynnwys yn y cynigion ar gyfer deddfwriaeth newydd yn yr Alban. Nid wyf yn cytuno â sylwadau Mike fod Mesur arfaethedig yr Alban yn ehangach i raddau sylweddol. Ceir yn y ddogfen ymgynghorol 'Open Scotland' restr o eithriadau i'r ddyletswydd i ddadlennu, sydd yn bedair tudalen o hyd. Mae llawer ohonynt yn debyg neu'n union yr un fath â'r hyn a gynigir ar gyfer Cymru a Lloegr. Gall Gweinidogion yr Alban wyrdroi penderfyniadau Comisiynydd Gwybodaeth yr Alban fel a fydd yn wir i'r de o'r ffin.

I broadly support the spirit of parts of Mike's amendment 7, but I must take issue with the detail. I am not certain to what extent we could happily support proportional representation in local government elections.

Cefnogaf yn fras rannau o welliant 7 gan Mike, ond rhaid imi anghytuno â'r manylion. Nid wyf yn siŵr i ba raddau y gallwn yn gyfforddus gefnogi cynrychiolaeth gyfrannol mewn etholiadau llywodraeth leol. Mae yna

There are some issues on which differences are likely to arise.

rai materion lle mae gwahaniaethau yn debyg o godi.

Ron Davies: I am grateful to you, Alun, for allowing this intervention. Why do you feel that it is appropriate for us, as Assembly Members, to have the ability to express a free view on jury trial but not on freedom of information?

Ron Davies: Yr wyf yn ddiolchgar ichi, Alun, am ganiatáu'r ymyriad hwn. Pam y teimlwch ei bod yn briodol inni, fel Aelodau o'r Cynulliad, gael mynegi barn rydd ar dreial gerbron rheithgor ond nid ar ryddid gwybodaeth?

The First Secretary: On freedom of information, we needed a consistent view on the legislation that applies to us, because it affects our operations in the Assembly. I feel strongly about mode of trial, but I do not seek to persuade people to agree with me. It is not a matter for the Assembly directly and I think it is honest of me to indicate my strong view to the Assembly. It would be dishonest to say something different. However, I do not seek to persuade people on that; it is open to debate.

Y Prif Ysgrifennydd: Ar ryddid gwybodaeth, mae angen barn gyson arnom am y ddeddfwriaeth sydd yn berthnasol inni, oherwydd mae'n effeithio ar ein gwaith yn y Cynulliad. Teimlaf yn gryf am ddull y treial, ond ni cheisiaf berswadio pobl i gytuno â mi. Nid yw'n fater i'r Cynulliad yn uniongyrchol a chredaf ei bod yn onest imi fynegi fy marn gref wrth y Cynulliad. Byddai dweud rhywbeth gwahanol yn anonest. Fodd bynnag, ni cheisiaf berswadio pobl ar hynny, mae'n agored i'w drafod.

Finally on the draft response, I turn to Nick Bourne's amendment 3. I will say what I stated in the earlier debate on this issue. I do not look to him or anyone else for lessons on the importance of match funding. He and the Assembly are aware of our efforts to secure it. Vital though match funding is, we do not need to mention it on every occasion, however irrelevant. In this case, the Finance Bill would not, in any event, be the vehicle for delivering match funding. The Government's expenditure plans are formalised in the annual Appropriation Act, introduced after spending levels have been agreed. Match funding was never going to feature in this session's legislative programme. It would not serve our cause to argue in a way that suggested ignorance of the public expenditure system. I will be obliged to vote against amendment 3, if Nick insists on pressing it, despite knowing that it is technically flawed.

Yn olaf ar yr ymateb drafft, trof at welliant 3 gan Nick Bourne. Dywedaf yr hyn a ddywedais yn y ddadl flaenorol ar y mater hwn. Ni throf ato ef nac unrhyw un arall am wersi ynglŷn â phwysigrwydd cyllid cyfatebol. Mae ef a'r Cynulliad yn ymwybodol o'n hymdrechion i'w sicrhau. Er mor bwysig yw cyllid cyfatebol, nid oes angen inni ei grybwyll ar bob achlysur, waeth pa mor amherthnasol ydyw. Yn yr achos hwn, nid y Mesur Cyllid fyddai'r cyfrwng, beth bynnag, i gyflwyno cyllid cyfatebol. Ffurfiolir cynlluniau gwariant y Llywodraeth yn y Ddeddf Neilltuo flynyddol a gyflwynir ar ôl cytuno ar y lefelau gwariant. Ni fwriadwyd erioed i gyllid cyfatebol ymddangos yn rhaglen ddeddfwriaethol y sesiwn hwn. Ni fyddai o fudd inni ddadlau mewn ffordd sydd yn awgrymu nad ydym yn deall y system gwariant cyhoeddus. Bydd yn rhaid imi bleidleisio yn erbyn gwelliant 3, os bydd Nick yn mynnu ei wthio er ei fod yn gwybod ei fod yn dechnegol wallus.

On all my points, and in the rest of the draft response, the principle must be to secure primary legislation that meets the needs of Wales and allows us to develop policy accordingly. We have already had successes here—which we discussed in the Chamber last month—in securing separate provisions in the Learning and Skills Bill to restructure

Ar bob un o'm pwyntiau, ac yng ngweddill yr ymateb drafft, yr egwyddor o raid yw sicrhau deddfwriaeth sylfaenol sydd yn diwallu anghenion Cymru ac yn caniatáu inni ddatblygu polisi yn unol â hynny. Yr ydym eisoes wedi cael llwyddiannau yma—a drafodwyd yn y Siambr y mis diwethaf—yn sicrhau darpariaethau ar wahân yn y Mesur

youth services in Wales in a way that reflects our wishes, Welsh needs and Welsh traditions. As well as influencing the UK Government's ideas, we must put forward our own. That is why—again responding to the debate in December—I brought forward the draft protocol before us today. Its terms are largely self-explanatory. It will be open to the Assembly at any time to suggest Bills or amendments to Bills and the Secretary of State for Wales will be obliged to consider them fully. I propose that the Cabinet be under a duty, each year—in collaboration with the Subject Committees—to bring forward a draft set of proposals for the Assembly's approval. That will allow us to make suggestions at a time that is consistent with the UK Government's consideration of its future programme, giving us the best chance of success.

Dysgu a Sgiliau i ailstrwythuro'r gwasanaethau ieuenctid yng Nghymru mewn ffordd sydd yn adlewyrchu ein dymuniadau, anghenion Cymru a thraddodiadau Cymru. Yn ogystal â dylanwadu ar syniadau Llywodraeth y DU, rhaid inni gyflwyno ein syniadau ein hunain. Dyna pam—gan ymateb eto i'r ddadl ym mis Rhagfyr—y cyflwynais y protocol drafft sydd ger ein bron heddiw. Mae ei delerau yn esbonio'u hunain i raddau helaeth. Bydd yn agored i'r Cynulliad awgrymu Mesurau neu welliannau i Fesurau ar unrhyw adeg a bydd yn rhaid i Ysgrifennydd Gwladol Cymru eu hystyried yn llawn. Cynigiaf fod y Cabinet dan ddyletswydd, bob blwyddyn—ar y cyd â'r Pwyllgorau Pwnc—i gyflwyno set ddrafft o gynigion i'w cymeradwyo gan y Cynulliad. Bydd hynny'n caniatáu inni wneud awgrymiadau ar adeg sydd yn cyd-fynd â'r cyfnod pan fo Llywodraeth y DU yn ystyried ei rhaglen i'r dyfodol, gan roi inni'r gobaith gorau o lwyddo.

3:19 p.m.

It would be preferable to clarify and entrench Members' rights in this area. Therefore, the motion proposes that we should amend Standing Orders in due course to give effect to the protocol. If the Assembly agrees, I will put detailed proposals to the Business Committee in the usual way. Until and unless such amendments are agreed, the protocol necessarily remains a draft.

Da o beth fyddai egluro a chadarnhau hawliau'r Aelodau yn y cyd-destun hwn. Felly, mae'r cynnig yn awgrymu y dylem newid y Rheolau Sefydlog maes o law i roi'r protocol ar waith. Os bydd y Cynulliad yn cytuno, byddaf yn cyflwyno cynigion manwl i'r Pwyllgor Busnes yn y ffordd arferol. Hyd nes ac oni bai y cytunir ar welliannau o'r fath, mae'r protocol o raid yn parhau yn ddrafft.

I am happy to give Mike the assurance that he seeks in his probing amendment 9. The Secretary of State for Wales will convey our proposals to all appropriate Ministerial colleagues. He will not simply ignore them. Indeed, before responding to us, collective responsibility alone requires him to do that. It is already set into the system. He will also, in every case, be obliged to put our proposals on the Queen's Speech and future legislation to the UK Cabinet Committee. That includes nearly every senior Minister. I hope that that satisfies Mike's concern, and I am happy to support his amendment in that spirit.

Yr wyf yn falch o roi i Mike y sicrwydd y mae'n ei geisio yn ei welliant 9 treiddgar. Bydd Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn cyfleu ein cynigion i'w holl gyd-Weinidogion priodol. Ni fydd yn eu hanwybyddu. Yn wir, cyn ymateb inni, mae cyfrifoldeb cyfunol yn unig yn golygu bod rhaid iddo wneud hynny. Mae eisoes yn rhan o'r system. Bydd hefyd, ym mhob achos, dan orfodaeth i gyflwyno ein cynigion ar Araith y Frenhines a deddfwriaeth i'r dyfodol i Bwyllgor Cabinet y DU. Mae hwnnw'n cynnwys bron pob uwch Weinidog. Gobeithiaf fod hyn yn tawelu gofidiau Mike, ac yr wyf yn falch o gefnogi ei welliant yn yr ysbryd hwn.

The protocol fully meets a need that many

Mae'r protocol yn bodloni angen y mae

Members have expressed for some time and, indeed, during the debate last December. If the Assembly agrees, I will put the protocol to the Secretary of State for Wales for his agreement and bring forward draft amendments to Standing Orders to give effect to it.

llawer o'r Aelodau wedi ei fynegi ers peth amser ac, yn wir, yn ystod y ddadl fis Rhagfyr diwethaf. Os bydd y Cynulliad yn cytuno, cyflwynaf y protocol i Ysgrifennydd Gwladol Cymru iddo gytuno arno a chyflwynaf welliannau drafft i'r Rheolau Sefydlog i roi grym iddo.

The nature of the Welsh devolution settlement means that primary legislation remains of the highest importance to Wales and to the Assembly. It is vital that we agree on a single response to the UK Government's proposals and that we are able to make our own suggestions about future Bills. The documents before us today discharge both of those requirements, and I urge the Assembly to approve them.

Mae natur setliad datganoli Cymru yn golygu bod deddfwriaeth sylfaenol yn dal o'r pwysigrwydd pennaf i Gymru ac i'r Cynulliad. Mae'n holl bwysig ein bod yn cytuno ar un ymateb i gynigion Llywodraeth y DU a'n bod yn gallu gwneud ein hawgrymiadau ein hunain ar gyfer Mesurau i'r dyfodol. Mae'r dogfennau ger ein bron heddiw yn cyflawni'r ddau ofyniad hwn, ac anogaf y Cynulliad i'w cymeradwyo.

Ieuan Wyn Jones: Cynigiaf welliant 1. Yn y cymal cyntaf, dileer '*cymeradwyo'r ymateb*' a rhoi yn ei le '*nodi*'.

Ieuan Wyn Jones: I propose amendment 1. In the first clause, delete '*approves*' and add '*notes*'.

Cynigiaf hefyd welliant 8. Yn yr ail gymal, ar ôl y geiriau '*a'i fod*' ychwaneger '*drwy'r Pwyllgorau Pwnc*'.

I also propose amendment 8. In the second clause, after the words '*commits itself*' insert '*through the Subject Committees*'.

Diolchaf am y cyfle i gymryd rhan yn y drafodaeth hon, oherwydd yr ydym am i'r Cynulliad nodi yn hytrach na chymeradwyo'r ymateb i raglen ddeddfwriaethol y Llywodraeth yn Llundain am y flwyddyn hon. Yr wyf wedi gwrando ar sylwadau Alun, ond rhaid imi wneud dau bwynt yn glir. Yn gyntaf, nid oeddem yn ymwybodol mai swyddogion oedd wedi paratoi'r ymateb. Yn ail, dim ond pan welsom yr ymateb ar y we y deallasom fod un wedi ei baratoi.

I am grateful for the opportunity to participate in this discussion, because we want the Assembly to note rather than approve the response to the legislative programme of the Government in London for this year. I have listened to Alun's comments, but I must clarify two points. First, we were not aware that it was officials who had prepared the response. Secondly, it was only when we saw the response on the web that we understood that one had been prepared.

Yr ydym wedi cyflwyno gwelliant 1 oherwydd y diffyg ymgynghori ar gynnwys yr ymateb. Os ydym o ddifrif ynglŷn â chynnwys pobl yn y trafodaethau, dylai'r ymgynghori fod wedi digwydd cyn i'r ymateb gael ei baratoi yn hytrach nag wedi hynny.

We have tabled amendment 1 because of the lack of consultation on the contents of the response. If we are serious about including people in the discussions, the consultation should have taken place before the response was prepared rather than afterwards.

Y Prif Ysgrifennydd: Ategaf mai yma, mewn dadl agored yn y Sesiwn Llawn, y dylai'r ddadl ddigwydd. Dyna lle y digwyddodd ym mis Rhagfyr.

The First Secretary: I reiterate that it is here, in an open debate in Plenary, that the debate should take place. That is where it took place in December.

Ieuan Wyn Jones: Fy mhwynt sylfaenol yw, os gofynnir inni gymeradwyo ymateb a baratowyd heb unrhyw ymgynghoriad, sut y

Ieuan Wyn Jones: My fundamental point is that, if we are asked to approve a response that was prepared without any consultation,

gallwn wneud hynny oni bai ein bod yn gallu gwneud newidiadau sylfaenol i'r drafft hwnnw? Y cyngor a gawsom oedd nad oedd hynny'n bosibl. Derbyniaf bwynt Alun y byddai'n well o lawer pe gallem anfon ein hymateb fel Cynulliad. Fodd bynnag, mae hynny'n golygu bod yn rhaid cael ymgynghori o'r ddwy ochr. Ein barn fel grŵp oedd nad oedd yr ymgynghori yn ddigonol yn yr achos hwn.

how can we do that unless we can make fundamental changes to that draft? The advice that we received was that that was not possible. I accept Alun's point that it would be much better if we could send our response as an Assembly. However, that means that there must be consultation from both sides. Our opinion as a group was that the consultation was not sufficient in this case.

Egluraf pam ei bod yn bwysig y dylem roi ein barn fel Cynulliad, pe byddai'r amgylchiadau wedi caniatáu hynny. Mae'n bwysig ein bod yn rhoi barn glir, ddiamwys a phendant ar holl ddeddfwriaeth y Deyrnas Unedig sydd yn effeithio ar Gymru. Mae deialog o'r math hwn yn hanfodol os yw'r Cynulliad a San Steffan am weithredu mewn partneriaeth. Mae'n rhaid inni weithredu mewn partneriaeth â San Steffan tra bo deddfwriaeth gynradd yn parhau i fod yn rhan o'r system yno. Os ydym hefyd am weld gwell perthynas rhwng gweddill gwledydd Prydain, mae'n rhaid iddo fod yn rhan o'r fframwaith hwn.

I will explain why it is important that we should give our opinion as an Assembly, had the circumstances allowed that. It is important that we give a clear, unambiguous and definite opinion on all the United Kingdom legislation that affects Wales. Dialogue of this kind is vital if the Assembly and Westminster are to operate in partnership. We must operate in partnership with Westminster while primary legislation remains part of the system there. If we also want to see a better relationship between the rest of the countries of Britain, it must be part of this framework.

Ond, oherwydd y diffyg ymgynghori yn yr achos hwn, ni theimlwn y gallwn gymeradwyo'r ymateb, dim ond ei nodi. Mae'n wir bod ymgais wedi bod i gynnwys barn Aelodau eraill o'r Cynulliad heblaw'r Blaid Lafur yn yr ymateb, ond nid yw'n ddigon. Yr oedd sylwadau Jocelyn Davies ar brawf gan reithgor yn iawn. Gwrandewais yn ofalus ar safbwynt Alun Michael a chofiaf ef a'r tîm, pan oeddent yn yr wrthblaid, yn defnyddio'r un dadleuon a ddefnyddiwn ni yn awr. Mae'n rhyfedd o fyd bod cymaint wedi newid mewn 18 mis.

However, because of the lack of consultation in this case, we do not feel that we can approve the response, only note it. It is true that there has been an attempt to include the opinions of other Assembly Members apart from the Labour Party in the response, but it is not enough. Jocelyn Davies's comments on trial by jury were correct. I listened carefully to Alun Michael's standpoint, and I remember him and the team, when they were in opposition using the same arguments that we use now. It is a funny old world that so much has changed in 18 months.

Yr oeddwn yn falch bod yr ymateb yn cynnwys datganiad bod y Cynulliad, fel corff, wedi ymrwymo i sicrhau deddfwriaeth gynradd sydd yn adlewyrchu anghenion pobl Cymru. Fodd bynnag, rhaid i'r Cynulliad wthio'r rhaglen ddeddfwriaethol hefyd. Ni ddylem ymateb i ddeddfwriaeth a gyflwynir yn San Steffan yn unig. Rhaid inni weld yr angen o bryd i'w gilydd i gyflwyno deddfwriaeth sydd er lles pobl Cymru. Rhaid inni gael yr hawl drwy sicrhau bod mwyafrif yn y Cynulliad o blaid unrhyw ddeddfwriaeth, a byddai Llywodraeth Llundain wedyn yn ymateb i hynny.

I was pleased that the response included a statement that the Assembly, as a body, is committed to securing primary legislation that reflects the needs of the people of Wales. However, the Assembly must also push forward the legislative programme. We must not respond to legislation that is presented in Westminster alone. We must see the need from time to time to present legislation that is for the benefit of the people of Wales. We must have the right by ensuring that a majority in the Assembly is in favour of any legislation, and the London Government would then respond to that.

Croesawn y ffaith y bydd y Mesur Safonau Gofal yn sefydlu cyngor gofal i Gymru ac yr ydym yn falch bod y Llywodraeth yn rhannu pryderon ynghylch tynnu ymaith hawliau budd-dâl pobl ifainc sydd yn torri cysylltiad â'r gwasanaethau gofal. Mae hynny i gyd yn bositif. Yr ydym hefyd yn falch bod galwad ar i'r Mesur Cefn Gwlad gael ei ddrafftio gan roi sylw i amgylchiadau neilltuol Cymru, ac i'r Cynulliad gael yr hyblygrwydd i weithredu yn ôl yr angen. Fel a glywsom eisoes, yr oeddem yn siomedig i weld yr ymateb i'r Mesur Cyfiawnder Troseddol (Dull y Treial) sydd yn cyfyngu ar yr hawl i reithgor. Mynnwn ni—fel Cynulliad yr wyf yn gobeithio—ei gwneud yn glir y prynhawn yma nad yw'r Llywodraeth Lafur yn siarad ar ran y Cynulliad wrth gefnogi cynlluniau'r Ysgrifennydd Cartref.

We welcome the fact that the Care Standards Bill will establish a care council for Wales and we are pleased that the Government shares the concerns about taking away the benefit rights of young people who break contact with the care services. That is all positive. We are also pleased that there is a call for the Countryside Bill to be drafted with attention paid to the special circumstances of Wales, and for the Assembly to be given the flexibility to act as required. As we have already heard, we were disappointed to see the response to the Criminal Justice (Mode of Trial) Bill, which limits the right to a jury. We—as an Assembly I hope—will insist that we make it clear this afternoon that the Labour Government does not speak on behalf of the Assembly in supporting the Home Secretary's plans.

I am dismayed—

Yr wyf yn gresynu—

The First Secretary: As you are bursting into English, I will respond in English. You suggested that there is a response from the administration. You seem keen to make this distinction. We are debating a response from the Assembly and I made it clear that, in speaking about the right to jury trial, I was expressing a personal view. I did that because it is not a matter on which it is appropriate to divide the Assembly or seek a resolution, and I know that there are different views on it. I feel strongly about it and you may recall that I said things strongly in opposition as well as in Government. You are creating unnecessary division by suggesting that something that is meant to be an Assembly response is an administration response. If we wanted to do that we could have, but we have not.

Y Prif Ysgrifennydd: Gan eich bod yn newid i'r Saesneg, atebaf innau yn Saesneg. Awgrymasoch fod ymateb gan y weinyddiaeth. Yr ydych yn ymddangos yn awyddus i wahaniaethu fel hyn. Yr ydym yn trafod ymateb gan y Cynulliad ac fe'i gwneuthum yn glir, wrth siarad am yr hawl i dreial gerbron rheithgor, fy mod yn mynegi barn bersonol. Gwneuthum hynny oherwydd nid yw'n fater priodol i rannu'r Cynulliad arno na cheisio penderfyniad, a gwn fod yna safbwyntiau gwahanol arno. Teimlaf yn gryf amdano a chwi gofiwch efallai imi siarad yn gryf o'r wrthblaid yn ogystal ag yn y Llywodraeth. Yr ydych yn creu rhaniad dianghenraid drwy awgrymu mai ymateb y weinyddiaeth yw'r hyn a fwriadwyd fel ymateb y Cynulliad. Pe baem am wneud hynny byddem wedi medru, ond nid ydym wedi.

Ieuan Wyn Jones: It is only today that you tell us that that is what you have done. That is part of the problem. Had you consulted the parties before that draft response was set down on the intranet, we might have had a different response to this debate. You took us all for granted, Alun. You expected us to respond to this in a way that suited that particular response. No opportunity was given to any of the opposition parties to

Ieuan Wyn Jones: Dim ond heddiw yr ydych wedi dweud wrthym yr hyn yr ydych wedi ei wneud. Dyna ran o'r broblem. Pe baech wedi ymgynghori â'r pleidiau cyn i'r ymateb drafft gael ei roi ar y fewnrwyd, efallai y byddai ein hymateb i'r ddadl hon wedi bod yn wahanol. Cymerasoch bawb ohonom yn ganiataol, Alun. Yr oeddech yn disgwyl i bawb ohonom ymateb mewn ffordd a weddai i'r ymateb neilltuol yna. Ni

debate the content of that response.

roddwyd cyfle i unrhyw un o'r gwrthbleidiau drafod cynnwys yr ymateb hwnnw.

The First Secretary: I will not intervene again after this, but I ask you to respect the integrity of what we have done on this occasion. We did not seek to bring forward our response and then challenge other parties to amend it. We sought to bring forward a response that reflected the debate in the Assembly and, to that extent, left it to be drawn up on the basis of that debate. We have been honest and have shown integrity in what we are doing. At least show respect to that even though it is clear that you will continue to disagree with what has come forward.

Y Prif Ysgrifennydd: Ni wnaf ymyrryd eto ar ôl hyn, ond gofynnaf ichi barchu gonestrwydd yr hyn a wnaethom ar yr achlysur hwn. Nid ceisio dod â'n hymateb ni gerbron a wnaethom ac yna herio'r pleidiau eraill i'w newid. Ceisiasom gyflwyno ymateb a oedd yn adlewyrchu'r ddadl yn y Cynulliad ac, i'r graddau hynny, fe'i gadawyd i gael ei llunio ar sail y ddadl honno. Buom yn onest a diffuant yn yr hyn yr ydym yn ei wneud. Parchwch hynny o leiaf er ei bod yn amlwg y byddwch yn parhau i anghytuno â'r hyn sydd wedi ei gyflwyno.

Ieuan Wyn Jones: We have both made our positions clear, so it is not worth continuing with the discussion in this way. However, on the issue of trial by jury, the response—whoever drew it up—did not reflect the balance of the debate in this Chamber. That is a fact. I am dismayed that Alun and others in the administration actively support the Home Secretary's plans to limit trial by jury. Elfyn Llwyd, the MP for Meirionydd Nant Conwy, speaking in the House of Commons, noted that even Jack Straw, when in opposition, declared that he was opposed to further restriction to the right to trial by jury. We believe that these plans constitute a further erosion of a fundamental principle, a right that has existed for centuries: trial by one's peers, free of outside influence. We have yet to hear a convincing argument as to why that should now be changed.

Ieuan Wyn Jones: Mae'r ddau ohonom wedi gwneud ein safbwyntiau yn glir, felly nid yw'n werth parhau â'r drafodaeth yn y ffordd hon. Fodd bynnag, ar fater treial gan reithgor, nid oedd yr ymateb—pwy bynnag a'i lluniodd—yn adlewyrchu cydbwysedd y ddadl yn y Siambr hon. Mae hynny'n ffaith. Yr wyf yn gresynu bod Alun ac eraill yn y weinyddiaeth yn cefnogi'n frwd gynlluniau'r Ysgrifennydd Cartref i gyfyngu treial gan reithgor. Nododd Elfyn Llwyd, yr AS dros Feirionnydd Nant Conwy, wrth siarad yn Nhŷ'r Cyffredin, i hyd yn oed Jack Straw ddatgan, pan oedd yn yr wrthblaid, ei fod yn gwrthwynebu cyfyngu ymhellach ar yr hawl i dreial gan reithgor. Credwn fod y cynlluniau hyn yn tanseilio egwyddor sylfaenol ymhellach, hawl sydd wedi bodoli am flynyddoedd: treial gan eich cyd-ddyn, heb ddylanwadau allanol. Nid ydym eto wedi clywed dadl i'n hargyhoeddi pam y dylai hynny gael ei newid yn awr.

3:29 p.m.

Cynog Dafis: Cefnogaf sylwadau Ieuan Wyn Jones. Nodaf fod un o'r meddyliau cyfreithiol mwyaf galluog yn y Blaid Lafur, Helena Kennedy, wedi pleidleiso yn erbyn yr argymhelliad yn Nhŷ'r Arglwyddi, ac wedi dadlau yn eithriadol o effeithiol fod yr argymhelliad yn amhriodol a bod system yr Alban, y mae'r Prif Weinidog a'r Ysgrifennydd Cartref yn dweud eu bod am ei hefelychu, yn hollol wahanol beth bynnag.

Cynog Dafis: I support Ieuan Wyn Jones's comments. I note that one of the Labour Party's most able legal minds, Helena Kennedy, voted against the recommendation in the House of Lords and argued exceptionally effectively that the recommendation is inappropriate and that the system in Scotland, which the Prime Minister and the Home Secretary say that they wish to emulate, is completely different in any case.

Ieuan Wyn Jones: Ategaf hynny. Mae

Ieuan Wyn Jones: I endorse that. There is

anniddigrwydd dwfn ymhlith nifer fawr o Aelodau Seneddol Llafur ac Aelodau Tŷ'r Arglwyddi. Cawn weld heddiw beth fydd ymateb meincwyr cefn y Blaid Lafur yma yn y Cynulliad pan ddeuwn i bleidleisio ar y gwelliant.

deep disquiet among a great many Labour MPs and Members of the House of Lords. We will see today what the response of the Labour backbenchers here in the Assembly will be when we come to vote on the amendment.

I will make one more point about the legislative programme and the need for a more robust reponse. The declaration states its opposition to moves to reduce the number of post offices, particularly in rural areas, and the level of postal services. That should be stated far more forcefully.

Hoffwn wneud un pwynt arall am y rhaglen ddeddfu a'r angen am ymateb cadarnach. Mae'r datganiad yn nodi ei wrthwynebiad i gamau i leihau nifer y swyddfeydd post, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, a lefel y gwasanaethau post. Dylid datgan hynny yn llawer mwy grymus.

Brian Hancock: Do you agree that the response to the Postal Services Bill does not fully reflect the depth of feeling and support for our local postal offices? I have experienced that depth of feeling in the save the post offices campaign. The UK Government talks of partnership. One of the longest run partnerships is that between local post offices and their communities. This Bill takes away the choice of recipients to receive their benefits, allowances or pensions in cash, weekly, at their local post office, be that in a rural, semi-urban or urban community.

Brian Hancock: Ydych chi'n cytuno nad yw'r ymateb i'r Mesur Gwasanaethau Post yn llwyr adlewyrchu'r dyfnder teimlad a'r gefnogaeth i'n swyddfeydd post lleol? Cefais brofiad o'r dyfnder teimlad hwnnw yn yr ymgyrch i achub swyddfeydd post. Mae Llywodraeth y DU yn sôn am bartneriaeth. Un o'r partneriaethau hwyaf ei hoedl yw honno rhwng swyddfeydd post lleol a'u cymunedau. Mae'r Mesur yn amddifadu'r rhai sydd yn cael budd-daliadau, lwfansau neu bensiynau o'r dewis i'w derbyn mewn arian parod, yn wythnosol, yn eu swyddfa bost leol, boed hynny mewn cymuned wledig, lled-drefol neu drefol.

Ieuan Wyn Jones: I congratulate Brian on that intervention and the part he has played in the campaign. It is important that better safeguards are added to the Bill as it goes through Parliament. We ask the Assembly to support this to ensure that postal services are maintained.

Ieuan Wyn Jones: Llongyfarchaf Brian ar y pwynt yna a'r rhan y mae ef wedi ei chwarae yn yr ymgyrch. Mae'n bwysig bod gwell mesurau diogelu yn cael eu hychwanegu at y Mesur wrth iddo fynd drwy'r Senedd. Gofynnwn i'r Cynulliad gefnogi hyn i sicrhau bod gwasanaethau post yn cael eu cadw.

Similarly, the response to the Transport Bill could have been stronger. I would have liked the Assembly to argue the case for its having responsibility for railways in Wales. That would be in line with the goal of an all-Wales railway franchise. We are all pleased today by the announcement that companies are considering ways of developing a single rail network for Wales.

Yn yr un modd, gallai'r ymateb i'r Mesur Trafnidiaeth fod wedi bod yn gryfach. Byddwn i wedi hoffi i'r Cynulliad ddadlau'r achos dros iddo fod yn gyfrifol am reilffyrdd yng Nghymru. Byddai hynny yn unol â'r nod o ryddfraint rheilffyrdd Cymru-gyfan. Yr ydym yn falch o glywed y cyhoeddiad heddiw fod cwmnïau'n ystyried ffyrdd o ddatblygu un rhwydwaith rheilffyrdd i Gymru.

Sue Essex: Will you not accept that the proposed response is a fair reflection of the Committee's view? We had a long discussion on this. I understand Plaid's view, but we did reflect on it and, in fairness, the changes now

Sue Essex: Onid ydych chi'n derbyn bod yr ymateb a awgrymir yn adlewyrchiad teg o farn y Pwyllgor? Cawsom drafodaeth hir ar hyn. Yr wyf yn deall barn Plaid, ond gwnaethom ei phwyso a'i mesur ac, mewn

reflect the overall Committee view. This is about consensus and reflecting the Assembly's widespread view.

tegwch, mae'r newidiadau hyn yn adlewyrchu barn y Pwyllgor cyfan. Mater o gonsensws yw hwn ac o adlewyrchu barn gyffredinol y Cynulliad.

Ieuan Wyn Jones: In the spirit in which you made your intervention, I would be happy to talk to the Plaid Cymru representatives on the Committee and ask them to reflect on your representation. However, it is our view that the Assembly should have a strong voice on the Strategic Rail Authority so that we can bring about the necessary changes and improvements in our railways. It is an urgent matter. I make this plea from the heart, as someone who has to travel every week on the north-south rail link: let us have a full, direct service, at least three times a day, from north Wales to Cardiff. I can see heads nodding as I make that plea, particularly those of Members who represent constituencies in north Wales.

Ieuan Wyn Jones: Yn yr ysbryd y codoch chi eich pwynt, byddwn yn barod i siarad â chynrychiolwyr Plaid Cymru ar y Pwyllgor a gofyn iddynt bwyso a mesur yr hyn a ddywedoch. Fodd bynnag, yn ein barn ni dylai'r Cynulliad fod â llais cryf ar yr Awdurdod Rheilffyrdd Strategol fel y gallwn gyflawni'r newidiadau a'r gwelliannau angenrheidiol i'n rheilffyrdd. Mae'n fater o frys. Mae hon yn ble o'r galon, fel rhywun sydd yn gorfod teithio bob wythnos ar y cyswllt rheilffyrdd rhwng y de a'r gogledd: gadewch inni gael gwasanaeth uniongyrchol, llawn, o leiaf dair gwaith y dydd, o ogledd Cymru i Gaerdydd. Gwelaf bennau'n nodio wrth imi wneud y ble yna, yn enwedig bennau Aelodau sydd yn cynrychioli etholaethau yng ngogledd Cymru.

I would also have liked a more vigorous response to the plans to privatise the national air traffic control service. Stating that we have some concerns about them does not go far enough. We are strongly opposed to them. The resignation of Peter Kilfoyle, MP for Liverpool, this week and the strong statements made by John Hopkins, the leader of Blaenau Gwent Council, which are reported in today's *The Western Mail*, confirm my view that we can be far more robust in our response to the programme which is being pursued by the Labour Government in Westminster. We must make it clear that parts of the Labour agenda in Westminster fail Wales and other regions, particularly those in the north of England. Therefore, we want the Labour administration in the Assembly to take a far more robust line on many of these issues, in the interest of Wales. If we are serious about ensuring that the Assembly truly reflects the aspirations of the people of Wales, we must indicate that the Assembly is prepared to stand up for and act in their interest.

Byddwn hefyd wedi hoffi gweld ymateb cadarnach i'r cynlluniau i breifateiddio'r gwasanaeth cenedlaethol i reoli traffig awyr. Nid yw dweud bod gennym rai pryderon yn eu cylch yn mynd yn ddigon pell. Yr ydym yn eu gwrthwynebu'n chwyrn. Mae ymddiswyddiad Peter Kilfoyle, AS dros Lerpwl, yr wythnos hon a'r datganiadau cryf a wnaethpwyd gan John Hopkins, arweinydd Cyngor Blaenau Gwent, sydd i'w gweld yn *The Western Mail* heddiw, yn cadarnhau fy marn y gallwn fod yn llawer cryfach yn ein hymateb i'r rhaglen y mae'r Llywodraeth Lafur yn San Steffan yn mynd ar ei thrywydd. Rhaid inni ei gwneud yn glir bod rhannau o agenda Llafur yn San Steffan yn gadael Cymru a rhanbarthau eraill, yn enwedig y rheini yng ngogledd Lloegr, i lawr. Felly, yr ydym am i'r weinyddiaeth Lafur yn y Cynulliad gymryd safiad llawer cryfach ar lawer o'r materion hyn, er budd Cymru. Os ydym o ddifrif am sicrhau bod y Cynulliad yn adlewyrchu gwir ddyheadau pobl Cymru, rhaid inni ddangos bod y Cynulliad yn barod i sefyll a gweithredu dros eu buddiannau.

Nick Bourne: I propose amendment 2. In the first clause, delete '*approves the*' and replace with '*notes the Executive's*'.

Nick Bourne: Cynigiaf welliant 2. Yn y cymal cyntaf, dileu '*cymeradwyo'r ymateb*' a rhoi yn ei le '*nodi ymateb y Weithrediaeth'*.

I also propose amendment 3. In the first clause, after '*26 January*' insert '*but expresses concern that the response makes no mention of the forthcoming Finance Bill and the imperative of receiving full match funding for Objective 1 programmes in that Bill*,'.

Cynigiaf hefyd welliant 3. Yn y cymal cyntaf, ar ôl *'26 Ionawr'* rhoi *'ond yn mynegi pryder nad yw'r ymateb yn sôn am y Mesur Cyllid sydd ar y gweill a'r angen i dderbyn cyllid cyfatebol llawn ar gyfer rhaglenni Amcan 1 yn y Mesur hwnnw,'*

I also propose amendment 4. In the first clause, after '*26 January*' insert '*but regrets the inclusion of a "right to roam" in the Countryside Bill*,'.

Cynigiaf hefyd welliant 4. Yn y cymal cyntaf, ar ôl *'26 Ionawr'* rhoi *'ond yn gresynu bod "hawl i grwydro" wedi'i chynnwys yn y Mesur Cefn Gwlad'.*

I was astounded to find out that this response was drawn up by officials. I had not realised that until this debate started. I do not want to criticise officials; I am sure that they do an excellent job. However, they are not accountable to this Assembly and I find it staggering that the response should be brought forward in this way. It should be either the Executive's response or a response drawn up by a Committee or a body answerable to this Assembly. It should not be drawn up by officials. I find it staggering that Assembly Members were not notified of this previously. The administration may wish to reflect on that for the future because that is not the way to treat this Assembly.

Syfrdanwyd fi i ganfod mai swyddogion sydd wedi llunio'r ymateb hwn. Nid oeddwn wedi sylweddoli hynny tan i'r ddadl hon ddechrau. Nid wyf am feirniadu swyddogion; yr wyf yn siŵr eu bod yn gwneud gwaith rhagorol. Fodd bynnag, nid ydynt yn atebol i'r Cynulliad ac yr wyf wedi fy rhyfeddu fod yr ymateb wedi ei ddwyn ger bron yn y ffordd yma. Dylai un ai fod yn ymateb y Weithrediaeth neu'n ymateb wedi ei lunio gan Bwyllgor neu gorff sydd yn atebol i'r Cynulliad hwn. Ni ddylai gael ei lunio gan swyddogion. Mae'n fy rhyfeddu na chafodd Aelodau'r Cynulliad wybod hyn ynghynt. Efallai y bydd y weinyddiaeth am bwyso a mesur hyn ar gyfer y dyfodol oherwydd nid dyna'r ffordd i drin y Cynulliad hwn.

I do not think that the attempt—if I can so dignify it—to try to reflect the opinion of this Assembly can be made. We may have individual agreement on some Bills and on some clauses of some Bills but it will not be a surprise that we are diametrically opposed on many of the issues at Westminster. The Welsh Conservative Group and I feel strongly about the abolition of jury trial. It seems that so do the other opposition parties. We have heard the First Secretary's personal view which, coincidentally—it must be a coincidence, of course—seems to be shared almost word for word by the official. It is quite astounding. It may also reflect the Labour Party's views. I do not know. However, the Labour Party is a minority in this Assembly. If the other opposition parties feel as strongly as they appear to about this, the view expressed in this document is not that of the Assembly but that of the Assembly First Secretary. That is pure coincidence, of course.

Ni chredaf fod yr ymgais—os caf roi iddi'r fath urddas—i geisio adlewyrchu barn y Cynulliad hwn yn bosibl. Gallwn gael cytundeb unigol ar rai Mesurau ac ar rai cymalau o rai Mesurau ond ni fydd yn syndod ein bod yn gwbl groes i'n gilydd ar lawer o'r pynciau yn San Steffan. Mae Grŵp Ceidwadwyr Cymru a minnau yn teimlo'n gryf ynglŷn â dileu treial gan reithgor. Mae'n ymddangos bod y gwrthbleidiau eraill yn cytuno. Yr ydym wedi clywed barn bersonol y Prif Ysgrifennydd sydd, drwy gyd-ddigwyddiad—mae'n rhaid mai cyd-ddigwyddiad ydyw, wrth gwrs—yn cael ei rhannu air am air bron gan y swyddog. Mae'n rhyfeddol. Efallai hefyd ei bod yn adlewyrchu barn y Blaid Lafur. Dwn i ddim. Fodd bynnag, mae'r Blaid Lafur yn lleiafrif yn y Cynulliad hwn. Os yw'r gwrthbleidiau eraill yn teimlo cyn gryfed ag y mae'n ymddangos am hyn, nid barn y Cynulliad mo'r farn a fynegir yn y ddogfen hon ond barn Prif Ysgrifennydd y Cynulliad. Cyd-ddigwyddiad pur yw hynny, wrth gwrs.

To turn to amendment 3, I am afraid that I will not take lessons from the First Secretary on the importance or otherwise of Objective 1 funding. This is the most crucial issue facing this Assembly. With all respect to the First Secretary and the leader of the Liberal Democrats, no amount of bridging committees or grand committees or other variations to the structure will change that. We make no apology for bringing this forward. There was an opportunity to make a pledge to full match funding in the Queen's Speech in the Finance Bill, which was not taken. I hope that that will be reflected in the vote on that amendment because it is a crucial issue. I am sure that we will return to it next week, which illustrates how crucial it is. The single programming document and its implementation have been bungled and, most importantly, we have no guarantee of full match funding. That is what we need. We make no apology for returning to that issue on behalf of the people of Wales as often as it takes to get the full match funding. I say that to the Labour administration here.

Trof at welliant 3. Mae gennyf ofn na wnaf i gymryd gwersi gan y Prif Ysgrifennydd ar bwysigrwydd neu beidio cyllid Amcan 1. Dyma'r mater pwysicaf sydd yn wynebu'r Cynulliad hwn. Gyda phob parch i'r Prif Ysgrifennydd ac arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol, ni fydd faint fynner o bwyllgorau pontio neu bwyllgorau mawr nac amrywiadau i'r strwythur yn newid hynny. Nid ymddiheurwn am ddod â hyn ymlaen. Yr oedd cyfle i addo cyllid cyfatebol llawn yn Araith y Frenhines yn y Mesur Cyllid, ond ni fanteisiwyd ar hynny. Gobeithiaf y caiff hynny ei adlewyrchu yn y bleidlais ar y gwelliant hwn oherwydd y mae'n fater holl bwysig. Yr wyf yn siŵr y byddwn yn dychwelyd ato yr wythnos nesaf, sydd yn dangos mor hanfodol yw. Gwnaethpwyd cawl o'r ddogfen raglennu sengl a'i gweithrediad ac, yn bwysicaf oll, nid oes gennym unrhyw warant o gyllid cyfatebol llawn. Dyna'r hyn sydd ei angen arnom. Nid ymddiheurwn am ddod yn ôl at y mater hwn ar ran pobl Cymru cyn amled ag sydd raid er mwyn cael y cyllid cyfatebol llawn. Dywedaf hynny wrth y weinyddiaeth Lafur yma.

The other issue that we have highlighted as being of particular importance in rural Wales is the right to roam legislation. Apparently, this is no longer to be called the right to roam Bill because that gives the game away. All the organisations concerned—the National Farmers Union, the Farming Union of Wales and the Country Landowners Association—have said that voluntary agreements work far better than statutory imposition. Through much of Wales there is every right to access land, in any event. The extra cost—which I mentioned earlier—is deeply concerning in rural Wales. Additional cost will be placed on farmers, who currently work for less than the national minimum wage. I am afraid it is the case—

Y mater arall a amlygwyd gennym fel mater o bwys neilltuol i Gymru wledig yw'r ddeddfwriaeth hawl i grwydro. Yn ôl pob tebyg, nid yw mwyach yn cael ei alw yn Fesur hawl i grwydro gan fod hynny'n gollwng y gath o'r cwd. Mae'r cyrff y mae a wnelont â hyn—Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr, Undeb Amaethwyr Cymru a Chymdeithas y Tirfeddianwyr—i gyd wedi dweud bod cytundebau gwirfoddol yn gweithio'n llawer gwell na gorfodaeth statudol. Drwy lawer o Gymru ceir pob hawl i fynd at dir, beth bynnag. Mae'r gost ychwanegol—y cyfeiriais ati ynghynt—yn peri pryder mawr yng nghefn gwlad Cymru. Rhoddir cost ychwanegol ar ffermwyr, sydd ar hyn o bryd yn gweithio am lai na'r isafswm cyflog cenedlaethol. Mae gennyf ofn mai'r gwir yw—

3:39 p.m.

Peter Rogers: There is a problem with the right to roam on open countryside in that how do you get to that open countryside, if it is across private land? That is one problem and many people do not understand that.

Peter Rogers: Mae yna broblem gyda'r hawl i grwydro ar gefn gwlad agored o ran sut mae cyrraedd y cefn gwlad agored hwnnw, os yw ar draws tir preifat? Dyna un broblem ac mae llawer o bobl heb fod yn deall hynny.

Nick Bourne: I am grateful to Peter Rogers for raising that point. It is indeed the case that this right to roam will involve access across people's land. It was suggested earlier that this will not be the case, but of course it will be. If we have to rename the right to roam legislation, perhaps 'licence to trespass' would be more appropriate and acceptable to Alun Pugh.

Nick Bourne: Yr wyf yn ddiolchgar i Peter Rogers am godi'r pwynt yna. Y mae yn sicr yn wir y bydd yr hawl hon i grwydro yn golygu mynediad dros dir pobl. Awgrymwyd yn gynharach nad dyna fydd y sefyllfa, ond yn sicr dyma a geir. Os oes rhaid inni ailenwi'r ddeddfwriaeth hawl i grwydro, efallai y bydd 'trwydded i dresbasu' yn fwy priodol a derbyniol i Alun Pugh.

We should not be surprised by the mess that the Queen's Speech represents on rural issues. It is a mess that has been exemplified from day one in this Assembly. First of all, the team—if I can so dignify them—messed up on the beef on the bone issue. They then messed up on the Welsh cull scheme and GM foods. This is the background against which the administration operates. It might explain why there have been more sightings of Lord Lucan in Ceredigion in the last three weeks than there have been of the First Secretary. Although it is of course a part of his constituency, we can well understand his hesitation in going there.

Ni ddylem synnu bod Araith y Frenhines yn cynrychioli'r fath gawl ar faterion gwledig. Mae'n gawl a nodweddwyd o'r diwrnod cyntaf yn y Cynulliad hwn. Yn gyntaf oll, gwnaeth y tîm—os gallaf roi'r fath urddas iddynt—gawl o fater cig eidion ar yr asgwrn. Yna gwnaethant gawl o'r cynllun difa mamogiaid i Gymru a bwydydd a addaswyd yn enynnol. Yn erbyn y cefndir yna y mae'r weinyddiaeth hon yn gweithredu. Efallai fod hynny'n egluro pam fod mwy o bobl wedi gweld yr Arglwydd Lucan yng Ngheredigion dros y tair wythnos ddiwethaf na'r Prif Ysgrifennydd. Er ei bod wrth gwrs yn rhan o'i etholaeth, gallwn ddeall yn iawn ei amharodrwydd i fynd yno.

Our main point is that we object to much of this response. Above all I object to this being presented as something that has been prepared by civil servants on our behalf, when civil servants are answerable to the administration. I also object to the fact—and this happens time and time again—that things are sent out in the name of the Assembly when they have been prepared by the administration. It is sickening for every Assembly Member that this happens. I am sorry, this may represent a genuine attempt to reflect the Assembly's opinion, but if so it is a bungling, incompetent attempt, because it does not do so.

Ein pwynt pennaf yw ein bod yn gwrthwynebu llawer o'r ymateb hwn. Uwchlaw popeth gwrthwynebaf gyflwyno hwn fel rhywbeth a baratowyd gan weision sifil ar ein rhan ni, pan fo gweision sifil yn atebol i'r weinyddiaeth. Gwrthwynebaf hefyd y ffaith—ac mae hyn yn digwydd dro ar ôl tro—fod pethau'n cael eu hanfon allan yn enw'r Cynulliad pan fyddant wedi eu paratoi gan y weinyddiaeth. Mae'n ofnadwy i bob Aelod o'r Cynulliad fod hyn yn digwydd. Mae'n ddrwg gennyf, efallai fod hyn yn cynrychioli ymgais wirioneddol i adlewyrchu barn y Cynulliad, ond os felly mae'n ymgais ddi-glem ac anfedrus, oherwydd nid yw'n gwneud hynny.

Michael German: I propose amendment 5. Insert after '*Secretary of State for Wales*', in the first clause

Michael German: Cynigiaf welliant 5. Rhoi ar ôl '*Ysgrifennydd Gwladol Cymru*', yn y cymal cyntaf

subject to revisions to reflect the view of this Assembly that:

yn amodol ar ddiwygiadau i adlewyrchu barn y Cynulliad hwn:

the Assembly should be given the flexibility to approve models of local government in Wales which closely reflect its own structure;

y dylid rhoi hyblygrwydd i'r Cynulliad gymeradwyo modelau o lywodraeth leol yng Nghymru sydd yn adlewyrchu'n agos ei strwythur ei hun;

the Assembly should be given the same powers as the Scottish Parliament to direct the Strategic Rail Authority in relation to a single rail franchise for Wales; and

y dylid rhoi'r un pwerau i'r Cynulliad ag a roddwyd i Senedd yr Alban i gyfarwyddo'r Awdurdod Rheilffyrdd Strategol mewn perthynas ag un ffranseis rheilffyrdd i Gymru; ac

any moves in the Postal Services Bill that would reduce the number of post offices in all parts of Wales, whether rural or urban, should be opposed.

y dylid gwrthwynebu unrhyw symudiadau yn y Mesur Gwasanaethau Post a fyddai'n golygu bod llai o swyddfeydd post ym mhob rhan o Gymru, boed wledig neu drefol.

I also propose amendment 6. Insert after '*Secretary of State for Wales*' in the first clause

Cynigiaf hefyd welliant 6. Rhoi ar ôl '*Ysgrifennydd Gwladol Cymru*' yn y cymal cyntaf

subject to revisions to reflect the view of this Assembly that:

yn amodol ar ddiwygiadau i adlewyrchu barn y Cynulliad hwn;

the abolition of defendants' right to opt for jury trial proposed in the Criminal Justice (Mode of Trial) Bill amounts to a serious erosion of civil liberties.

bod diddymu hawl diffynyddion i ddewis treial gan reithgor a gynigir yn y Mesur Cyfiawnder Troseddol (Dull y Treial) yn effeithio'n ddifrifol ar hawliau sifil.

I also propose amendment 7. Insert after '*Secretary of State for Wales*' in the first clause

Cynigiaf hefyd welliant 7. Rhoi ar ôl '*Ysgrifennydd Gwladol Cymru*' yn y cymal cyntaf

subject to revisions to reflect the view of this Assembly that:

yn amodol ar ddiwygiadau i adlewyrchu barn y Cynulliad hwn:

mandatory drug testing should only be employed when an individual is charged with a drugs-related offence;

na ddylid defnyddio profion cyffuriau gorfodol oni chyhuddwyd rhywun o drosedd yn ymwneud â chyffuriau;

the scope of the proposed Freedom of Information Bill should be widened to a level similar to that being proposed in the Scottish Parliament; and

y dylid ehangu cwmpas y Mesur Rhyddid Gwybodaeth arfaethedig i lefel debyg i'r hyn a gynigir yn Senedd yr Alban; a

the introduction of proportional representation for local government elections would be a better way to increase accountability in local authorities in Wales.

y byddai cyflwyno cynrychiolaeth gyfrannol mewn etholiadau llywodraeth leol yn ffordd well o gynyddu atebolrwydd mewn awdurdodau lleol yng Nghymru.

I also propose amendment 9. Add at the end

Cynigiaf hefyd welliant 9. Ychwanegu at y diwedd

this Assembly, however, requires further clarification of the draft protocol on the Assembly's primary legislative proposals to confirm that:

mae angen eglurhad pellach, fodd bynnag, ar y Cynulliad hwn ar y protocol drafft ar bwerau deddfwriaeth sylfaenol y Cynulliad i gadarnhau:

the use of the words 'as appropriate' in both points 7 and 15 would not allow the

na fyddai defnyddio'r geiriau 'fel y bo'n briodol' ym mhwyntiau 7 a 15 yn caniatáu

Secretary of State the discretion to choose whether or not to convey Assembly proposals to Ministerial colleagues;

disgresiwn i'r Ysgrifennydd Gwladol ddewis a fydd cynigion y Cynulliad yn cael eu cyfleu i'w gyd-Weinidogion ai peidio;

the use of the words 'where appropriate' in point 12 would not allow the relevant Assembly Secretary the discretion to choose whether or not to consult the relevant Subject Committee;

na fyddai defnyddio'n geiriau 'ble'n briodol' ym mhwynt 12 yn caniatáu disgresiwn i Ysgrifennydd perthnasol y Cynulliad ddewis a ddylid ymgynghori â'r pwyllgor pwnc perthnasol ai peidio;

and if necessary, revise the protocol accordingly.

a diwygio'r protocol yn unol â hynny yn ôl yr angen.

I am in some difficulty following the First Secretary's comments. We had assumed that this was a Government paper and that it was more in line with what this Assembly wanted than had previously been the case. Now we understand that it is not the Government's paper; it has been put together for the debate. Clearly it does not reflect the views expressed in the previous debate. We decided that it can be amended and the amendments that we propose are indeed amendments of substance. I hope, therefore, that those of you who have expressed a view about jury trial can vote for this and it will become part of a substantive motion.

Yr wyf yn cael anhawster i ddilyn sylwadau'r Prif Ysgrifennydd. Yr oeddem wedi rhagdybio mai papur gan y Llywodraeth oedd hwn a'i bod yn fwy unol â'r hyn y mae'r Cynulliad hwn yn ei ddymuno nag oedd yn wir cynt. Yn awr cawn ar ddeall nad papur gan y Llywodraeth mohono, ac iddo gael ei lunio ar gyfer y ddadl. Mae'n amlwg nad yw'n adlewyrchu'r safbwyntiau a fynegwyd yn y ddadl flaenorol. Penderfynasom ni y gellir ei newid ac mae'r gwelliannau a gynigiwn ni yn welliannau a sylwedd iddynt. Gobeithiaf, felly y bydd y rheini ohonoch sydd wedi mynegi barn ynglŷn â threial gan reithgor yn gallu pleidleisio dros hyn ac y daw'n rhan o'r cynnig gwreiddiol.

I welcome the fact that we can have this debate. Given the order in which amendments have been selected, it means that we must note them first. Obviously, if proportional representation for local government was approved, the Liberal Democrats would want to support the motion wholeheartedly at the end, but the present order of things makes it difficult for that to be achieved.

Croesawaf y ffaith ein bod yn gallu cael y ddadl hon. O gofio'r drefn y dewiswyd y gwelliannau ynddi, mae'n golygu bod yn rhaid inni eu nodi yn gyntaf. Pe câi cynrychiolaeth gyfrannol ar gyfer llywodraeth leol ei chymeradwyo, byddai'r Democratiaid Rhyddfrydol am gefnogi'r cynnig yn galonnog ar y diwedd, ond mae'r drefn fel y mae yn ei gwneud hi'n anodd cyflawni hynny.

It is far harder to endorse the programme as put forward in the Government's outline programme in the Queen's Speech. There is a profoundly illiberal thread running through many parts of the New Labour agenda. For example, closing up local government into ever tighter, unaccountable, undemocratic cabals, enforcing their world, in their traditional Cardiff style, against the best interests of the people they serve. Also, eroding trial by jury, enforcing mandatory drug testing and restricting freedom of information. New Labour in Westminster proposes closed government and illiberal

Mae'n llawer anos cymeradwyo'r rhaglen a gyflwynwyd yn rhaglen fras y Llywodraeth yn Araith y Frenhines. Mae llinyn tra anrhyddfrydol yn rhedeg drwy rannau lawer o agenda Llafur Newydd. Er enghraifft, gwthio llywodraeth leol i gliciau annemocrataidd, mwy clos fyth, nad ydynt yn atebol, gan orfodi eu byd hwy, yn eu harddull draddodiadol yng Nghaerdydd, yn erbyn buddiannau'r bobl y maent yn eu gwasanaethu. Hefyd, erydu treial gan reithgor, gorfodi profion cyffuriau gorfodol a chyfyngu ar ryddid gwybodaeth. Mae Llafur Newydd yn San Steffan yn awgrymu

government. These are aspects of Labour's legislative aspirations that we do not share and cannot support. Furthermore, we feel that this Assembly has an obligation to reflect these views in the message it sends to London.

llywodraeth gaeedig a llywodraeth anrhyddfrydol. Mae'r rhain yn agweddau o ddyheadau deddfwriaethol Llafur nad ydym yn eu rhannu ac na allwn eu cefnogi. Yn ogystal, teimlwn fod y Cynulliad hwn dan ddyletswydd i adlewyrchu'r safbwyntiau hyn yn y neges y mae'n ei anfon i Lundain.

I will begin with amendment 5. On the models for local government, I am afraid that the response, as it is, would not permit the Assembly to include in it a model that reflected the model of government that we have in the Assembly because clause 15 (2) of the Local Government Bill states that there must be a clear separation of the executive function from the scrutiny function. That means that Committees cannot be involved in policy formation. I said that in the debate on the Government's forward legislative programme on 30 November 1999, and hope that the Secretary of State for Wales noted it. Although we welcome the Assembly's recognition of the need for flexibility to approve different structures for local government, this clause would mean that the structure of the Assembly itself could not be reflected or adopted by local authorities in Wales. That is a matter on which chief executives of local authorities have expressed a strong opinion. We would like to see this amended to enable that flexibility.

Dechreuaf gyda gwelliant 5. Ar y modelau i lywodraeth leol, mae arnaf ofn na fyddai'r ymateb, fel y mae, yn caniatáu i'r Cynulliad gynnwys ynddo fodel sydd yn adlewyrchu'r model o lywodraeth sydd gennym yn y Cynulliad oherwydd dywed cymal 15 (2) y Mesur Llywodraeth Leol fod yn rhaid gwahanu'r swyddogaeth weithredol yn glir oddi wrth y swyddogaeth archwilio. Mae hynny'n golygu na all Pwyllgor fod â rhan mewn llunio polisi. Dywedais hynny yn y ddadl ar flaen-raglen ddeddfwriaethol y Llywodraeth ar 30 Tachwedd 1999, a gobeithiaf i Ysgrifennydd Gwladol Cymru ei nodi. Er ein bod yn croesawu'r ffaith bod y Cynulliad yn cydnabod yr angen am hyblygrwydd i gymeradwyo gwahanol strwythurau i lywodraeth leol, byddai'r cymal hwn yn golygu na allai awdurdodau lleol yng Nghymru adlewyrchu strwythur y Cynulliad ei hun na'i fabwysiadu. Mae hwn yn fater y mae prif weithredwyr awdurdodau lleol wedi mynegi barn gref arno. Hoffem weld hyn yn cael ei newid i ganiatáu'r hyblygrwydd hwnnw.

There is a growing fear in Wales that our structures of local government are becoming more secretive, more dominated by personality and are not open and transparent in their operations. That cannot be allowed to continue. The Assembly can provide a steer on making our processes of government work in a more open and transparent way, though I know that the Conservatives are opposed to that. However, that would allow local authorities to make a decision to discharge their functions in an open manner. The second issue in amendment 5 relates to the single rail franchise. It reflects the view of the Committee, and my colleagues will talk about that.

Mae ofn cynyddol yng Nghymru fod ein strwythurau llywodraeth leol yn mynd yn fwy celgar, eu bod fwy o dan ddylanwad personoliaethau ac nad ydynt yn agored a thryloyw yn eu gwaith. Ni ellir caniatáu i hynny barhau. Gall y Cynulliad roi arweiniad ar wneud i'n prosesau llywodraethu weithio mewn ffordd fwy agored a thryloyw, er y gwn fod y Ceidwadwyr yn gwrthwynebu hynny. Fodd bynnag, byddai hynny'n caniatáu i awdurdodau lleol benderfynu cyflawni eu swyddogaethau mewn modd agored. Mae'r ail fater yng ngwelliant 5 yn ymwneud â'r rhyddfraint rheilffyrdd sengl. Mae'n adlewyrchu barn y Pwyllgor, a bydd fy nghyd-Aelodau yn siarad am hynny.

Even though the Postal Services Bill does not make it compulsory for benefit claimants to receive their benefits directly into their bank accounts, it is clear that the Government

Er nad yw'r Mesur Gwasanaethau Post yn ei gwneud yn orfodol i'r rhai sydd yn hawlio budd-daliadau eu derbyn yn uniongyrchol i'w cyfrif banc, mae'n amlwg bod y Llywodraeth

wants more payments to be made in this way. That would clearly result in loss of revenue for all post offices and therefore lead to more closures. The Assembly has reflected uniformally that rural and urban post offices are the backbone of communities. The document before us today only recognises the threat to rural post offices. Our amendment asks the document to recognise that the threat of closure also affects urban post offices. Not having public or private transport and having to collect benefits from a local post office means that the urban sub-post office is an important feature in people's lives, particularly elderly people.

am i fwy o daliadau gael eu gwneud fel hyn. Byddai hynny yn amlwg yn golygu colli refeniw i bob swyddfa bost gan beri felly i fwy ohonynt gau. Mae'r Cynulliad drwyddo draw wedi dweud mai swyddfeydd post gwledig a threfol yw asgwrn cefn cymunedau. Nid yw'r ddogfen ger ein bron heddiw ond yn cydnabod y bygythiad i swyddfeydd post gwledig. Mae ein gwelliant yn gofyn i'r ddogfen gydnabod bod y bygythiad cau yn effeithio hefyd ar swyddfeydd post trefol. Mae bod heb gludiant cyhoeddus na phreifat a gorfod casglu budd-daliadau o swyddfa bost leol yn golygu bod yr is-swyddfa bost drefol yn nodwedd bwysig ym mywydau pobl, yn enwedig yr henoed.

Jenny Randerson: Are you aware of the letter from the Benefits Agency that suggests that the problem will not be as bad as people think because they are planning to encourage people to set up 'simple bank accounts' and to use post offices as agencies for the banks? Do you share my concern that many people who use post offices to collect benefits and pensions would find it difficult to set up a bank account, would find the current charge of approximately £35 to do so prohibitive and would also find it difficult to deal with the hard sell that comes with having a bank account?

Jenny Randerson: Ydych chi'n ymwybodol o'r llythyr oddi wrth yr Asiantaeth Budd-daliadau sydd yn awgrymu na fydd y broblem gynddrwg ag y mae pobl yn ei dybio gan eu bod yn bwriadu annog pobl i sefydlu 'cyfrifon banc syml' a defnyddio'r swyddfeydd post fel asiantau dros y banciau? Ydych chi'n rhannu fy mhryder i y byddai llawer o'r bobl sydd yn defnyddio swyddfeydd post i gasglu budd-daliadau a phensiynau yn ei chael hi'n anodd agor cyfrif banc, y byddai'r tâl ar hyn o bryd o tua £35 yn ormod iddynt ac y byddent hefyd yn ei chael hi'n anodd delio â'r gwerthu taer a ddaw yn sgîl cael cyfrif banc?

Michael German: I agree. The difficulty that many older people face in setting up a bank account, along with its charges, must be predominant in our minds. People who are used to seeing their post offices and sub-post offices as part of their communities should have that retained for the future. The sub-post office also reflects a range of other services in the community. Taking away a chunk of its work will damage the whole community.

Michael German: Yr wyf yn cytuno. Rhaid inni gadw'r anhawster y mae llawer o bobl hŷn yn ei wynebu i agor cyfrif banc, ynghyd â'r taliadau, yn flaenaf yn ein meddyliau. Dylai pobl sydd wedi arfer gweld eu swyddfeydd post a'u his-swyddfeydd post yn rhan o'u cymunedau gael cadw hynny i'r dyfodol. Mae'r is-swyddfa bost hefyd yn adlewyrchu ystod o wasanaethau eraill yn y gymuned. Bydd gwneud i ffwrdd ag elfen sylweddol o'i waith yn niweidio'r holl gymuned.

Amendment 6 relates to the Criminal Justice (Mode of Trial) Bill. I thought that the Assembly had expressed a strong view on this matter. At present, when a defendant does not indicate a guilty plea, magistrates consider whether it would be more appropriate for the case to be tried in the Crown Court or in the Magistrates Court. If

Mae gwelliant 6 yn cyfeirio at y Mesur Cyfiawnder Troseddol (Dull o Dreial). Tybiwn fod y Cynulliad wedi datgan barn gref ar y mater hwn. Ar hyn o bryd, pan nad yw diffynnydd am bledio'n euog, mae'r ynadon yn ystyried a fyddai'n fwy priodol i'r achos gael ei roi ar dreial yn Llys y Goron ynteu yn y Llys Ynadon. Os argymhellant fod

they recommend that a case be tried in the Magistrates Court, the defendant must give his consent. By not giving his consent a defendant may elect to be tried in the Crown Court. This Bill removes the defendant's ability to elect to be tried in the Crown Court and allows for the decision on how the case is tried to rest with the magistrates. There is no point in comparing this to anywhere else. The system that we have of trial by jury and choice of trial by jury, is a better one and we are used to it. That is reflected in a majority view in this Assembly and should be contained in the document.

achos i'w roi ar dreial yn y Llys Ynadon, rhaid i'r diffynnydd gydsynio. Drwy beidio â chydsynio gall diffynnydd ddewis sefyll ei brawf yn Llys y Goron. Mae'r Mesur hwn yn dileu gallu'r diffynnydd i ddewis sefyll ei brawf yn Llys y Goron ac yn caniatáu i'r ynadon benderfynu sut mae'r achos i'w roi ar brawf. Nid oes diben cymharu hyn ag unrhyw le arall. Mae'r system sydd gennym ni o dreial gan reithgor a chael dewis treial gan reithgor yn well system ac yr ydym wedi arfer â hi. Adlewyrchir hynny ym marn y mwyafrif yn y Cynulliad hwn a dylai gael ei gynnwys yn y ddogfen.

3:49 p.m.

I turn to amendment 7 and the first clause on mandatory drug testing. Mandatory drug testing is illiberal and gives the impression that an individual can be tested at will. Our view is that testing should only be mandatory for an individual charged with a drug related offence. This response gives a contrary view and that is why we seek to correct it.

Trof yn awr at welliant 7 a'r cymal cyntaf ar brofion cyffuriau gorfodol. Mae profion cyffuriau gorfodol yn anrhyddfrydol a rhydd yr argraff y gellir rhoi prawf i unigolyn fel a fynnir. Yn ein barn ni ni ddylai'r profion fod yn orfodol ond lle cyhuddir unigolyn o drosedd y mae cyffuriau yn ffactor ynddi. Mae'r ymateb hwn yn rhoi barn groes a dyna pam yr ydym am ei gywiro.

The Freedom of Information Bill is crucial. We believe that Labour in Westminster has backed off some of the much broader proposals it supported when it was in opposition. The campaign for freedom of information, a summary of this Bill, is as follows. It allows authorities to classify safety as top secret. It replaces the code's public interest test by a voluntary test, making it easier for authorities to conceal misconduct. It abandons the White Paper promise of access to internal discussion where public disclosure would not be harmful. Instead, it creates a blanket of exclusion for all information about the development of policy and even factual information. The difference between what is proposed for Scotland and what is being proposed for England and Wales is that the Scottish authorities would have to disclose information that their counterparts in England and Wales could keep secret. They would have to answer to an information commissioner who has much tougher powers. He or she has the power in Scotland to recommend disclosure and order it. That is where the proposals significantly differ. There are Members of Parliament in

Mae'r Mesur Rhyddid Gwybodaeth yn hanfodol bwysig. Credwn fod Llafur yn San Steffan wedi camu'n ôl oddi wrth rai o'r cynigion llawer ehangach a gefnogai pan oedd yn yr wrthblaid. Mae'r ymgyrch dros ryddid gwybodaeth, crynodeb o'r Mesur hwn, fel a ganlyn. Mae'n caniatáu i awdurdodau ddynodi diogelwch yn rhywbeth tra chyfrinachol. Mae'n disodli cod buddiant y cyhoedd gyda phrawf gwirfoddol, gan ei gwneud yn haws i awdurdodau guddio camymddwyn. Mae'n rhoi'r gorau i addewid y Papur Gwyn y ceid gweld trafodion mewnol lle na fyddai dadlennu cyhoeddus yn niweidiol. Yn hytrach, mae'n creu mantell eithrio ar gyfer unrhyw wybodaeth yn ymwneud â datblygu polisi a hyd yn oed wybodaeth ffeithiol. Y gwahaniaeth rhwng yr hyn a gynigir yn yr Alban a'r hyn a gynigir i Gymru a Lloegr yw y byddai'n rhaid i awdurdodau'r Alban ddadlennu gwybodaeth y gallai eu cymheiriaid yng Nghymru a Lloegr ei chadw'n gudd. Byddai'n rhaid iddynt ateb i gomisiynydd gwybodaeth sydd â phwerau llawer llymach. Yn yr Alban mae ganddo ef neu ganddi hi y grym i argymell dadlennu ac i'w orchymyn. Dyna yw'r gwahaniaeth sylweddol rhwng y cynigion.

Westminster who want to know why they are being asked to approve a conspicuously second-rate Bill when Ministers north of the border from the same parties have found it possible to go that much further.

Mae yna Aelodau Seneddol yn San Steffan sydd am wybod pam fod gofyn iddynt hwy gymeradwyo Mesur sydd yn amlwg yn un eilradd pan fo Gweinidogion i'r gogledd o'r ffin o'r un pleidiau wedi canfod ei bod yn bosibl mynd lawer ymhellach.

The remaining clause about proportional representation and local government elections is a stronger way of enforcing and ensuring accountability in local government. We have seen what a minority Labour administration in Cardiff City and County Council can do. We can see what it has done and how the city has turned against it. The system would not have happened if we had had fair voting. It would have been an entirely different structure.

Mae'r cymal sydd yn weddill am gynrychiolaeth gyfrannol ac etholiadau llywodraeth leol yn ffordd gryfach o orfodi a sicrhau atebolrwydd mewn llywodraeth leol. Yr ydym wedi gweld yr hyn y gall gweinyddiaeth Lafur leiafrifol ei wneud yng Nghyngor Sir a Dinas Caerdydd. Gwelwn yr hyn y mae wedi ei wneud a'r ffordd y mae'r ddinas wedi troi yn ei herbyn. Ni fyddai'r system wedi digwydd pe byddai gennym bleidleisio teg. Byddai wedi bod yn strwythur cwbl wahanol.

We wish amendment 9 on the draft protocol to be put on record for the avoidance of doubt. I am grateful to the First Secretary for accepting those points. We want to ensure that that discussion takes place in the Cabinet and in the Committees.

Yr ydym am i welliant 9 ar y protocol drafft gael ei gofnodi i osgoi unrhyw ansicrwydd. Yr wyf yn ddiolchgar i'r Prif Ysgrifennydd am dderbyn y pwyntiau hynny. Yr ydym am sicrhau bod y drafodaeth honno yn mynd rhagddi yn y Cabinet ac yn y Pwyllgorau.

In conclusion, the Liberal Democrats are committed to playing a constructive part in the continuing progress of the Government's programme of legislation, both here—in so far as the proposals impact on the Assembly—and in consultation with colleagues in Westminster. However, we ask that the Executive recognises the legitimate differences of opinion that do, can and will exist between Parliament and the Assembly. We ask also that legislative proposals affecting Wales and the statutory instruments and secondary regulations that accompany them, be made in the spirit of consultation. They should complement our work, not undermine it. This must be a two-way process and it is our hope today that our Westminster colleagues will recognise it as such.

I gloi, mae'r Democratiaid Rhyddfrydol wedi ymrwymo i chwarae rhan adeiladol yma—cyn belled ag y mae'r cynigion yn effeithio ar y Cynulliad—ac mewn ymgynghoriad â'n cyd-aelodau yn San Steffan, wrth i raglen ddeddfwriaethol y Llywodraeth barhau i fynd rhagddi. Fodd bynnag, gofynnwn i'r Weithrediaeth gydnabod y gwahaniaethau barn dilys sydd yn bodoli, a all fodoli ac a fydd yn bodoli rhwng y Senedd a'r Cynulliad. Gofynnwn hefyd am i'r cynigion deddfwriaethol sydd yn effeithio ar Gymru, a'r offerynnau statudol a'r rheoliadau eilaidd a ddaw yn eu sgîl, gael eu llunio mewn ysbryd o ymgynghori. Dylent ategu ein gwaith, nid ei danseilio. Rhaid i hon fod yn broses ddwy ffordd a'n gobaith ni heddiw yw y bydd ein cyd-aelodau yn San Steffan yn cydnabod hynny.

Ron Davies: I will respond briefly to Mike German's comments. First, on amendment 6, the Labour Group has a free vote. I will support his amendment and I hope that my colleagues will also support it and that the Assembly reflects that view. However, I support it with some reservations. This is my second point. I hope that this Assembly will

Ron Davies: Hoffwn ymateb yn fyr i sylwadau Mike German. Yn gyntaf, ar welliant 6, mae gan yGgrŵp Llafur bleidlais rydd. Byddaf yn cefnogi ei welliant a gobeithiaf y bydd fy nghyd-Aelodau hefyd yn ei gefnogi ac y bydd y Cynulliad yn adlewyrchu'r farn hon. Fodd bynnag, cefnogaf ef gyda rhai amheuon. Dyna fy ail

not be too preoccupied with debating matters for which we have neither responsibilities nor functions. Otherwise, it would be easy for us to turn in on ourselves and examine and second-guess every issue that appears before the Westminster Parliament. We must be careful about going down that road.

bwynt. Gobeithiaf na fydd y Cynulliad hwn yn ymgolli'n ormodol mewn trafod materion nad oes gennym na chyfrifoldebau drostynt na swyddogaethau. Fel arall, byddai'n hawdd inni droi am i mewn ac archwilio a rhagweld pob mater sydd yn ymddangos ger bron Senedd San Steffan. Rhaid inni ochel rhag mynd i lawr y llwybr hwnnw.

My third point is on amendment 7. I read it with interest, and I do not want to stereotype anyone, let alone my colleagues in the Liberal Democrat Party, but it seems odd to draft an amendment that refers to drug testing, freedom of information and proportional representation in local government. If there was any group of issues that was designed to define exclusively the Liberal Democrats, it is that group. Although, I sympathise with Mike German on one or two of those issues, I must say that the way the Liberal Democrats have presented that amendment is not designed to generate a warm feeling of comradeship on the part of myself and my colleagues in the Labour Party. Therefore, I wish him well with amendment 6, but I wish him ill with amendment 7. It is his fault for trying to canvass and include all the issues in that amendment. It is a composite amendment as my astute colleague, Andrew Davies, just commented.

Mae fy nhrydydd pwynt ar welliant 7. Darllenais ef â diddordeb, ac nid wyf am stereoteipio neb, heb sôn am fy nghyd-Aelodau ym Mhlaid y Democratiaid Rhyddfrydol, ond mae'n ymddangos yn rhyfedd drafftio gwelliant sydd yn cyfeirio at brofion cyffuriau, rhyddid gwybodaeth a chynrychiolaeth gyfrannol mewn llywodraeth leol. Pe bai unrhyw grŵp o faterion wedi ei gynllunio i ddiffinio'r Democratiaid Rhyddfrydol a neb arall, dyna'r grŵp. Er fy mod yn cydymdeimlo â Mike German ar un neu ddau o'r materion hyn, rhaid imi ddweud nad yw'r ffordd y cyflwynodd y Democratiaid Rhyddfrydol y gwelliant wedi ei lunio mewn modd i greu ymdeimlad cynnes o gyfeillgarwch ynof fi a'm cyd-Aelodau yn y Blaid Lafur. Felly, dymunaf yn dda iddo gyda gwelliant 6, ond dymunaf yn ddrwg iddo gyda gwelliant 7. Ei fai ef yw hynny am geisio canfasio a chynnwys yr holl faterion yn y gwelliant yna. Mae'n welliant cyfansawdd fel y mae fy nghyd-Aelod craff, Andrew Davies, newydd ddweud.

I will comment briefly on the draft protocol that is before us, as no-one has commented on that yet. As an Assembly we have the statutory right of consultation on the Government's legislative programme and we are exercising that now. There is also a provision to make representations to the Government on any matter that is relevant to Wales. I am sure we will want to exercise this regularly. I welcome the draft protocol. I have no reservations about it, because it puts into the public domain a great deal of information that is useful to them about the way in which Government sets about developing its legislative programme. It also clarifies the Assembly's procedures and, therefore, is a useful document. Codifying the draft protocol is easy. It struck me earlier, when I was thinking about what to say that it was like discussing inclusive politics. It is easy to talk about inclusive politics and is

Hoffwn gyfeirio'n fyr at y protocol drafft sydd ger ein bron, gan nad oes neb wedi gwneud hynny eto. Fel Cynulliad mae gennym hawl statudol i'r Llywodraeth ymgynghori â ni ynghylch ei rhaglen ddeddfu ac yr ydym yn arddel yr hawl honno. Mae darpariaeth hefyd inni gyflwyno sylwadau i'r Llywodraeth ar unrhyw fater arall sydd yn berthnasol i Gymru. Yr wyf yn siŵr y byddwn am arddel honno'n rheolaidd. Croesawaf y protocol drafft. Nid oes gennyf unrhyw amheuon yn ei gylch oherwydd mae'n lleoli yng ngŵydd y cyhoedd lawer iawn o wybodaeth sydd yn fuddiol iddynt am y ffordd y mae'r Llywodraeth yn mynd ati i ddatblygu ei rhaglen ddeddfwriaethol. Mae hefyd yn bwrw goleuni ar weithdrefnau'r Cynulliad ac mae, felly, yn ddogfen fuddiol. Mae cyfundrefnu'r protocol drafft yn hawdd. Fe'm trawyd yn gynharach, pan oeddwn yn meddwl beth i'w ddweud, ei bod fel trafod

relatively easy to introduce legislation that is based on the presumption that you will have inclusive politics. It is relatively easy to win a referendum and set up an Assembly—all based on the notion of inclusive politics. The difficult part is putting it into practice. That is like the protocol before us. It is relatively easy to construct a protocol that gives the Assembly its rights and recognises them. However, it is much more difficult to translate that into practical reality. That is our problem when we try to make this protocol work.

gwleidyddiaeth gynhwysol. Mae'n hawdd siarad am wleidyddiaeth gynhwysol ac mae'n weddol hawdd cyflwyno deddfwriaeth sydd wedi ei seilio ar y rhagdybiaeth y bydd gennych wleidyddiaeth gynhwysol. Mae'n gymharol hawdd ennill refferendwm a sefydlu Cynulliad—i gyd ar sail y syniad o wleidyddiaeth gynhwysol. Y peth anodd yw rhoi hynny ar waith. Mae yr un fath â'r protocol o'n blaenau. Mae'n gymharol hawdd llunio protocol sydd yn rhoi i'r Cynulliad ei hawliau ac yn eu cydnabod. Fodd bynnag, mae'n llawer mwy anodd eu trosi'n realiti ymarferol. Dyna ein problem wrth inni geisio gwneud i'r protocol hwn weithio.

Central Government's attitude will be crucial in determining whether this protocol works. As an Assembly, we can do something to influence central Government, but difficult scenarios will arise. I will mention three of the more obvious ones. First, when central Government has an overloaded programme of its own. The Assembly will then make a bid for legislation to be included via the Secretary of State for Wales. Central Government, understandably will explain that it will have its own requirements and an election manifesto to complete; matters of priority will have arisen; it will legislate and the Assembly's requests will have low priority. That will create a problem for the Assembly because we will have identified something that we want to do through our processes, perhaps something that is not controversial but which we are unable to do even though the protocol states that we can do it. Political reality will ensure that we cannot.

Bydd agwedd y Llywodraeth ganolog yn holl bwysig wrth bennu a fydd y protocol hwn yn gweithio. Fel Cynulliad, gallwn wneud rhywbeth i ddylanwadu ar Lywodraeth ganolog, ond bydd sefyllfaoedd anodd yn codi. Cyfeiriaf at dri o'r rhai amlycaf. Yn gyntaf, pan fo gan Lywodraeth ganolog ei rhaglen drwmlwythog ei hun. Bydd y Cynulliad wedyn yn gofyn, drwy Ysgrifennydd Gwladol Cymru, am gael cynnwys deddfwriaeth. Bydd y Llywodraeth ganolog, yn ddealladwy, yn egluro bod ganddi ei gofynion ei hun a maniffesto etholiadol i'w gwblhau; bydd materion ac iddynt flaenoriaeth wedi codi; bydd yn deddfu ac ni roddir ond blaenoriaeth isel i geisiadau'r Cynulliad. Bydd hynny'n creu problem i'r Cynulliad oherwydd byddwn ninnau wedi nodi rhywbeth yr ydym ni am ei wneud drwy ein prosesau ni, rhywbeth nad yw'n ddadleuol efallai ond na allwn ei wneud er bod y protocol yn dweud y medrwn. Bydd realiti gwleidyddol yn sicrhau na fedrwn.

The second difficult scenario will be where we ask central Government to do something that it does not want to, not because it is ideologically opposed to what we propose but because what we propose goes further than central Government would like to go. A good example is the Countyside Bill. I see no reason why the Bill needs to be as prescriptive as it will be. It seems sensible for Westminster to legislate so that all matters relating to the implementation of that Bill will be devolved to the Assembly. However, for reasons that I understand, central Government will not adopt that view.

Yr ail sefyllfa anodd fydd lle y byddwn yn gofyn i'r Llywodraeth ganol wneud rhywbeth nad yw am ei wneud, nid am ei bod yn gwrthwynebu'r hyn a awgrymwn yn ideolegol ond am fod yr hyn a gynigiwn yn mynd ymhellach nag y dymunai'r Llywodraeth ganol fynd. Enghraifft dda yw'r Mesur Cefn Gwlad. Ni welaf unrhyw reswm pam fod angen i'r Mesur fod mor gyfarwyddol ag y bydd. Mae'n ymddangos yn synhwyrol i San Steffan ddeddfu fel y bydd pob mater yn ymwneud â rhoi'r Mesur hwnnw ar waith yn cael ei ddatganoli i'r Cynulliad. Fodd bynnag, am resymau y gallaf

Therefore, the second difficult scenario is when the Assembly requests more legislation to be devolved to it and central Government, not wishing to go down the road to further devolution, demurs our request.

eu deall, ni wna'r Llywodraeth ganol fabwysiadu'r farn honno. Felly, yr ail sefyllfa anodd yw pan fydd y Cynulliad yn gofyn am ddatganoli mwy o ddeddfwriaeth iddo a bod y Llywodraeth ganol, am nad yw am weld mwy o ddatganoli, yn gwrthwynebu ein cais.

The third difficult scenario is when the Assembly has a political disagreement with the Westminster Government because it wants to do something that central Government is not prepared to accept due to a difference of policy. The NHS is a good example. We may want to introduce legislation because of the importance of the health service in Wales, which accounts for one third of our expenditure. In addition, continuous problems that have been identified in the NHS in Wales may require different and radical solutions. They may require primary legislation. The UK Government in London might find a fundamental policy disagreement with us and therefore would not agree to our request for legislation.

Y drydedd sefyllfa anodd yw pan fydd y Cynulliad yn anghytuno'n wleidyddol â Llywodraeth San Steffan oherwydd ei fod am wneud rhywbeth nad yw'r Llywodraeth ganol yn barod i'w dderbyn ar sail gwahaniaeth mewn polisi. Mae'r NHS yn enghraifft dda. Efallai y byddwn am gyflwyno deddfwriaeth oherwydd pwysigrwydd y gwasanaeth iechyd yng Nghymru, sydd i gyfrif am bron i draean o'n gwariant. Yn ychwanegol, efallai y bydd angen atebion gwahanol a radical i'r problemau parhaus a nodwyd yng Nghymru. Gallai fod angen deddfwriaeth sylfaenol. Gallai Llywodraeth y DU yn Llundain anghytuno yn sylfaenol â ni o safbwynt polisi ac felly ni fyddent yn cytuno â'n cais am ddeddfwriaeth.

3:59 p.m.

Under those sets of circumstances, we are likely to find a degree of tension between ourselves—those of us who want to see devolution succeed and who view devolution as a process and want to take it forward—and those who perhaps feel that devolution has run its course and should not go any further. It is at that stage that we must look again at this protocol. Undoubtedly, we will then find out whether it gives us the strength, authority, power and the discretion that we want to see. At that stage we will examine the powers and the functions that have been devolved to us. I know that Ieuan Wyn Jones and his colleagues will be interested in the way in which we might perhaps have to argue the case for fast-track procedures. That would mean that, after identifying our priorities, we are not then frustrated by political opposition or by an overloaded legislative programme in Westminster.

O dan yr amgylchiadau hyn, yr ydym yn debyg o ganfod bod rhywfaint o densiwn rhyngom—y rheini ohonom sydd am weld datganoli yn llwyddo ac sydd yn ystyried datganoli yn broses ac am ei symud yn ei blaen—a'r rheini sydd efallai yn teimlo bod datganoli wedi rhedeg ei gwrs ac na ddylai fynd ymhellach. Y pryd hynny y bydd yn rhaid inni edrych eto ar y protocol hwn. Yn ddiamheuaeth, canfyddwn bryd hynny a yw'n rhoi inni'r nerth, yr awdurdod, y grym a'r disgresiwn yr ydym am eu gweld. Bryd hynny byddwn yn edrych ar y pwerau a'r swyddogaethau sydd wedi eu datganoli inni. Gwn y bydd gan Ieuan Wyn Jones a'i gyd-aelodau ddiddordeb yn y ffordd y bydd yn rhaid inni efallai ddadlau'r achos o blaid trefniadau chwim. Byddai hynny'n golygu, ar ôl inni restru ein blaenoriaethau, na chawn ein rhwystro wedyn gan wrthwynebiad gwleidyddol neu raglen ddeddfu drwmlwythog yn San Steffan.

However, that is the future. At the moment, we have a protocol and it is an useful step forward. It seems that our responsibility now is to demonstrate our good will as an

Fodd bynnag, y dyfodol yw hynny. Ar hyn o bryd, mae gennym brotocol ac mae'n gam buddiol ymlaen. Ymddengys mae ein cyfrifoldeb ni yn awr yw dangos ein hewyllys

Assembly. We must make the Assembly work. If we do that, we can take the process forward. We will organically come up against the case for further change. If we proceed in a pragmatic way and demonstrate the case for changes in the devolution settlement, we are likely to get a much more positive response from our colleagues in Whitehall and in Westminster. Therefore, I welcome this protocol. I hope that it will prove to be an useful first step. However, it is only a first step and I am sure that we will return to the matter in the future.

da fel Cynulliad. Rhaid inni wneud i'r Cynulliad weithio. Os gwnawn hynny, gallwn dywys y broses yn ei blaen. Deuwn wyneb yn wyneb â'r angen am newid pellach, a hynny'n organig. Os awn rhagom yn bragmatig a dangos y rhesymeg o blaid newid y setliad datganoli, yr ydym yn debygol o gael ymateb llawer mwy cadarnhaol gan ein cydweithwyr yn Whitehall a San Steffan. Felly, croesawaf y protocol. Gobeithiaf y bydd yn profi i fod yn gam cyntaf buddiol. Fodd bynnag, nid yw ond cam cyntaf ac yr wyf yn siŵr y byddwn yn dychwelyd at y mater yn y dyfodol.

Janet Ryder: I will discuss local government and transport. Some of the feelings that have been expressed by representatives of local government about this modernising agenda have been noted in this response. This includes the unhappiness felt by many backbench councillors, as they are becoming known. They feel that their role is being excluded more and more. Many councils are experiencing difficulties now because they have started to try out new styles of government. I welcome the acknowledgement in paragraph 15 of the draft response that, because different circumstances now exist in Wales, Wales must be allowed to act differently to England if that is felt to be appropriate. That is a positive comment.

Janet Ryder: Byddaf yn trafod llywodraeth leol a thrafnidiaeth. Nodwyd rhai o'r teimladau a fynegwyd gan gynrychiolwyr llywodraeth leol am yr agenda foderneiddio hon yn yr ymateb. Mae hyn yn cynnwys yr anfodlonrwydd a deimlir gan lawer o gynghorwyr ar y meinciau cefn, fel y maent yn dod i gael eu hadnabod. Teimlant fod eu rôl hwy yn cael ei chau allan fwy a mwy. Mae llawer o gynghorau'n wynebu anawsterau yn awr am eu bod wedi dechrau rhoi cynnig ar ffyrdd newydd o lywodraethu. Croesawaf y gydnabyddiaeth ym mharagraff 15 yr ymateb drafft fod yn rhaid gadael i Gymru weithredu'n wahanol i Loegr os tybir bod hynny'n briodol, gan fod amgylchiadau gwahanol yn bodoli yng Nghymru erbyn hyn. Mae hwnnw yn sylw cadarnhaol.

In addition, paragraph 16 states that

Yn ogystal, dywed paragraff 16

'In that context, the Assembly does not believe that pre-determined models for new local government political management structures will necessarily be appropriate for all local authorities and all areas in Wales.'

'Yn y cyd-destun hwn, nid yw'r Cynulliad yn credu y bydd modelau gosodedig ar gyfer strwythurau rheoli gwleidyddol newydd i lywodraeth leol o reidrwydd yn briodol ar gyfer pob awdurdod lleol a phob ardal yng Nghymru.'

That reflects the feeling in many local authorities in Wales. The paragraph goes on to state that

Mae hynny'n adlewyrchu'r teimlad mewn llawer o awdurdodau lleol yng Nghymru. Â'r paragraff ymlaen i ddweud

'The Assembly thus welcomes the powers in the Bill to approve further new structures, and will exercise these as necessary so as to ensure that local government reform in Wales is relevant to the circumstances of all local authorities and all communities in Wales.'

'Mae'r Cynulliad felly yn croesawu'r pwerau yn y Mesur i gymeradwyo strwythurau newydd eraill, a bydd yn arddel y rhain fel sydd yn ofynnol er mwyn sicrhau bod y diwygio ar lywodraeth leol yng Nghymru yn berthnasol i amgylchiadau holl awdurdodau lleol a holl gymunedau Cymru.'

Mike German commented that there might be some difficulty in allowing a full scope for experimentation in Wales and that there might be some limitations on that. We must make it clear to local councils that they can experiment with different models and they do not have to slavishly follow the rules that have been set out for them in England. That message needs to be conveyed clearly to local government. We raised one or two issues we would like to have been included. Plaid Cymru—The Party of Wales has never made a secret of the fact that we do not like the system of elected mayors. We do not think that this is appropriate for Wales and we would have liked that to have been included in the response to the Bill.

Soniodd Mike German y gallai fod peth anhawster o ran caniatáu arbrofi i'w lawn rychwant yng Nghymru ac y gallai fod rhai cyfyngiadau ar hynny. Rhaid inni ei gwneud yn glir i gynghorau lleol y gallant arbrofi gyda gwahanol fodelau ac nad yw'n rhaid iddynt ddilyn yn slafaidd y rheolau a bennwyd iddynt yn Lloegr. Rhaid cyfleu'r neges hon yn glir i lywodraeth leol. Yr ydym wedi codi un neu ddau bwnc yr hoffem ni iddynt fod wedi eu cynnwys. Nid yw Plaid Cymru—The Party of Wales erioed wedi gwneud cyfrinach o'r ffaith nad ydym yn hoff o'r system ethol meiri. Ni thybiwn fod hyn yn briodol i Gymru a byddem wedi hoffi i hynny gael ei gynnwys yn yr ymateb i'r Mesur.

The response also refers to the fact that the Bill should not establish a culture of secrecy and unaccountability. This should have particular relevance to some of the councils that are developing cabinet-style government. There is a strong feeling that their papers, agendas and minutes should be made open and accessible. In some cases, there is a call for cabinet meetings to be held in public. That is done in some councils and I hope that more can be encouraged to do so. Unfortunately, the response does not go far enough in defining or safeguarding the role of backbenchers and their right to access to information.

Mae'r ymateb hefyd yn cyfeirio at y ffaith na ddylai'r Mesur sefydlu diwylliant o fod yn gelgar ac anatebol. Dylai hyn fod yn neilltuol o berthnasol i rai o'r cynghorau sydd yn datblygu llywodraeth ar ffurf cabinet. Mae teimlad cryf y dylai eu papurau, eu hagendâu a'u cofnodion fod yn agored a hawdd cael gafael arnynt. Mewn rhai achosion, gelwir am i gyfarfodydd cabinet gael eu cynnal yn gyhoeddus. Gwneir hynny mewn rhai cynghorau a gobeithiaf y gellir annog mwy i wneud yr un fath. Yn anffodus, nid yw'r ymateb yn mynd yn ddigon pell wrth ddiffinio neu ddiogelu rôl y meincwyr cefn a'u hawl i weld gwybodaeth.

The response to the Transport Bill is a good example of the issue that Ieuan raised. If there had been greater consultation, we could have made greater input to this document. As a party, we have just prepared a response to this Bill for our group of Assembly Members. It is a detailed four or five page document. We would have liked the chance to include some of that detail in the response.

Mae'r ymateb i'r Mesur Trafnidiaeth yn enghraifft dda o'r mater a gododd Ieuan. Pe byddid wedi cael mwy o ymgynghori, gallem fod wedi cyfrannu mwy at y ddogfen hon. Fel plaid, yr ydym newydd lunio ymateb i'r Mesur hwn ar gyfer ein grŵp o Aelodau yn y Cynulliad. Mae'n ddogfen fanwl bedair i bum tudalen. Byddem wedi hoffi cael y cyfle i gynnwys peth o'r manylder hwnnw yn yr ymateb.

The response recognises that the Assembly is disappointed that its right to be consulted on the appointment of the strategic rail authority has been omitted. The response's wording needs clarification. Does it call for the Assembly to have the right to appoint the representative for Wales to the strategic rail authority? Sue said that she felt that it reflected the Committee's feelings. My reading of this is that we will still have to

Mae'r ymateb yn cydnabod bod y Cynulliad yn siomedig nad oes hawl sydd yn mynnu bod yn rhaid ymgynghori â'r Cynulliad ynghylch penodi'r awdurdod rheilffyrdd strategol wedi ei chynnwys. Mae angen mwy o eglurder yng ngeiriad yr ymateb. A yw'n galw am i'r Cynulliad gael yr hawl i benodi cynrychiolydd dros Gymru i'r awdurdod rheilffyrdd strategol? Dywedodd Sue ei bod hi'n teimlo ei fod yn adlewyrchu teimladau'r

jointly agree the nomination with the SRA. The Committee has made its views clear on this. It wants to appoint the Welsh representative to the SRA. That point needs clarification.

Pwyllgor. Y ffordd yr wyf fi'n darllen hwn mae'n dal yn ofynnol inni gytuno gyda'r awdurdod rheilffyrdd strategol ar yr enwebiad. Mae'r Pwyllgor wedi datgan ei farn yn glir ar hyn. Mae am benodi cynrychiolydd dros Gymru i'r Awdurdod. Mae angen gwneud y pwynt hwn yn glir.

I am pleased that the enabling clause, which enables the Assembly to consider the best way forward for Wales, whether through establishing a passenger transport authority or a strategic rail authority office in Wales, is included. However, there are details in the Bill that need amending. Schedule 13 must be considered to give the Assembly the devolved powers to have some control over the railway. John Marek raised the point that some funds must be transferred to enable the Assembly to deal with rail passenger and freight transport properly.

Yr wyf yn falch bod y cymal galluogi, sydd yn galluogi'r Cynulliad i ystyried y ffordd orau ymlaen i Gymru, boed hynny drwy sefydlu awdurdod trafnidiaeth teithwyr neu swyddfa i'r awdurdod rheilffyrdd strategol yng Nghymru, wedi ei gynnwys. Fodd bynnag, mae manylion yn y Mesur y mae angen eu newid. Rhaid ystyried atodlen 13 i roi i'r Cynulliad y pwerau datganoledig i gael peth rheolaeth dros y rheilffordd. Cododd John Marek y pwynt fod yn rhaid trosglwyddo peth arian i alluogi'r Cynulliad i ddelio'n briodol â thrafnidiaeth teithwyr a nwyddau ar y rheilffyrdd.

Carwyn Jones: Croesawaf unrhyw beth sydd yn cryfhau pwerau'r Cynulliad dros y rheilffyrdd. Croesawaf hefyd yr hyn a ddywed gwelliant 5 ynglŷn â hynny. Mae gwendid ym mhwerau'r Cynulliad pe byddech yn eu cymharu â phwerau San Steffan a Senedd yr Alban. Felly, rhaid inni sicrhau bod digon o bŵer gennym dros y rheilffyrdd er mwyn cael unrhyw fath o bolisi cludiant integredig.

Carwyn Jones: I welcome anything that strengthens the Assembly's powers over the railways. I also welcome amendment 5's statement on that. There is a weakness in the Assembly's powers if you compare them with the powers of Westminster and the Scottish Parliament. Therefore, we must ensure that we have sufficient power over the railways to have any sort of integrated transport policy.

Mae un rhyddfraint yn syniad da. Croesawaf hefyd yr hyn y mae Wales and West Passenger Trains wedi'i ddweud ynglŷn â hynny—sef ei fod yn ystyried hynny yn bosibilrwydd cryf. Rhaid inni gofio hefyd nad yw system reilffyrdd ar gyfer Cymru yn unig yn realistig. Rhaid inni ystyried system sydd yn cynnwys Cymru a'r Gororau. Croesawaf yr hyn sydd yn yr adroddiad sydd o'n blaenau a'r gwelliant hwn.

One franchise is a good idea. I also welcome what Wales and West Passenger Trains has said about that—namely that it considers that a strong possibility. We must also remember that a railway system for Wales alone is not realistic. We must consider a system that includes Wales and the Marches. I welcome the contents of the report that is before us and this amendment.

On amendment 6, one of the Labour group's strengths is that it has agreed to a free vote and the freedom to speak on this matter. This is an exceptionally important amendment. We, as an Assembly, do not have power to alter the right of election for jury trial, but that does not mean that we cannot have a view on it. There are three types of criminal offences: indictable, either way and summary offences. Indictable offences can only be

Ar welliant 6, un o gryfderau'r grŵp Llafur yw ei fod wedi cytuno i bleidlais rydd a rhyddid i siarad ar y mater hwn. Mae hwn yn welliant eithriadol o bwysig. Nid oes gennym ni, fel Cynulliad, y grym i newid yr hawl i dreial gerbron rheithgor, ond nid yw hynny'n golygu nad allwn gael barn ar y mater. Mae tri math o dramgwydd troseddol: troseddau ditiadwy, troseddau y naill ffordd neu'r llall a throseddau diannod. Dim ond yn llys y goron

tried in a crown court. They encompass the most serious offences. Summary only offences can only be tried in a magistrates' court and tend to be more trivial if indeed there can be triviality when it comes to a criminal offence. Either way offences are what their name suggests: ultimately, if the magistrates decline jurisdiction, it is for the defendant to opt for either a crown or magistrates court trial. I firmly believe that people should have that option.

y gellir rhoi troseddau ditiadwy ar brawf. Maent yn cynnwys y troseddau mwyaf difrifol. Dim ond mewn llys ynadon y gellir rhoi troseddau diannod ar brawf ac maent yn tueddu i fod yn fwy dibwys os gall fod dibwysedd mewn tramgwydd troseddol. Mae enw troseddau y naill ffordd neu'r llall yn awgrymu eu natur: yn y pen draw, os yw'r ynadon yn ymwrthod â'u hawdurdodaeth, caiff y diffynnydd naill ai ddewis treial yn llys y goron neu mewn llys ynadon. Credaf yn gryf y dylai pobl gael y dewis hwnnw.

4:09 p.m.

The argument put forward is that the reform is a way of saving money and that jury trial can be an abuse of process by defendants. Some people might say 'you are a barrister, you are a fat-cat lawyer'—I know that John Griffiths has that phrase tucked up his sleeve to use about me later on—which suggests a hypocrisy not previously known in this Chamber. I reject that suggestion. I have never been called 'a cat' before, the other two maybe.

Y ddadl a roddir yw bod y diwygio yn ffordd o arbed arian ac y gall treial gerbron rheithgor olygu bod diffynyddion yn camddefnyddio'r broses. Efallai y byddai rhai pobl yn dweud 'yr ydych yn fargyfreithiwr, yn gath dew o gyfreithiwr'—gwn fod John Griffiths â'r ymadrodd hwnnw yn ei lawes i'w ddefnyddio amdanaf yn ddiweddarach—sydd yn awgrymu rhagrith nas gwelwyd yn y Siambr hon o'r blaen. Gwrthodaf yr awgrym. Nid wyf erioed o'r blaen wedi cael fy ngalw'n 'gath', y ddau arall efallai.

The situation is not what it appears to be. There are people who abuse the system and who will opt for a crown court trial to delay the inevitable. However, they form a minuscule percentage of the people who use the system. It is like saying that as a proportion of benefit claims are fraudulent, all benefit claims are fraudulent. That is the analogy that can be drawn. Besides which, somebody who opts for a crown court trial and is convicted can receive a higher sentence, so there is a penalty for them at the end of the day. They take a great risk.

Nid yw'r sefyllfa fel y mae'n ymddangos. Mae pobl sydd yn camddefnyddio'r system ac a fydd yn dewis treial yn llys y goron i ohirio'r hyn sydd yn anochel. Fodd bynnag, canran fechan ydynt o'r bobl sydd yn defnyddio'r system. Mae fel dweud, gan fod cyfran o geisiadau budd-dâl yn dwyllodrus, fod pob cais yn dwyllodrus. Dyna'r gyfatebiaeth y gellid ei gwneud. Heblaw am hynny, gall rhywun sydd yn dewis treial yn llys y goron ac a euogfarnir gael dedfryd uwch, felly mae cosb iddynt yn y pen draw. Maent yn cymryd risg fawr.

There are many reasons for opting for a magistrates court trial. First, magistrate trials are speedier, cheaper and magistrates sentencing powers and the sentences that they pass tend to be lower than those of the crown court. There is also an unfettered right of appeal from the magistrates court to the crown court, by way of a rehearing. All those factors are attractive to defendants opting for a trial. In the crown court, the possibilities of an acquittal are higher, because when members of the public come together as a jury, they tend, perhaps, to be a little less

Mae llawer o resymau dros ddewis treial yn y llys ynadon. Yn gyntaf, mae treial gan ynadon yn gyflymach, yn rhatach ac mae grym dedfrydu ynadon a'r dedfrydau y maent yn eu pasio yn tueddu i fod yn is na'r hyn a geir yn llys y goron. Mae hefyd hawl ddilyffethair i apelio o'r llys ynadon i lys y goron, ar ffurf ailwrandawiad. Mae'r holl ffactorau hyn yn ddeniadol i ddiffynyddion sydd yn dewis eu treial. Yn llys y goron, mae'r posibilrwydd o ddedfryd ddieuog yn uwch, oherwydd pan ddaw aelodau o'r cyhoedd ynghyd fel rheithgor, maent yn

cynical. That is how it is put. The crown court also has the advantage that it can answer more difficult legal questions about the admissibility of evidence than the magistrates court can.

tueddu, efallai, i fod ychydig yn llai sinigaidd. Dyna'r ffordd y caiff ei fynegi. Mae gan lys y goron hefyd y fantais y gall ateb cwestiynau cyfreithiol mwy anodd na'r llys ynadon am ba dystiolaeth sydd yn dderbyniol.

However, there are also disincentives to choose a crown court trial: sentences are higher, costs are higher—much higher than in the magistrates court—and there is no unfettered right of appeal from the crown court to the court of appeal. There must be legally defensible grounds of appeal. Therefore, the crown court is not quite the nirvana that many people think. It is often said that many trivial cases go to the crown court. Who is to say what a trivial case is? I once defended somebody who was accused of stealing £10—not a great deal. She was a student with no previous convictions. If she had been convicted, it would, in effect, have ruined her life and career. A conviction of dishonesty is the worst possible conviction, short of murder or an offence for which one can receive a prison sentence. Her trial took place in the crown court and she was acquitted. Had her trial taken place in the magistrates court, her chances of acquittal would have been far less. Her life has not been blighted by a criminal conviction for theft, even though only for £10, because she elected for trial in the crown court.

Fodd bynnag, mae hefyd ffactorau i annog rhywun i beidio â dewis treial yn llys y goron: mae'r dedfrydau yn uwch, y costau yn uwch—yn llawer uwch nag mewn llys ynadon—ac nid oes hawl apelio ddilyffethair o lys y goron i'r llys apêl. Rhaid cael rhesymau y gellir eu hamddiffyn yn gyfreithiol dros apelio. Felly, nid yw llys y goron mo'r nirfana y mae pobl yn ei ddychmygu. Dywedir yn aml bod llawer o achosion dibwys yn mynd i lys y goron. Pwy sydd i ddweud beth yw achos dibwys? Bûm yn amddiffyn rhywun a gyhuddwyd o ddwyn £10 unwaith—dim byd o bwys. Yr oedd yn fyfyrwraig heb unrhyw euogfarnau blaenorol. Pe bai wedi ei chael yn euog, byddai, i bob diben, wedi difetha ei bywyd a'i gyrfa. Euogfarn o anonestrwydd yw'r euogfarn waethaf bosibl, heblaw am lofruddiaeth neu drosedd y ceir dedfryd o garchar amdani. Cynhaliwyd ei threial yn llys y goron ac fe'i cafwyd yn ddieuog. Pe bai ei threial wedi ei gynnal mewn llys ynadon, byddai ei gobeithion o ddyfarniad dieuog wedi bod yn llawer llai. Nid yw ei bywyd wedi ei andwyo gan euogfarn droseddol am ddwyn, er nad oedd hynny ond am £10, gan iddi ddewis treial yn llys y goron.

What about the financial arguments? If more cases go to the magistrates court and are heard there, there will be more appeals from the magistrates courts. You then have the cost, not only of the magistrates court trial, but of appeals against conviction in the crown court. Those will come close to off-setting the initial cost of a crown court trial combined with preliminary hearings in the magistrates court. Therefore, it is not necessarily a way of saving money. Does it mean that lawyers are very well-paid? No one is going to say that lawyers are badly paid, but criminal prosecution work is the worst-paid work possible, certainly under the legal aid system. Defence work used to be the worst, but that changed two years ago although, comparatively, that is also not well-paid. Tremendous money is made in

Beth am y trefniadau ariannol? Os bydd mwy o achosion yn mynd i'r llys ynadon i'w clywed yno, ceir mwy o apeliadau o'r llysoedd ynadon. Wedyn cewch y gost, nid yn unig o'r treial yn y llys ynadon, ond o apeliadau yn erbyn euogfarnau yn llys y goron. Daw hynny'n agos at wrthbwyso cost gychwynnol treial yn llys y goron ynghyd â gwrandawiadau rhagarweiniol yn y llys ynadon. Felly, nid yw o reidrwydd yn ffordd o arbed arian. A yw'n golygu bod cyfreithwyr yn cael eu talu'n dda iawn? Ni fyddai unrhyw un yn dweud bod cyfreithwyr yn cael eu talu'n wael, ond gwaith erlyn troseddol yw'r gwaith â'r tâl gwaethaf posibl, yn sicr o dan y gyfundrefn cymorth cyfreithiol. Arferai gwaith amddiffyn fod yn waeth, ond newidiodd hynny ddwy flynedd yn ôl er nad yw, yn gymharol, yn waith sydd

commercial law, or in law outside of crime. Therefore, the money involved in terms of fees for lawyers is not as attractive as it is in other legal fields. Criminal prosecution work is the worst. It is the most badly paid.

yn denu tâl da ychwaith. Gwneir arian aruthrol mewn cyfraith fasnachol, neu mewn cyfraith y tu allan i droseddu. Felly, nid yw'r arian dan sylw o ran ffïoedd i gyfreithwyr mor ddeniadol ag ydyw mewn meysydd cyfreithiol eraill. Gwaith erlyn troseddol yw'r gwaethaf. Dyna sydd yn denu'r tâl gwaethaf.

As an Assembly we can take a view on this matter. I welcome the opportunity to have a free vote and to speak on this matter. Westminster has taken a different view. I appreciate that ultimately, what happens regarding this legislation is a matter for Westminster. Having worked in the criminal justice system for some time, I have seen the effect of crown court trials in circumstances that might appear to be trivial to members of the public. I can say that is not the case. I will support amendment 6.

Fel Cynulliad gallwn gymryd safbwynt ar y mater hwn. Croesawaf y cyfle i gael pleidlais rydd ac i siarad ar y mater hwn. Mae San Steffan wedi barnu'n wahanol. Yr wyf yn sylweddoli mai mater i San Steffan yw beth fydd yn digwydd maes o law ynglŷn â'r ddeddfwriaeth hon. A minnau wedi gweithio yn y gyfundrefn cyfiawnder troseddol ers peth amser, yr wyf wedi gweld yr effaith a gaiff treialon llys y goron o dan amgylchiadau a allai ymddangos yn ddibwys i aelodau'r cyhoedd. Gallaf ddweud nad yw hynny'n wir. Byddaf yn cefnogi gwelliant 6.

The Presiding Officer: Before I call Peter Black, and this is no reflection on the speech I expect from him, I make clear that I intend to call Andrew Davies to respond to the debate at about 4.40 p.m. to protect the time of the short debate.

Y Llywydd: Cyn galw Peter Black, ac nid yw hyn yn adlewyrchiad o gwbl ar yr araith a ddisgwyliaf ganddo ef, hoffwn ei gwneud yn glir y bwriadaf alw Andrew Davies i ymateb i'r ddadl am tua 4.40 p.m. er mwyn diogelu amser y ddadl fer.

Peter Black: I will talk about the Local Government Bill and the Transport Bill. I welcome the changes that are being made as the Assembly makes its own contributions to the Local Government Bill. I also welcome the fact that the Government seems to be prepared to listen to what we have to say. We were told today that there will be changes to the referenda for elected mayors so as to give the Assembly scope to determine the threshold at which a referendum can be called—what percentage of the electorate need to sign a petition to call a referendum. It is important that we have the flexibility on structures, to which Janet Ryder and Michael German referred, and that we are able, if needs be, to allow local government to implement the structures that suit them and their circumstances. The message is not getting through to local government in Wales that the Assembly will do things differently to England. As a member of Swansea City and County Council I have sat in a debate where officers have reported that as if the only thing that matters is what goes on at Westminster. This does not take into account

Peter Black: Byddaf yn siarad am y Mesur Llywodraeth Leol a'r Mesur Trafnidiaeth. Croesawaf y newidiadau sydd yn cael eu gwneud wrth i'r Cynulliad wneud ei gyfraniadau ei hun i'r Mesur Llywodraeth Leol. Croesawaf hefyd y ffaith bod y Llywodraeth yn ôl pob tebyg yn barod i wrando ar yr hyn sydd gennym i'w ddweud. Dywedwyd wrthym heddiw y bydd newidiadau i'r refferenda ar feiri etholedig er mwyn rhoi'r gallu i'r Cynulliad benderfynu ar ba drothwy y gellir galw refferendwm—pa ganran o'r etholwyr sydd yn gorfod llofnodi deiseb yn galw am refferendwm. Mae'n bwysig bod gennym yr hyblygrwydd ar strwythurau, y cyfeiriodd Janet Ryder a Michael German ato, ac y gallwn, os oes angen, ganiatáu i lywodraeth leol roi ar waith y strwythurau sydd yn gweddu iddynt hwy a'u hamgylchiadau. Nid yw'r neges yn cyrraedd llywodraeth leol yng Nghymru y bydd y Cynulliad yn gwneud pethau'n wahanol i Loegr. Fel aelod o Gyngor Dinas a Sir Abertawe yr wyf wedi eistedd mewn dadl lle mae swyddogion wedi rhoi adroddiad fel pe bai yr unig beth o bwys yw'r hyn sydd yn

the vast amount of secondary legislation that will come to the Assembly on this aspect.

digwydd yn San Steffan. Nid yw hyn yn cymryd i ystyriaeth y swmp enfawr o ddeddfwriaeth eilaidd a ddaw i'r Cynulliad ar yr agwedd hon.

I particularly wanted to speak about our amendments on proportional representation. On 5 January this year the first local government by-election of this century was held. It was a community council by-election in Kingsbridge, Loughor in the Gower constituency. That by-election was held on a Wednesday because the local council wanted to experiment with election days to try to improve turnout. That experiment failed miserably. It is a problem that we are looking to gimmicks like changing the days on which we hold elections, and having supermarket sweeps where people can go into supermarkets to vote. The problem is much more fundamental. There is a general disillusionment among people about local government, and a general disillusionment among people that they can change things by the way they vote. We have a history in Wales of local councils that have been dominated by one party for decades, sometimes disproportionately to the number of votes that that local party has attracted in local elections. It is important that we have a historic situation so that when people go out to vote and they cast their vote in a local government election, they feel that the vote will make a difference to the way things happen at the local level, and that they are going to influence things. At present people do not feel that is the case.

Yr oeddwn am siarad yn arbennig am ein gwelliannau ar gynrychiolaeth gyfrannol. Ar 5 Ionawr eleni cynhaliwyd isetholiad llywodraeth leol cyntaf y ganrif. Isetholiad cyngor cymuned yn Kingsbridge, Casllwchwr yn etholaeth Gŵyr ydoedd. Cynhaliwyd yr isetholiad hwnnw ar ddydd Mercher am fod y cyngor lleol am arbrofi gyda diwrnodau etholiadau i geisio gwella'r niferoedd sydd yn pleidleisio. Bu'r arbrawf yn fethiant truenus. Mae'n broblem ein bod yn troi at gimics fel newid diwrnodau cynnal etholiadau, a chael swîps mewn archfarchnadoedd lle gall pobl fynd i bleidleisio. Mae'r broblem yn llawer mwy sylfaenol. Mae pobl yn gyffredinol wedi eu dadrithio â llywodraeth leol, gyda dadrithiad cyffredinol ymysg pobl y gallant newid pethau drwy'r ffordd y maent yn pleidleisio. Mae gennym yng Nghymru hanes o gynghorau lleol a fu dan oruchafiaeth un blaid am ddegawdau, a hynny weithiau heb fod yn gymesur â nifer y pleidleisiau a ddenwyd gan y blaid honno yn lleol mewn etholiadau lleol. Mae'n bwysig bod gennym sefyllfa hanesyddol fel bod pobl, pan ânt allan i fwrw eu pleidlais mewn etholiad llywodraeth leol, yn teimlo y bydd y bleidlais yn gwneud gwahaniaeth i'r ffordd y mae pethau'n digwydd ar y lefel leol, a'u bod yn mynd i ddylanwadu ar bethau. Ar hyn o bryd mae pobl yn teimlo nad yw hyn yn wir.

With cabinet-style local government, we will concentrate power into the hands of fewer people. We are told that it is more accountable, though I think that the Lord Mayor of Cardiff felt he was not accountable for the decision regarding new gates on the Mansion House in Cardiff, even though the responsibility reached his office. Maybe it will not work in that way. However, we are told that it is going to be more accountable but we must ensure that that is the case and that the local government appointing that cabinet is representative and that people believe that they can change something when they go out to vote. The only way to do that is by having a proportional representation

Gyda llywodraeth leol ar ffurf cabinet, byddwn yn canoli mwy o rym yn nwylo llai o bobl. Dywedir wrthym fod hynny'n fwy atebol, er, yn fy marn i, na theimlai Arglwydd Faer Caerdydd ei fod yn atebol am y penderfyniad ynglŷn â giatiau newydd ar y Mansion House yng Nghaerdydd, er bod y cyfrifoldeb yn cyrraedd ei swyddfa. Efallai na fydd yn gweithio fel yna. Fodd bynnag, dywedir wrthym y bydd yn fwy atebol, ond rhaid inni sicrhau bod hynny'n wir a bod yr awdurdod lleol sydd yn penodi'r cabinet yn gynrychiadol a bod pobl yn teimlo y gallant newid rhywbeth wrth fynd allan i bleidleisio. Yr unig ffordd ymlaen i wneud hynny yw drwy gael system o gynrychiolaeth gyfrannol

system so that we have a fair vote where what you vote for is what you get. That is important.

fel bod gennym bleidlais deg, a'r hyn y pleidleisiwch amdano yw'r hyn a gewch. Mae hynny'n bwysig.

4:19 p.m.

We have had a long discussion about transport today, both in the Environment and Local Government Committee and in Plenary. I do not intend to go over all of that. It is important that we support a single franchise for Wales. It could do a great deal to improve the railways in Wales, especially if the Assembly also has the power to dictate and instruct the strategic rail authority on how it should act in relation to that franchise. Our amendment 5 links the power to instruct with the idea of having a single franchise. Without a single franchise, it could be that what you try to instruct would not be meaningful because the rail network in Wales would dissipate.

Yr ydym wedi cael trafodaeth hir am drafnidiaeth heddiw, ym Mhwyllgor yr Amgylchedd a Llywodraeth Leol ac yn y Sesiwn Llawn. Ni fwriadaf fynd dros hynny i gyd. Mae'n bwysig ein bod yn cefnogi un rhyddfraint i Gymru. Gallai wneud llawer iawn i wella'r rheilffyrdd yng Nghymru, yn enwedig os oes gan y Cynulliad hefyd y pŵer i orchymyn yr awdurdod rheilffyrdd strategol a'i gyfarwyddo sut y dylai weithredu mewn perthynas â'r rhyddfraint honno. Mae ein gwelliant 5 ni yn cydgysylltu'r pŵer i gyfarwyddo gyda'r syniad o un rhyddfraint . Heb un rhyddfraint, efallai na fyddai ystyr i'r hyn y ceisiech ei gyfarwyddo oherwydd byddai'r rhwydwaith rheilffyrdd yng Nghymru yn chwalu.

We also welcome the cross-party support for a passenger transport authority that is reflected in this response. On the SRA, we should send a clear message that, as an Assembly, we should appoint the representative for Wales and that there should be an SRA office in Wales.

Yr ydym hefyd yn croesawu'r gefnogaeth drawsbleidiol i awdurdod trafnidiaeth teithwyr a adlewyrchir yn yr ymateb hwn. O ran yr awdurdod rheilffyrdd strategol, dylem anfon neges glir mai ni, fel Cynulliad, ddylai benodi'r cynrychiolydd dros Gymru ac y dylai fod gan yr awdurdod rheiffyrdd strategol swyddfa yng Nghymru.

There is an opportunity in these two Bills to set the trend for a new Wales, by improving the openness and accountability of local government and by putting in place an integrated transport system that will enhance quality of life, improve the environment and help tackle social exclusion. The Liberal Democrat amendments will add to that and I urge you to support them.

Ceir cyfle yn y ddau Fesur hyn i osod y gogwydd ar gyfer Cymru newydd, drwy wneud llywodraeth leol yn fwy agored ac atebol a thrwy sefydlu system drafnidiaeth integredig a fydd yn gwella ansawdd bywyd, yn gwella'r amgylchedd ac yn help i fynd i'r afael â dieithrwch cymdeithasol. Bydd gwelliannau'r Democratiaid Rhyddfrydol yn ychwanegu at hynny ac anogaf chi i'w cefnogi.

Rhodri Glyn Thomas: Yr ydym wedi cael trafodaeth eang a chynhwysfawr ar holl agweddau'r ddogfen hon. Ategaf yr hyn a ddywedwyd eisoes gan nifer o bobl—mae'n rhyfedd darllen dogfen sydd yn dweud bod y Cynulliad yn galw am hyn, neu'n teimlo'r llall, pan nad yw'r Cynulliad wedi cael cyfle llawn i drafod y materion hyn. Nid yw'r ddogfen hon yn cynrychioli safbwynt y Cynulliad. O bosibl, mae'n cynrychioli safbwynt y Llywodraeth neu unigolion o

Rhodri Glyn Thomas: We have had an extensive and comprehensive discussion on all aspects of this document. I endorse what has already been said by a number of people—it is strange to read a document that states that the Assembly calls for this, or feels that, when the Assembly has not had a full opportunity to discuss these matters. This document does not represent the Assembly's view. It possibly represents the view of the Government or individuals within the

fewn y Llywodraeth.

Cyfyngaf fy sylwadau i'r rhan o'r ddogfen sydd yn ymwneud â'r ddeddfwriaeth cefn gwlad. Croesawaf y pwyslais ar hyblygrwydd yn y ddogfen, a'r gydnabyddiaeth fod y sefyllfa yng Nghymru yn wahanol i'r sefyllfa yn Lloegr. Gwelsom yn y gorffennol, pan fo Llywodraeth Prydain yn ymdrin ag amaethyddiaeth, ei bod yn cymryd yn ganiataol bod gofynion Cymru a Lloegr yr un fath. Gwyddom fod y sefyllfaoedd yn dra gwahanol. Yn wir, trwy holl bolisïau'r Llywodraeth bresennol, gwelwn yr ystyriaeth fod cefn gwlad Cymru yn union yr un peth â threfi a dinasoedd de-ddwyrain Lloegr. Mae hynny'n arbennig o wir am ei pholisi ariannol, sydd yn sylfaen i'r holl bolisïau eraill. Dyma sydd yn creu'r problemau mawr yng nghefn gwlad ar hyn o bryd, yn arbennig yr argyfwng amaethyddiaeth. Mae cryfder y bunt yn creu sefyllfa lle y mae ffermydd yn mynd allan o fusnes a ffermwyr yn wynebu sefyllfaoedd ariannol gwirioneddol anodd.

Dywed y ddogfen fod yn rhaid inni gael hyblygrwydd yn nhermau'r ddeddfwriaeth hon. Rhaid inni aros i weld sut y gall y Cynulliad newid y ddeddfwriaeth a'i chymhwyso ar gyfer Cymru. Mae'n holl bwysig bod hynny'n digwydd. Bydd yn effeithio ar lawer mwy o diriogaeth yng Nghymru. Byddwn yn gweld sefyllfaoedd lle y bydd ffermydd yn wynebu anawsterau, a ffermwyr a thirfeddianwyr yn wynebu costau ychwanegol. Mae'n anghredadwy bod y ddogfen hon yn dweud nad yw'n rhagweld costau ar dirfeddianwyr a rheolwyr tir yng Nghymru o ganlyniad i'r ddeddfwriaeth.

Mae hyn yn rhan o raglen ddeddfwriaethol y Llywodraeth ac mae gan y Cynulliad gyfle i gael gwir ddylanwad ar gynnwys y ddeddfwriaeth hon cyn belled ag y bo Cymru yn y cwestiwn. Oherwydd hyn, cred Plaid Cymru—The Party of Wales ei bod yn holl bwysig ein bod yn cyfrannu'n greadigol tuag at y broses. Yr ydym hefyd am sicrhau ein bod yn rhoi'r cyfle i bobl gael mynediad i gefn gwlad tra'n diogelu hawliau pobl sydd yn byw a gweithio yno.

Mawr obeithiaf y bydd y fforymau a awgrymwyd er mwyn trefnu dod â thirfeddianwyr a phobl sydd am fynediad i

Government.

I will restrict my comments to the part of the document appertaining to rural legislation. I welcome the emphasis on flexibility in the document, and the acknowledgement that the situation in Wales is different to that in England. We have seen in the past that, when the British Government deals with agriculture, it takes for granted that the needs of Wales and England are the same. We know that the situations are quite different. In fact, in all of the present Government's policies, we see the consideration that rural Wales is exactly the same as the towns and cities of south-east England. That is especially true about its monetary policy, which forms a basis for all the other policies. This is what creates the major problems in rural areas at present, especially the agriculture crisis. The strength of the pound creates a situation where farms go out of business and farmers face truly difficult financial situations.

The document states that we must have flexibility in terms of this legislation. We must wait to see how the Assembly can amend the legislation and apply it to Wales. It is crucial that that happens. It will affect much more territory in Wales. We will also see situations where farms will face difficulties, with farmers and landowners facing additional costs. It is incredible that this document states that it does not anticipate costs for landowners and land managers in Wales as a result of the legislation.

This is part of the Government's legislative programme and the Assembly has an opportunity to truly influence the contents of this legislation as far as Wales is concerned. Because of this, Plaid Cymru—The Party of Wales believes it is vital that we contribute creatively to the process. We also want to ensure that we give people the opportunity to access the countryside while protecting the rights of the people who live and work there.

I very much hope that the fora that have been suggested to arrange to bring landowners and people who wish to gain access to the

gefn gwlad at ei gilydd yn esgor ar drafodaeth wirioneddol. Gobeithiaf hefyd y datblyga bartneriaeth wirioneddol rhwng y tirfeddianwyr a'r bobl sydd eisiau mynediad i gefn gwlad fel bo'r mynediad yn fynediad cyfrifol. Dyna'r hyn yr hoffwn ei weld yn y diwedd. Ein barn o'r dechrau oedd y byddai partneriaethau gwirfoddol o'r fath yn llawer gwell na deddfwriaeth wedi ei gosod oddi uchod.

countryside together will produce genuine discussion. I also hope that a genuine partnership will develop between the landowners and the people who want access to the countryside so that the access is responsible access. That is what I would like to see ultimately. Our view from the outset was that voluntary partnerships of this kind would be far better than legislation laid down from above.

Fodd bynnag, derbyniwn y bydd y ddeddfwriaeth yn cael ei chyflwyno ac yr ydym am weld y Cynulliad a'r Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig yn ymateb yn greadigol i'r broses honno er mwyn sicrhau bod y ddeddfwriaeth mor addas â phosibl i Gymru. Nid ydym am weld sefyllfa yn datblygu lle y trinnir Cymru yn yr un modd â Lloegr o dan y ddeddfwriaeth. Mae hynny'n holl bwysig ac, fel y dywedodd Ron Davies ac eraill yn gynharach, yn rhan o'r broses o symud datganoli yng Nghymru yn ei flaen. Fodd bynnag, byddwn yn aros i weld a ddigwydd hynny mewn gwirionedd, ynteu dim ond clywed geiriau gwag am hyblygrwydd a'r cyfle i ddylanwadu yr ydym? Clywsom ormod o eiriau gwag yn ystod y chwe mis diwethaf. Yr ydym yn barod i gyfrannu cyhyd â bod gweithredu gwirioneddol yn digwydd yn hytrach na dim ond rhoi cydnabyddiaeth eiriol i'r sefyllfa. Byddwn felly yn atal ein pleidlais ar welliant 4 Nick Bourne ar y ddeddfwriaeth yn ymwneud â mynediad i gefn gwlad.

However, we accept that the legislation will be introduced and we wish to see the Assembly and the Agriculture and Rural Development Committee responding creatively to that process in order to ensure that the legislation is as appropriate as possible for Wales. We do not want to see a situation develop where Wales is treated in the same way as England under the legislation. That is crucial and, as Ron Davies and others said earlier, it is part of the process of moving devolution in Wales forward. However, we will wait to see whether that really happens or whether we are merely hearing empty words about flexibility and the opportunity to influence. We have heard too many empty words over the past six months. We are ready to contribute as long as real action takes place, instead of merely verbally acknowledging the situation. We will therefore abstain on Nick Bourne's amendment 4 on legislation dealing with access to the countryside.

John Griffiths: I will speak about amendment 6. My learned friend, Carwyn Jones, seemed to think that I might to refer to him as a fat cat—

John Griffiths: Yr wyf am siarad am welliant 6. Yr oedd fy nysgedig gyfaill, Carwyn Jones, fel pe bai'n meddwl y byddwn yn cyfeirio ato fel cath dew—

The Presiding Officer: Order. I know that he is your friend, but we do not use the expression 'learned friend' in this Chamber, however learned he may be.

Y Llywydd: Trefn. Gwn ei fod yn gyfaill ichi, ond ni ddefnyddiwn yr ymadrodd 'dysgedig gyfaill' yn y Siambr hon, pa mor ddysgedig bynnag yw.

John Griffiths: I would not be so personal as to suggest that anybody in this Chamber might enjoy a particular income, or one that might be envied by others, but I would say that lawyers in general are not held highly in public esteem. It is fortunate that politicians, journalists and estate agents come below us in the popularity poll of the professions otherwise we would be firmly rooted at the

John Griffiths: Ni fyddwn mor bersonol ag awgrymu bod unrhyw un yn y Siambr hon yn mwynhau incwm arbennig, neu incwm a fyddai'n destun eiddigedd i eraill, ond dywedwn nad oes gan y cyhoedd feddwl uchel o gyfreithwyr yn gyffredinol. Mae'n ffodus bod gwleidyddion, newyddiadurwyr a gwerthwyr tai yn dod yn is na ni ym mhôl poblogrwydd y proffesiynau neu byddem

bottom. One reason for this is that the public perception of lawyers is that they are interested in their own incomes. That is not without good foundation. Whenever a change in legislation or a change in a way of operating that might affect the legal system is proposed, lawyers are quick to scream if they think that their incomes will be affected. That is why many people view the pronouncements of lawyers in a cynical way. I recognise that in speaking to this amendment but I accept its logic.

wedi ymwreiddio'n gadarn ar y gwaelod. Un rheswm dros hyn yw bod y cyhoedd yn tybio mai eu hincwm eu hunain sydd yn mynd â bryd cyfreithwyr. Nid yw hynny heb sail. Pa bryd bynnag y cynigir newid mewn deddfwriaeth neu newid i ffordd o weithredu a allai effeithio ar y system gyfreithiol, mae cyfreithwyr yn sydyn i sgrechian os tybiant yr effeithir ar eu hincwm. Dyna pam y mae llawer o bobl yn edrych yn sinigaidd ar yr hyn sydd gan gyfreithwyr i'w ddweud. Yr wyf yn cydnabod hynny wrth siarad am y cynnig hwn ond yr wyf yn derbyn y rhesymeg.

I will support the amendment because I know from experience that there is great attachment among the British public to the jury system. It is seen as an ancient inalienable right and anything that tends to erode that right causes anxiety. That anxiety is well-founded and understandable. When we compare the justice system in the magistrates court to that in the crown court, it is obvious why people such as myself, who dealt with criminal law as a lawyer, would routinely tell people who considered electing trial by jury that they would have a far better chance of acquittal before a jury than they would before a magistrates court. That is widely accepted and borne out by the statistics. There are various reasons for that, one of which is the fact that people are tried to a greater extent by their peers and by a cross-section of the community before a jury than they would be before magistrates. A broad body of work over the years has shown that magistrates tend to be middle-aged, middle class and white therefore they are not a good cross-section of society. That is a great failure of the magistrates system. It has its strengths; it is speedy, quite cheap and an adequate way of dealing with a variety of the less serious cases. However, Llywydd, anything that erodes the ancient, well-trusted and proven jury system should be viewed with great caution.

Byddaf yn cefnogi'r gwelliant oherwydd gwn o brofiad fod y cyhoedd ym Mhrydain â meddwl mawr o'r system reithgor. Fe'i gwelir fel hawl ddiymwad a hynafol ac mae unrhyw beth sydd yn tueddu i erydu'r hawl honno yn achosi pryder. Mae'n bryder dealladwy ac iddo seiliau cryf. Wrth gymharu'r system gyfiawnder yn y llys ynadon â'r un yn llys y goron, mae'n amlwg pam y byddai pobl fel fi, a fu'n delio â chyfraith droseddol fel cyfreithiwr, yn dweud yn rheolaidd wrth bobl a oedd yn ystyried dewis treial gerbron rheithgor y byddai ganddynt lawer gwell cyfle o gael dedfryd ddieuog ger bron rheithgor na llys ynadon. Derbynnir hynny yn gyffredinol ac mae'r ystadegau yn ei gadarnhau. Mae amryw o resymau dros hynny, un ohonynt yw mai eu cyd-bobl a thrawstoriad o'r gymuned sydd yn barnu pobl i raddau llawer mwy gerbron rheithgor nac ynadon. Mae corff sylweddol o waith dros y blynyddoedd wedi dangos bod ynadon yn tueddu i fod yn ganol oed, dosbarth canol a gwyn ac nad ydynt felly yn drawstoriad da o gymdeithas. Mae hynny yn fethiant mawr yn y system ynadon. Mae iddi ei chryfderau: mae'n gyflym, yn weddol rhad ac yn ffordd ddigonol o ddelio ag amrywiaeth o achosion llai difrifol. Fodd bynnag, Lywydd, dylid edrych yn dra gofalus ar unrhyw beth sydd yn erydu'r system reithgor hynafol y mae gan bobl gymaint o ffydd ynddi ac sydd wedi profi ei gwerth.

4:29 p.m.

I approach this legislation in that frame of mind. I do not think that it is justified. People should have the right to elect trial by jury because it is often extremely important. Some

Yr wyf yn ymdrin a'r ddeddfwriaeth hon yn y ffrâm honno o feddwl. Ni thybiaf fod iddi gyfiawnhad. Dylai fod gan bobl yr hawl i ddewis treial gerbron rheithgor oherwydd yn

reasons have been mentioned by Carwyn, such as that people who do not have previous convictions and face matters of dishonesty which may seem quite trivial in the round, but are certainly not at all trivial to people whose careers and futures are on the line.

aml mae'n eithriadol o bwysig. Soniodd Carwyn am rai rhesymau, er enghraifft pobl nad oes ganddynt euogfarnau blaenorol yn wynebu materion anonestrwydd a all ymddangos yn ddigon dibwys, ond nad ydynt yn sicr yn ddibwys o gwbl i bobl y mae eu gyrfa a'u dyfodol yn y fantol.

Justice must not simply be done but must be seen to be done. This has great resonance. People will not view lightly the erosion of the right to jury trial when that point of view is so firmly embedded in the national psyche. We must recognise that it is embedded for good reasons. When people came to me for advice about the magistrates system, one of their anxieties was the fact that the magistrates court has evolved from police courts. Many defendants still view them as police courts. They know that the magistrates see the same police officers who come before them to give evidence on a weekly basis and that there is often some sort of relationship between them; nothing improper, Llywydd, but based on the fact that they see each other regularly. Greater credence may be given to the police officers' evidence on that basis.

Nid yn unig y mae'n rhaid sicrhau cyfiawnder, rhaid iddo fod yn weladwy. Mae hynny'n taro tant. Ni fydd erydu'r hawl i dreial gerbron rheithgor yn cael ei drin yn ysgafn gan bobl pan fo'r safbwynt hwn wedi ei wreiddio mor ddwfn yn y seice cenedlaethol. Rhaid inni gydnabod ei fod wedi ymwreiddio am resymau da. Pan ddeuai pobl ataf fi am gyngor ynglŷn â'r system ynadon, un o'u pryderon oedd y ffaith fod y llys ynadon wedi esblygu o lysoedd yr heddlu. Mae llawer o ddiffynyddion yn dal i'w hystyried yn llysoedd yr heddlu. Gwyddant fod yr ynadon yn gweld yr un heddweision yn dod ger eu bron i roi tystiolaeth yn wythnosol ac yn aml mae rhyw berthynas rhyngddynt; dim byd amhriodol, Lywydd, ond yn deillio o'r ffaith eu bod yn gweld ei gilydd yn rheolaidd. Gellir rhoi mwy o goel ar dystiolaeth heddweision ar y sail honno.

Many defendants become known to the magistrates because they regularly appear in court. They should not be prejudiced for that reason. I could mention other reasons but time is limited. I shall finish by emphasising that the right to jury trial is firmly valued as an inalienable and ancient right by the people of Britain. They do not wish to see it eroded. I share that view and I do not wish to see it eroded in the way envisaged in this legislation.

Yn erbyn yr holl fanteision yr wyf wedi eu crybwyll, beth yw'r anfanteision a nodir gan ymgynghorwyr proffesiynol y Prif Ysgrifennydd, fel a ddyfynnwyd yn ei lythyr imi? Nid oes ond dau. Un yw na cheid gwelliant sylweddol mewn perfformiad uwchlaw 90 milltir yr awr, o ystyried y bwlch rhwng gorsafoedd a ffactorau daearyddol. Gobeithiaf y bydd y pwyntiau yr wyf wedi eu gwneud ynglŷn â manteision amgylcheddol, bod yn ddibynadwy, costau is a gwell defnydd o gyfalaf, yn dangos bod yna ddadl groes i'r hyn a roddwyd gan ymgynghorwyr proffesiynol y Prif Ysgrifennydd sydd yn dangos natur dwyllodrus y gwrthwynebiad hwn. Er enghraifft, yn ne-ddwyrain Lloegr, mae'r gorsafoedd yn agos at ei gilydd ond mae'r llinellau wedi eu trydaneiddio. Pam, ys gwn i? Eto i gyd, ar linell Euston i Crewe, mae'r gorsafoedd yn bell oddi wrth ei gilydd. Nid oes gorsaf rhwng Milton Keynes a Rugby os teithiwch chi ar linell uniongyrchol oni bai, wrth gwrs, eich bod yn mynd o amgylch dolen Northampton. Caewyd gorsaf Wolverhampton ynghyd â'r hen orsafoedd bach ar y ffordd. Ond, mae wedi ei thrydaneiddio. Nid wyf yn deall y ddadl arbennig hon. Soniwch am 90 milltir yr awr, pan fo gennym gyflymdra ar gyfartaledd o 47 milltir yr awr, felly mae gennym ffordd bell i fynd.

Secondly, the First Secretary's professional advisers talk about disruption and lengthy delays. Lengthy delays will only happen if the programme is not properly monitored and planned. That is something that we often manage to do in the United Kingdom. However, if it is done properly there is no

Yn ail, mae ymgynghorwyr proffesiynol y Prif Ysgrifennydd yn sôn am darfu ac am oedi hir. Dim ond os na chaiff y rhaglen ei monitro a'i chynllunio'n iawn y ceir oedi hir. Mae hynny yn rhywbeth yr ydym yn llwyddo i'w wneud yn aml yn y Deyrnas Unedig. Fodd bynnag, os caiff ei wneud yn iawn nid

reason to have lengthy delays. There will, of course, be some disruption, but not like the west coast electrification, because we are referring to electrification, not a completely new system and the rebuilding of the line. Although I would like to argue for that, I will at this stage limit my arguments to electrification. It can be done. It does not require any lengthy planning process. We have money from Objective 1.

oes rheswm i gael oedi hir. Ceir rhywfaint o darfu, wrth reswm, ond dim byd tebyg i'r trydaneiddio ar arfordir y gorllewin, oherwydd yr ydym ni'n sôn am drydaneiddio, nid system cwbl newydd ac ailadeiladu'r lein. Er yr hoffwn i ddadlau o blaid hynny, cyfyngaf fy nadleuon ar hyn o bryd i drydaneiddio. Gellir ei wneud. Nid yw'n golygu unrhyw broses gynllunio faith. Mae gennym arian o Amcan 1.

Incidentally, why are we as an Assembly—I do not know who will reply to this; it might be Peter Law—paying for 90 miles per hour running and upgrading, when it was a Railtrack plan some years ago and they were going to finance it on their own? Why should we provide money for Railtrack when it should be financing the scheme itself? I do not have the answer to that question, but I would welcome it, Peter, if you could look into that and send me an e-mail or letter if you can supply such an answer.

Gyda llaw, pam ydym ni fel Cynulliad—dwn i ddim pwy a fydd yn ateb hyn, Peter Law efallai—yn talu am redeg ac uwchraddio i 90 milltir yr awr, pan oedd yn gynllun gan Railtrack rai blynyddoedd yn ôl ac yr oeddent yn mynd i'w gyllido eu hunain? Pam ddylem ni roi arian i Railtrack pan ddylai fod yn cyllido'r cynllun ei hun? Nid oes gennyf ateb i'r cwestiwn hwn, ond byddwn yn ddiolchgar, Peter, pe baech yn ymchwilio i hyn ac yn anfon e-bost neu lythyr ataf os gallwch gael ateb o'r fath.

Turning back to Objective 1, electrification of the line would cost about £130 million. Approximately half of that would come from Europe. Railtrack should provide a goodly sum. This Assembly could perhaps contribute £20 or £30 million. Is £20 million a lot of money? It is equivalent to about 10 miles of dual carriageway or motorway. We can spend hundreds of millions of pounds on building dual carriageways and six-lane highways, and there is no problem with funding. However, when you want to electrify a railway line that will improve the conditions and services that north Wales can expect, and improve its ability to attract economic development, that seems to be too much to pay.

A throi yn ôl at Amcan 1, byddai trydaneiddio'r lein yn costio tua £130 miliwn. Deuai tua hanner hynny o Ewrop. Dylai Railtrack ddarparu swm reit dda. Efallai y gallai'r Cynulliad hwn gyfrannu £20 neu £30 miliwn. A yw £20 miliwn yn llawer o arian? Mae'n cyfateb i oddeutu 10 milltir o ffordd ddeuol neu draffordd. Gallwn wario cannoedd o filiynau o bunnoedd ar greu ffyrdd deuol a ffyrdd chwe-lôn, ac nid oes problem gyllido. Fodd bynnag, pan fyddwch am drydaneiddio lein reilffordd a fydd yn gwella'r amodau a'r gwasanaethau y gall gogledd Cymru eu disgwyl, a gwella ei gallu i ddenu datblygiad economaidd, mae'n ormod i'w dalu yn ôl pob golwg.

Finally, we read in the papers yesterday that Railtrack has proposed—or so it said in the newspaper—a complete revamp of the line between Paddington and Cardiff. I do not wish this plan any ill whatsoever. The trains would run at 160 miles per hour, offering a half-hourly service between Paddington and Cardiff. What have we got in north Wales? The trains run at 47 miles per hour. There are currently three trains a day, but when Virgin's plans come to fruition that will increase to six. I suggest that, with electrification, we could look forward to a clock-face timetable.

Yn olaf, darllenasom yn y papurau ddoe fod Railtrack wedi awgrymu—neu felly y dywedai yn y papur newydd—ailwampio'r lein rhwng Paddington a Chaerdydd yn llwyr. Nid wyf yn dymuno unrhyw ddrwg o gwbl i'r cynllun hwn. Byddai'r trenau yn rhedeg ar 160 milltir yr awr, gan gynnig gwasanaeth bob hanner awr rhwng Paddington a Chaerdydd. Beth sydd gennym ni yng ngogledd Cymru? Mae'r trenau yn rhedeg ar 47 milltir yr awr. Ar hyn o bryd mae tri thrên y diwrnod, ond pan wireddir cynlluniau Virgin bydd hynny'n cynyddu i chwech. O drydaneiddio, awgrymaf y gallem edrych

ymlaen at amserlen wyneb-cloc.

I am pleased that the administration is moving somewhat in our direction. I was surprised that Mike German's amendment 5 was adopted today, but I am grateful for this slight movement. However, if we are to unify the country, we must not let north Wales people think that they are second best or forgotten and that all developments come to south Wales. North Wales needs something and it would be good if the Assembly could take this on board as an Objective 1 programme that would start in a few months. That would go a long way towards unifying north and south Wales. However, my case rests on the economics and merits of the argument itself.

Yr wyf yn falch bod y weinyddiaeth yn symud fymryn i'n cyfeiriad. Synnais fod gwelliant 5 gan Mike German wedi ei dderbyn heddiw, ond yr wyf yn ddiolchgar am y mân symudiad hwn. Fodd bynnag, os ydym i uno'r wlad, rhaid inni beidio â gadael i bobl gogledd Cymru feddwl eu bod yn ail orau neu wedi eu hanghofio ac mai i dde Cymru y daw pob datblygiad. Mae ar ogledd Cymru angen rhywbeth a byddai'n dda o beth pe bai'r Cynulliad yn ymgymryd â hyn fel rhaglen Amcan 1 a fyddai'n dechrau o fewn ychydig fisoedd. Byddai hynny'n mynd yn bell tuag at uno gogledd a de Cymru. Fodd bynnag, mae fy achos yn gorffwys ar economeg a haeddiant y ddadl ei hun.

5:09 p.m.

Janet Ryder: I will touch on freight transport and the use of Objective 1 money, which John has not mentioned. Objective 1 money could be used to provide piggy-back rail route links from Holyhead to the west coast main line and channel tunnel; Holyhead to the piggy-back link across the Pennines to the major east coast main line and ports; and Holyhead to the brand new piggy-back rail route proposed by Central Railways, running from the north west and Yorkshire to the channel tunnel.

Janet Ryder: Yr wyf am gyffwrdd â chludiant nwyddau a defnyddio arian Amcan 1, nad yw John wedi eu crybwyll. Gellid defnyddio arian Amcan 1 i ddarparu cysylltiadau rheilffordd mynd-yn-sgîl o Gaergybi i brif lein arfordir y gorllewin a thwnel y sianel; Caergybi i'r cyswllt mynd-yn-sgîl ar draws y Penwynion i brif lein arfordir y dwyrain a'r porthladdoedd; a Chaergybi i'r llwybr rheilffordd mynd-yn-sgîl newydd sbon sydd yn cael ei awgrymu gan Central Railways, i redeg o'r gogledd orllewin a Swydd Efrog i dwnel y sianel.

If this was developed and linked into the UK strategic network proposed by the rail freight group, it would allow a massive transfer of larger trucks with nine foot containers to rail links along the north Wales coast. That would have a big impact on the road system there. It would promote economic links with Ireland; boost enormously the use of Holyhead to serve the needs of the booming Irish economy; and provide roll-on, roll-off piggy-back facilities at the port side. It would also allow the manufacturing industry in north Wales easy access to low-cost international links, while achieving major environmental benefits. It would be a key element in attracting manufacturing and distribution operations. Without the link, north Wales would be at a serious disadvantage compared to England, given the developments taking place there.

Pa câi hyn ei ddatblygu a'i gysylltu â'r rhwydwaith strategol i'r DU sydd yn cael ei awgrymu gan y grŵp cludo nwyddau ar y rheilffyrdd, byddai'n caniatáu trosglwyddo nifer enfawr o loriau mwy gyda chynwysyddion naw troedfedd i gysylltiadau rheilffordd ar hyd arfordir gogledd Cymru. Byddai hynny'n effeithio'n fawr ar y system ffyrdd yno. Byddai'n hybu cysylltiadau economaidd gydag Iwerddon, yn rhoi hwb enfawr i ddefnyddio Caergybi i wasanaethu anghenion economi llewyrchus Iwerddon ac yn darparu cyfleusterau mynd-yn-sgîl gyrru ymlaen ac i ffwrdd ar lan y porthladd. Byddai hefyd yn rhoi mynediad hawdd at gysylltiadau cludiant rhyngwladol cost-isel i'r diwydiant gweithgynhyrchu yng ngogledd Cymru, tra'n cyflawni manteision amgylcheddol sylweddol. Byddai'n elfen allweddol er denu gweithfeydd

gweithgynhyrchu a dosbarthu. Heb y cyswllt hwn, byddai gogledd Cymru yn wynebu anfantais ddifrifol o'i chymharu â Lloegr, o gofio'r datblygiadau sydd ar waith yno.

The use of Objective 1 and 2 moneys must be considered to provide freight and warehousing complexes with low-cost, flexible container handling facilities linked to the north Wales main line and onwards to the west coast main line at Crewe. They would have to have easy access to the main north-south Wales link via Wrexham, Shrewsbury and Hereford.

Rhaid ystyried defnyddio arian Amcan 1 a 2 i ddarparu canolfannau cludo nwyddau a warysau gyda chyfleusterau hyblyg, cost-isel i ymdrin â chynwysyddion, sydd wedi eu cysylltu â phrif lein gogledd Cymru ac ymlaen i brif lein arfordir y gorllewin yn Crewe. Byddai'n rhaid iddynt gael mynediad hawdd i'r brif ddolen gyswllt rhwng gogledd a de Cymru drwy Wrecsam, yr Amwythig a Henffordd.

The new Euro-freight terminal being built in south Wales could be mirrored in north Wales, in Shotton, for example, next to the tinplate works and the pulp and paper processing complex, or in Mostyn docks, which are developing major new trade links. The complexes would boost the use of rail to transport bulky raw materials such as steel coil, timber and aggregates, and finished goods such as pulp, paper, chipboard, processed timber, tinplate, coated steel, car components and a whole range of goods. Another location could be at Holyhead for a break bulk and groupage centre to serve the combined Irish, Welsh and English markets with direct services to the channel tunnel and the east coast ports.

Gallai'r derfynfa Ewro-gludiant newydd ar gyfer nwyddau sydd yn cael ei chodi yn ne Cymru gael ei hadlewyrchu yng ngogledd Cymru, yn Shotton, er enghraifft, drws nesaf i'r gwaith tunplat a'r gwaith prosesu mwydion a phapur, neu yn nociau Mostyn, sydd yn datblygu cysylltiadau masnach newydd o bwys. Byddai'r canolfannau yn hybu defnyddio'r rheilffyrdd i gludo deunyddiau crai swmpus fel coiliau dur, coed ac agregau, a nwyddau gorffenedig fel mwydion, papur, sglodfyrddau, coed wedi eu prosesu, tunplat, dur haenedig, cydrannau ceir ac amrywiaeth eang o nwyddau. Byddai Treffynnon yn lleoliad arall i ganolfan swmp wahanu a grwpio i wasanaethu marchnadoedd cyfun Iwerddon, Cymru a Lloegr gyda gwasanaethau uniongyrchol i dwnel y sianel a phorthladdoedd arfordir y dwyrain.

If we do not consider developing such complexes in north Wales, then it will be at a serious locational disadvantage compared to England and south Wales.

Os na fyddwn yn ystyried datblygu canolfannau o'r fath yng ngogledd Cymru, yna bydd yn wynebu anfanteision difrifol o ran lleoliad o'i chymharu â Lloegr a de Cymru.

Alun Pugh: Just before Christmas, I attended a safety and signalage seminar in Cardiff, where I saw the state of the art European computer standard for railway signalling. The north Wales line is a key European transport artery, and a vital part of travel infrastructure for leisure and business travellers. However, it still uses paraffin-fuelled Victorian semaphore signalling. I am not saying that that is unsafe, but I question the appropriateness of nineteenth century technology in the twenty-first century. We

Alun Pugh: Ychydig cyn y Nadolig, bûm mewn seminar diogelwch a signalau yng Nghaerdydd, lle gwelais y safon gyfrifiadurol Ewropeaidd ddiweddaraf un ar gyfer signalau rheilffyrdd. Mae rheilffordd gogledd Cymru yn brif wythïen drafnidiaeth Ewropeaidd, ac yn rhan holl bwysig o'r seilwaith teithio i deithwyr hamdden a busnes. Fodd bynnag, mae'n dal i ddefnyddio signalau semaffor Fictoraidd sydd yn gweithio ar baraffîn. Nid wyf yn dweud bod hynny'n anniogel, ond yr wyf yn amau pa mor briodol yw technoleg y

need two things. First, we need an upgrade to modern standards for passengers and, I agree with Janet, freight, in order to remove traffic from the A55. Secondly, we must examine the possibility of creating some branch halts along the lines for the possible stopping of trains in locations such as Kinmel Bay. If we were clever, we could integrate those additional branch stops with the successful coastal cycle path. That would be good for green tourism and would provide people with a viable alternative to what was once called ‘the great car economy’.

bedwaredd ganrif ar bymtheg yn yr unfed ganrif ar hugain. Mae angen dau beth arnom. Yn gyntaf, mae angen gwella hyd at safonau modern ar gyfer teithwyr a, cytunaf gyda Janet, chludiant nwyddau, er mwyn tynnu traffig oddi ar yr A55. Yn ail, rhaid inni edrych ar y posibilrwydd o greu rhai arosfeydd cangen ar hyd y llinellau fel ei bod yn bosibl stopio trenau mewn mannau fel Bae Cinmel. Pe baem yn glyfar, gallem integreiddio’r arosfeydd cangen ychwanegol hyn gyda llwybr beicio llwyddiannus yr arfordir. Byddai hynny’n dda i dwristiaeth werdd a byddai’n rhoi dewis amgen dichonadwy i’r hyn a elwid unwaith yn ‘economi gwych y car’.

Peter Rogers: We have been lucky to have John, with his astute knowledge, leading the group on the railways. I was lucky to be travelling from Paddington to Cardiff this morning and to enjoy the brilliant comfort and luxury of that train service.

Peter Rogers: Buom yn lwcus i gael John, gyda’i wybodaeth graff, i arwain y grŵp ar y rheilffyrdd. Yr oeddwn yn lwcus i fod yn teithio o Paddington i Gaerdydd y bore yma ac i fwynhau cysur a moethusrwydd ardderchog y gwasanaeth hwnnw.

When I became an Assembly Member, I, like other people, started to come down to Cardiff on the north Wales train. It was an excruciating journey, which can be driven more quickly and in greater comfort. I support the call to improve the north-south rail link. There is no escaping the fact that the service is mainly for the convenience of those who live in Hereford and Shrewsbury or the Marches, where the train stops frequently. It does not serve the needs of the people whom we represent and for whom a journey by rail to the other end of Wales is a frustrating and time consuming experience. How can we serve the needs of Wales adequately if we do not have an effective transport network that links north and south? With the assistance of Objective 1 money it is important that we electrify the railway link from Holyhead across north Wales, that we upgrade the bridges and ensure that container traffic can reach the rest of Europe. The railway link must be established from north to south. We must ensure that it passes through Wrexham so that that city also has the benefit of creating—

Pan ddeuthum yn Aelod o’r Cynulliad, dechreuais i, fel llawer o bobl eraill, ddod i lawr i Gaerdydd ar drên gogledd Cymru. Yr oedd yn siwrnai arteithiol, y gellir ei chwblhau’n gyflymach a mwy cyfforddus drwy yrru. Cefnogaf yr alwad am wella’r cyswllt rheilffordd rhwng y gogledd a’r de. Nid oes dianc rhag y ffaith mai gwasanaeth er hwylustod y rheini sydd yn byw yn Henffordd a’r Amwythig neu’r Gororau yw hwn yn bennaf, ac mae’r trên yn stopio’n fynych yno. Nid yw’n gwasanaethu anghenion y bobl yr ydym yn eu cynrychioli, y mae siwrnai ar drên i ben arall Cymru yn brofiad llawn rhwystredigaeth iddynt sydd yn cymryd llawer iawn o amser. Sut y medrwn ni wasanaethu anghenion Cymru’n ddigonol os nad oes gennym rwydwaith trafnidiaeth effeithiol sydd yn cydgysylltu’r gogledd a’r de? Gyda chymorth arian Amcan 1 mae’n bwysig ein bod yn trydaneiddio’r rheilffordd o Gaergybi ar draws gogledd Cymru, ein bod yn gwella pontydd a sicrhau y gall traffig cynwysyddion gyrraedd gweddill Ewrop. Rhaid sefydlu’r cyswllt rheilffordd rhwng y gogledd a’r de. Rhaid inni sicrhau ei fod yn mynd drwy Wrecsam, fel bod i’r ddinas honno hefyd y fantais o greu—

The Presiding Officer: Order. I am interested in this topic but we must move on.

Y Llywydd: Trefn. Mae gennyf ddiddordeb yn y pwnc hwn ond rhaid inni symud ymlaen.

Christine Humphreys: I thank those colleagues from south Wales who have stayed to listen to this short debate. Your implicit moral support is welcome. I only have a short contribution. Due to an engagement in north Wales tomorrow, I must catch the 5.45 p.m. train from Cardiff Central Station. I feel a victim of train timetables and in approximately five minutes the taxi meter will be running and so will I.

Christine Humphreys: Diolchaf i'r cyd-Aelodau hynny o dde Cymru sydd wedi aros i wrando ar y ddadl fer hon. Croesawir y gefnogaeth foesol sydd ymhlyg yn hynny. Cyfraniad byr yn unig sydd gennyf. Oherwydd ymrwymiad yng ngogledd Cymru yfory, mae'n rhaid imi ddal y trên 5.45 p.m. o Orsaf Canol Caerdydd. Teimlaf fy mod ar drugaredd amserlenni trenau ac ymhen rhyw bum munud bydd mesurydd y tacsi yn rhedeg a minnau hefyd.

John Marek referred to Alun's letter dated 5 January. I was interested to read in that letter that Virgin Trains are taking over some of the First North Western routes to London. Virgin Trains has invested in new rolling stock to use the line and to take advantage of the increased line speeds on the north Wales coast line. This will make Virgin Trains the dominant operator on the line.

Cyfeiriodd John Marek at lythyr Alun dyddiedig 5 Ionawr. Diddorol i mi oedd darllen yn y llythyr hwnnw fod Virgin Trains yn cymryd drosodd rhai o lwybrau First North Western i Lundain. Mae Virgin Trains wedi buddsoddi mewn trenau newydd i ddefnyddio'r lein ac i fanteisio ar y cyflymdra newydd ar lein arfordir gogledd Cymru. Virgin Trains wedyn fydd y prif gwmni gweithredu ar y llinell.

What I have to say may sound slightly like the tales of a seasoned traveller, but that is now the case. You may be aware that Virgin Trains run the London to Holyhead route. If I were to take an earlier train today I would have to change at Crewe and would then probably meet the London to Holyhead train. Changing at Crewe and catching that train means that I would have to wait for the train's engine to be changed because the line from Crewe onwards is not electrified. It is acceptable most of the time, but if you try to catch that train when an extra engine is not available, you would be far better off waiting to catch the 5.45 p.m. train from Cardiff. I agree with John Marek and support all of the economic and environmental benefits that would come from electrification.

Efallai fod yr hyn sydd gennyf i'w ddweud yn swnio braidd fel straeon rhywun sydd yn hen law ar deithio, ond dyna yw'r gwir erbyn hyn. Efallai eich bod yn gwybod mai Virgin Trains sydd yn rhedeg llwybr Llundain i Gaergybi. Pe bawn i'n cymryd trên cynharach heddiw byddai'n rhaid imi newid yn Crewe ac mae'n debyg y byddwn wedyn yn cwrdd â thrên Llundain i Gaergybi. Mae newid yn Crewe a dal y trên hwnnw yn golygu y byddai'n rhaid imi ddisgwyl i injan y trên gael ei newid gan nad yw'r lein o Crewe ymlaen wedi ei thrydaneiddio. Mae'n dderbyniol y rhan fwyaf o'r amser, ond os ceisiwch ddal y trên hwnnw pan nad oes injan ychwanegol ar gael, byddai'n llawer gwell ichi ddisgwyl a dal y trên 5.45 p.m. o Gaerdydd. Cytunaf â John Marek a chefnogaf yr holl fanteision economaidd ac amgylcheddol a ddeuai yn sgîl trydaneiddio.

The Post-16 Education and Training Committee will meet in Llandudno next month. I have already had queries from members of the Committee who live in south Wales about the best route to Llandudno. Catching the 5.45 p.m. train is my best suggestion because you do not have to change trains.

Bydd y Pwyllgor Addysg a Hyfforddiant Ôl-16 yn cwrdd yn Llandudno fis nesaf. Mae aelodau o'r Pwyllgor sydd yn byw yn ne Cymru eisoes wedi bod yn gofyn imi am y ffordd orau i Landudno. Dal y trên 5.45 p.m. yw fy awgrym gorau i gan nad oes raid ichi newid trenau.

The Secretary for the Environment and

Ysgrifennydd yr Amgylchedd a

Local Government (Peter Law): I am pleased to respond on the issue of this important railway line. It is not only one of John Marek's most sincere concerns—and I respect that—it is something that has attracted the interest of many Assembly Members. Not surprisingly, the north coast main line is a vital link between rural north Wales and the employment and business opportunities of the east. It is the link used by visitors to our important coastal resorts and the major conference facilities in Llandudno. The line also looks westwards to draw tourism and business from Ireland through the port of Holyhead. Not least, it is an essential stretch of the route between north and south Wales. This is why I recommended to the Environment and Local Government Committee this morning that we should regard the north coast main line as one of the routes of prime national importance as regards our aspirations for the forthcoming franchise negotiations. This is an important time and I am encouraged that we will progress on this.

Llywodraeth Leol (Peter Law): Yr wyf yn falch o ymateb ar fater y rheilffordd bwysig hon. Nid yn unig y mae'n un o bryderon mwyaf diffuant John Marek—a pharchaf hynny—ond mae'n rhywbeth sydd wedi ennyn diddordeb llawer o Aelodau'r Cynulliad. Nid yw'n syndod bod prif lein arfordir y gogledd yn gyswllt holl bwysig rhwng gogledd Cymru wledig a chyfleoedd cyflogaeth a busnes y dwyrain. Dyma'r cyswllt a ddefnyddir gan ymwelwyr â'n canolfannau gwyliau glan môr pwysig a'r cyfleusterau cynadledda o bwys yn Llandudno. Mae'r lein hefyd yn edrych tua'r gorllewin i ddenu twristiaeth a busnes o Iwerddon drwy borthladd Caergybi. Nid yn lleiaf, mae'n ddarn hanfodol o'r llwybr rhwng gogledd a de Cymru. Dyna pam yr argymhellais i Bwyllgor yr Amgylchedd a Llywodraeth Leol y bore yma y dylem ystyried prif lein arfordir y gogledd fel un o'r llwybrau sydd o'r pwys cenedlaethol pennaf o safbwynt ein dyheadau ynglŷn â'r trafodaethau sydd i'w cynnal yn fuan ar ryddfreintiau. Mae hwn yn amser pwysig ac yr wyf yn obeithiol y byddwn yn symud ymlaen.

You will know that Sir Alastair Morton has invited proposals for new franchises and these include innovative proposals for Wales. We have seen some of the early responses today. Improved services along the north coastline will be an important element in the packages that I hope will be secured in the franchise discussions, in which the Assembly is playing a full part. The SRA met the Environment and Local Government Committee today to discuss the franchise process. The SRA encourages open consultation at each stage of negotiations. The Assembly will host the consultation meetings in Wales, which the SRA will put in train as soon as it has announced which pre-qualified bids it intends to take forward for further work. I sincerely hope that we will be in the second tranche of franchises and that these new franchises will be in place from 2001. That is the message I have given the SRA today and I am grateful to the Environment and Local Government Committee for endorsing that.

Gwyddoch fod Syr Alastair Morton wedi gwahodd cynigion am ryddfreintiau newydd ac mae'r rhain yn cynnig cynigion arloesol i Gymru. Yr ydym wedi gweld rhai o'r ymatebion cynnar heddiw. Byddai gwell gwasanaethau ar hyd arfordir y gogledd yn elfen bwysig yn y pecynnau y gobeithiaf y'u sicrheir drwy'r trafodaethau ar ryddfreintiau, y mae'r Cynulliad yn chwarae rhan lawn ynddynt. Cyfarfu'r Awdurdod Rheilffyrdd Strategol a Phwyllgor yr Amgylchedd a Llywodraeth Leol heddiw i drafod proses y rhyddfreintiau. Mae'r Awdurdod yn annog ymgynghori agored ar bob cam o'r trafodaethau. Y Cynulliad fydd yn noddi'r cyfarfodydd ymgynghori yng Nghymru, ac fe'u sefydlir gan yr Awdurdod Strategol cyn gynted ag y bydd wedi cyhoeddi pa fidiau cyn-cymhwyso y mae'n bwriadu eu cadw ar gyfer gwaith pellach. Mawr obeithiaf y byddwn ni yn yr ail garfan o ryddfreintiau ac y bydd y rhyddfreintiau newydd hyn yn eu lle o 2001 ymlaen. Dyna'r neges a roddais i'r Awdurdod Strategol heddiw ac yr wyf yn ddiolchgar i Bwyllgor yr Amgylchedd a Llywodraeth Leol am gadarnhau hynny.

5:19 p.m.

Good services must be supported by good infrastructure. The Assembly has recognised the importance of the north coast main line and has committed £0.5 million, which together with the £600,000 provided by Railtrack, will improve the line speed between Bangor and Chester to a maximum of 90 miles-per-hour. That is important. John Marek asked why the Assembly is paying for this. I only picked up this brief last May. I am not saying ‘guilty but insane’, but the fact is that we work in the real world. I work with what I have and I think that if you cross Railtrack’s palm with silver it will move much quicker. To get the people of north Wales the service they want, it is right that we work in partnership with Railtrack and get it moving so that line speed is increased. That will bring significant improvements to journey time, bringing the journey between Bangor and Chester down to less than one hour. We must work on that. Virgin Trains can then make best use of the new, faster rolling stock that they have bought for this route. I do not want it to be a Cinderella line. I am determined that it will not be. It will not be a bits and pieces operation. That is my commitment as Assembly Secretary with responsibility for transport. We are moving forward positively and using this new franchise to ensure that we will have quality services running regularly and that we utilise that line to the full.

Yn gefn i wasanaethau da rhaid wrth seilwaith da. Mae’r Cynulliad wedi cydnabod pwysigrwydd prif lein arfordir y gogledd ac wedi rhwymo £0.5 miliwn a fydd, ynghyd â’r £600,000 a ddarperir gan Railtrack, yn gwella cyflymdra’r lein rhwng Bangor a Chaer i uchafswm o 90 milltir yr awr. Mae hynny’n bwysig. Gofynnodd John Marek pam fod y Cynulliad yn talu am hyn. Dim ond fis Mai diwethaf y cydiais i yn y brîff hwn. Nid wyf yn dweud ‘euog ond gorffwyll’, ond y gwir yw ein bod yn gweithio yn y byd sydd ohono. Yr wyf fi’n gweithio gyda’r hyn sydd gennyf ond, drwy iro llaw Railtrack, credaf y bydd yn symud yn llawer cyflymach. Er mwyn cael y gwasanaeth y maent ei eisiau i bobl gogledd Cymru, mae’n briodol ein bod yn gweithio mewn partneriaeth gyda Railtrack a’i gael i symud fel bod cyflymdra’r lein yn cynyddu. Bydd hynny’n cwtogi amser siwrneiau’n sylweddol gan ddod â’r siwrnai rhwng Bangor a Chaer i lawr i lai nag awr. Rhaid inni weithio ar hynny. Gall Virgin Trains wedyn wneud y defnydd gorau o’r trenau cyflymach, newydd y maent wedi eu prynu ar gyfer y llwybr hwn. Nid wyf am iddi fod yn lein Sinderela. Yr wyf yn benderfynol na fydd. Ni fydd yn ymgymeriad tameidiog. Dyna fy addewid fel yr Ysgrifennydd yn y Cynulliad sydd yn gyfrifol am drafnidiaeth. Yr ydym yn symud ymlaen ac yn defnyddio’r rhyddfraint newydd hon i sicrhau y bydd gennym wasanaethau o safon yn rhedeg yn rheolaidd a’n bod yn defnyddio’r lein i’w heithaf.

The line speed projects represent the sort of partnership between public and private investment that I want to encourage. Railtrack retains the main responsibility for funding major infrastructure projects. However, we have a role in supporting feasibility work, which encourages this infrastructure investment to take place. For example, we lead studies that convince private investors of the great benefits which may accrue from improving rail in Wales. Whatever we do we must keep value for money for the public purse in mind. Infrastructure improvements do not come cheap. The Assembly will find what resources it can within its budgets, but we cannot and should not fund major structural

Mae’r prosiectau ar gyflymdra llinellau’n cynrychioli’r math o bartneriaeth rhwng buddsoddiadau cyhoeddus a phreifat yr wyf am ei hannog. Railtrack sydd yn dal yn bennaf gyfrifol am gyllido prosiectau seilwaith mawr. Fodd bynnag, mae gennym rôl i gefnogi gwaith dichonolrwydd, sydd yn annog buddsoddiad seilwaith i fynd rhagddo. Er enghraifft, yr ydym yn arwain astudiaethau sydd yn argyhoeddi buddsoddwyr preifat o’r manteision mawr a allai ddeillio o wella’r rheilffyrdd yng Nghymru. Beth bynnag a wnawn, rhaid inni gofio cael gwerth am arian i’r pwrs cyhoeddus. Ni cheir gwelliannau seilwaith yn rhad. Bydd y Cynulliad yn canfod yr adnoddau a all oddi mewn i’w gyllidebau,

projects.

ond ni allwn ac ni ddylem gyllido prosiectau strwythurol mawr.

John Marek has suggested that we should press for electrification of the north coast main line. I have listened to and I respect his views and those of his little rail group in the north. It makes a useful contribution, which helps me to an extent. John suggested a £130 million investment, which he hopes will be partly met by European Objective 1 funding. Objective 1 funding has been promised to Wales to support sustainable economic development and regeneration. Package proposals may include elements of infrastructure improvements, but they will need to demonstrate clearly how they can offer broader benefits. I expect that the economic case for large infrastructure projects will need to be very strong for them to have any chance of qualifying for such support. Assuming that some source of funding—whether from Europe or the private sector—is available to complement the Assembly's limited funds we then need to consider what concrete improvements electrification would offer. John has argued that we should invest in this project, not least because the line runs as an offshoot of the west coast main line to Glasgow, which is currently being electrified. That electrification of the north coast main line would bring some improvements to services is undeniably true. However, we must ask ourselves whether—given the significant external investment and Assembly funds which might be called upon—electrification would bring sufficient improvement to services over and above what we are already achieving through our line speed projects. I am not convinced that it would. I said that in committee this morning. The advice that I have received suggests that because of the distances between stations and other geographical factors electrification would not enable trains to travel significantly faster.

Mae John Marek wedi awgrymu y dylem bwyso am drydaneiddio prif lein arfordir y gogledd. Yr wyf wedi gwrando a pharchaf ei farn a barn ei grŵp rheilffyrdd bychan yn y gogledd. Mae'n gwneud cyfraniad buddiol, sydd yn help imi i raddau. Awgrymodd John fuddsoddiad o £130 miliwn, i'w gyllido yn rhannol y mae'n gobeithio gan gyllid Ewropeaidd Amcan 1. Mae cyllid Amcan 1 wedi ei addo i Gymru i gefnogi adfywio a datblygu economaidd cynaliadwy. Gall cynigion pecyn gynnwys elfennau o welliannau seilwaith, ond bydd rhaid iddynt ddangos yn glir sut y gallant gynnig manteision ehangach. Credaf y bydd yn rhaid i'r achos economaidd o blaid prosiectau seilwaith mawr fod yn gryf iawn cyn y bydd ganddynt unrhyw obaith o fod yn gymwys i gael cefnogaeth o'r fath. A chymryd bod rhyw ffynhonnell gyllid—boed o Ewrop neu'r sector preifat—ar gael i'w hychwanegu at arian cyfyngedig y Cynulliad, mae angen wedyn inni ystyried pa welliannau pendant y byddai trydaneiddio yn eu cynnig. Mae John wedi dadlau y dylem fuddsoddi yn y prosiect hwn, nid leiaf gan fod y lein yn rhedeg fel cangen oddi ar brif lein arfordir y gorllewin i Glasgow, sydd yn cael ei thrydaneiddio ar hyn o bryd. Ni ellir gwadu y byddai trydaneiddio prif lein arfordir y gogledd yn dod â rhai gwelliannau i wasanaethau. Fodd bynnag, rhaid inni holi ein hunain a fyddai trydaneiddio—o gofio'r buddsoddiad allanol sylweddol ac arian o du'r Cynulliad y byddai galw amdano—yn gwella'r gwasanaethau'n ddigonol tu hwnt i'r hyn yr ydym yn ei gyflawni eisoes drwy ein prosiectau ar gyflymdra llinellau. Nid wyf wedi fy argyhoeddi y byddai. Dywedais hynny yn y pwyllgor y bore yma. Mae'r cyngor yr wyf wedi ei dderbyn yn awgrymu na fyddai trydaneiddio yn galluogi trenau i deithio'n gyflymach i raddau sylweddol, oherwydd y pellter rhwng gorsafoedd a ffactorau daearyddol eraill.

Alun Pugh is a great champion for the rail user in north Wales. I respect his approach, but more halts need careful consideration, because otherwise there may come a time when the local train does not get out of first gear.

Mae Alun Pugh yn llefarydd brwd dros ddefnyddwyr trenau gogledd Cymru. Yr wyf yn parchu ei safiad, ond mae angen ystyriaeth fanwl cyn sefydlu mwy o arosfeydd, oherwydd fel arall efallai y daw amser pan na fydd y trên lleol yn newid o'r gêr cyntaf.

Train operators have told me of their concerns about disruption to services during the long time it would take to electrify the line. Our priority must be to make an input into projects that could have a real impact for the benefit of north Wales. There are alternative projects for improving the north coast main line that would bring greater benefits to the passengers, businesses and to the wider community. I assure you that I intend to pursue these vigorously with Railtrack, the train operating companies and the Strategic Rail Authority.

Mae gweithredwyr trenau wedi dweud wrthyf am eu pryderon y byddai tarfu ar wasanaethau yn ystod y cyfnod hir y byddai'n ei gymryd i drydaneiddio'r lein. Rhaid inni fel blaenoriaeth gyfrannu at brosiectau a allai gael effaith wirioneddol er budd gogledd Cymru. Mae yna brosiectau amgen i wella prif lein arfordir y gogledd a fyddai'n dod â mwy o fanteision i'r teithwyr, busnesau ac i'r gymuned ehangach. Gallaf eich sicrhau fy mod yn bwriadu mynd ar drywydd y rhain yn egnïol gyda Railtrack, cwmnïau gweithredu'r trenau a'r Awdurdod Rheilffyrdd Strategol.

5:25 p.m.

One project is to develop the potential of the north coast main line to support modern rail freight carriage, as Janet Ryder regularly reminds me. That would bring with it economic growth and prosperity, as well reducing road congestion. The future of the Welsh freight industry would best be served by ensuring that it is easy to change modes of transport of cargo at different stages of its journey. Modern developments in freight waggons offer two opportunities for this: the ability to take deep sea containers directly on flatbed waggons and to transport laden lorries. The increased height and width of these loads means that not only must the track be sufficiently strong to take them, but that clearance under bridges and through tunnels must be increased.

Un prosiect yw datblygu potensial prif lein arfordir y gogledd i gynnal cerbydau nwyddau modern, fel y mae Janet Ryder yn fy atgoffa'n rheolaidd. Byddai hynny'n dod â thwf a ffyniant economaidd yn ei sgîl, yn ogystal â lleihau prysurdeb ar y ffyrdd. Y ffordd orau o wasanaethu diwydiant cludo nwyddau Cymru fyddai drwy sicrhau ei bod yn hawdd newid y dull cludo nwyddau ar wahanol gyfnodau o'u siwrnai. Mae datblygiadau modern mewn lorïau cludo yn cynnig dau gyfle i hyn: y gallu i gymryd cynwysyddion môr dwfn yn syth ar lorïau llawr gwastad a chludo lorïau a llwyth arnynt. Gan fod y llwythi hyn yn uwch ac yn lletach mae'n golygu nid yn unig fod yn rhaid i'r cledrau fod yn ddigon cryf i'w dal, ond bod yn rhaid cynyddu'r lle o dan bontydd a thrwy dwnelau.

Little of the rail network in the UK, including that in Wales, has been upgraded to these new standards. Railtrack made a commitment to a rolling programme of freight gauge improvement in its 1999 network management statement. My aim is to ensure that improvements in Wales occur as soon as possible so that we can take advantage of the potential increased freight carriage that our ports, including Holyhead, can offer. I have already notified Railtrack and the shadow Strategic Rail Authority of this aim and am actively supporting work to develop it. Last month, the Welsh Development Agency announced a major new study, in collaboration with Railtrack and local authorities, to look at the scope for expanding

Ychydig o'r rhwydwaith rheilffyrdd yn y DU, gan gynnwys Cymru, sydd wedi ei uwchraddio i'r safonau newydd hyn. Mae Railtrack wedi ymrwymo i raglen dreigl o welliannau i'r ddarpariaeth cludo nwyddau yn ei ddatganiad ar reoli'r rhwydwaith, 1999. Fy nod i yw sicrhau bod gwelliannau'n digwydd cyn gynted â phosibl yng Nghymru fel y gallwn fanteisio ar y gallu i gludo mwy o nwyddau y mae ein porthladdoedd, gan gynnwys Caergybi, yn ei gynnig. Yr wyf eisoes wedi hysbysu Railtrack a'r Awdurdod Rheilffyrdd Strategol cysgodol o'r nod hwn ac yr wyf yn cefnogi gwaith i'w ddatblygu yn frwd. Fis diwethaf, cyhoeddodd Awdurdod Datblygu Cymru astudiaeth newydd o bwys, ar y cyd â Railtrack a'r awdurdodau lleol, i

freight traffic in north and mid Wales. The consultants employed, the Spaven McCrossan Partnership, will focus on the north coast main line as one of five key freight corridors in the region. Strategies for freight development will be identified, together with the possible sources of funding, including the role that might be played by the freight facilities grant, which is administered by the Assembly.

edrych ar y posibiliadau i ehangu traffig cludo newydd yng ngogledd a chanolbarth Cymru. Bydd yr ymgynghorwyr a gyflogwyd, Partneriaeth Spaven McCrossan, yn canolbwyntio ar brif lein arfordir y gogledd fel un o'r pum coridor nwyddau allweddol yn y rhanbarth. Nodir strategaethau ar gyfer datblygu cludiant nwyddau, ynghyd â ffynonellau cyllido posibl, a'r rôl y gallai'r grant cyfleusterau cludiant, a weinyddir gan y Cynulliad, ei chwarae.

The European Union has also indicated its interest in promoting freight growth. Three lines in Wales, including the north coast main line, have been designated as part of the trans-European freight network. That should strengthen the position of all three lines in attracting the necessary inward private investment and European funding. Linked to this, I also want to explore how we can improve the effectiveness of transport links to the north coast main line. How can we improve services to Llandudno to support its flourishing conference trade? How should we link rural routes such as the Conwy Valley line, or provide for better interchange with the rural bus services? How do we ensure that the benefits of improvements on the main line are felt across the wider community?

Mae'r Undeb Ewropeaidd hefyd wedi nodi ei ddiddordeb mewn hybu twf cludiant nwyddau. Mae tair lein yng Nghymru, gan gynnwys prif lein arfordir y gogledd, wedi eu dynodi'n rhan o'r rhwydwaith cludiant traws-Ewropeaidd. Dylai hynny atgyfnerthu sefyllfa'r tair lein o ran denu'r mewnfuddsoddiad preifat angenrheidiol a chyllid Ewropeaidd. Ynghlwm wrth hyn, yr wyf hefyd am ymchwilio i sut y gallwn wella effeithiolrwydd cysylltiadau trafnidiaeth â phrif lein arfordir y gogledd. Sut y gallwn ni wella gwasanaethau i Landudno i gynnal ei diwydiant cynadledda llewyrchus? Sut y dylem ni gysylltu llwybrau gwledig fel lein Dyffryn Conwy, neu ddarparu gwell cyfnewid gyda'r gwasanaethau bws gwledig? Sut y mae sicrhau bod manteision y gwelliannau i'r brif lein yn cael eu teimlo ar draws y gymuned ehangach?

I also want to develop business at the port of Holyhead. Mostyn docks are an important consideration. Janet raised this and Tom Middlehurst discusses this with me regularly. The passenger services on the north coast main line need to provide good connections to the ferries to Ireland. I am also interested in exploring and taking the necessary steps, through responsible planning, for the further development of Holyhead as a freight port. That could be complemented by seeking journey time improvements across Anglesey by improving signalling. That is not covered by our current joint project with Railtrack, but is part of the local authority's transport plan and might attract funding under such European programmes as INTERREG.

Yr wyf hefyd am ddatblygu busnes ym mhorthladd Caergybi. Mae dociau Mostyn yn ystyriaeth bwysig. Cododd Janet hyn ac mae Tom Middlehurst yn ei drafod gyda mi yn rheolaidd. Mae angen i'r gwasanaethau teithwyr ar brif lein arfordir y gogledd gynnig cysylltiadau da gyda'r cychod fferi i Iwerddon. Mae gennyf ddiddordeb hefyd mewn ymchwilio, a chymryd y camau angenrheidiol, drwy gynllunio cyfrifol, i ddatblygu Caergybi ymhellach fel porthladd cludo nwyddau. Ochr yn ochr â hyn gellid ceisio cwtogi'r amser a gymer siwrneiau ar draws Ynys Môn drwy wella'r signalau. Nid yw hynny'n rhan o'n cyd brosiect cyfredol gyda Railtrack, ond mae'n rhan o gynllun trafnidiaeth yr awdurdod lleol a gallai ddenu cyllid o dan raglenni Ewropeaidd fel INTERREG.

Peter Rogers talked about the north-south link and Christine Humphreys described her

Siaradodd Peter Rogers am y cyswllt rhwng de a gogledd a disgrifiodd Christine

experience of it. I hope that I will be able to get her more straight-through trains from Cardiff to Holyhead. That is what this is about. I cannot let this debate pass without mentioning the importance of enhancing the north-south route via Wrexham. Imaginative proposals are being put forward for the new franchises, including increased train sleeping car facilities, and reduced journey times. I welcome these suggestions and the many more that we will see from train operating companies. If we are to get real about social inclusion and act to improve this north-south link, then this is our chance to do so. We will not hesitate to seize the opportunity.

Humphreys ei phrofiad hi ohono. Gobeithiaf allu cael mwy o drenau sydd yn mynd yn syth drwodd o Gaerdydd i Gaergybi iddi. Dyna hanfod y mater hwn. Ni allaf adael i'r ddadl hon fynd heibio heb sôn am bwysigrwydd gwella'r llwybr gogledd-de drwy Wrecsam. Mae cynigion llawn dychymyg yn cael eu cyflwyno ar gyfer y rhyddfreintiau newydd, gan gynnwys mwy o gyfleusterau ceir cysgu, a chwtogi amser siwrneiau. Croesawaf yr awgrymiadau hyn a'r llu o awgrymiadau eraill a welwn oddi wrth gwmnïau gweithredu trenau. Os ydym o ddifrif am gynnwys pawb mewn cymdeithas â gwneud rhywbeth i wella'r cyswllt hwn rhwng gogledd a de, dyma'n cyfle i wneud hynny. Nid oedwn rhag manteisio ar y cyfle.

To summarise, the north coast main line should remain a key priority in terms of service and infrastructure improvement. I am determined that in the partnership with Railtrack and the SRA we make our private, public and European resources go as far as possible. I know, John, without a shadow of a doubt, that you will support me and show that support in every way possible. We all want our projects to demonstrate value for money and to deliver visible improvements for the rail passengers, freight businesses and the wider community that rely upon the north coast main line. I assure you that I will pursue that with great vigour.

I grynhoi, dylai prif lein arfordir y gogledd barhau'n flaenoriaeth allweddol o safbwynt gwella'r gwasanaeth a'r seilwaith. Yr wyf yn benderfynol inni, yn ein partneriaeth gyda Railtrack a'r Awdurdod Rheilffyrdd Strategol, wneud i'n hadnoddau preifat, cyhoeddus ac Ewropeaidd fynd cyn belled â phosibl. Gwn, John, heb rithyn o amheuaeth, y gwnewch fy nghefnogi a dangos y gefnogaeth honno ym mhob ffordd bosibl. Mae pawb ohonom am i'n prosiectau ddangos gwerth am arian a chyflawni gwelliannau gweladwy i deithwyr trenau, busnesau cludo nwyddau a'r gymuned ehangach sydd yn dibynnu ar brif lein arfordir y gogledd. Rhoddaf bob sicrwydd ichi y byddaf yn mynd ar drywydd hynny â phob egni.

Y Llywydd: Diolch yn fawr. Mae hynny'n dod â'n sesiwn i ben. Diolch i'r Aelodau am eu cydweithrediad.

The Presiding Officer: Thank you. That brings our session to a close. I thank Members for their co-operation.

Daeth y sesiwn i ben am 5.30 p.m.
The session ended at 5.30 p.m.